Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Carafanau, Gwersylla a Chabanau:

Canllaw Cynllunio Atodol

Dyddiad Cymeradwyo Ymgynghoriad: Medi 2021

Dyddiad Cymeradwyo Mabwysiadu: Mai 2021

This item is also available in English/ Mae'r eitem hon ar gael yn Saesneg hefyd

CYNNWYS

This item is also available in English/ Mae'r eitem hon ar gael yn Saesneg hefyd 0
1. Cyflwyniad 2
2. Dull 4
3. Trosolwg o faterion i'w hystyried a sensitifrwydd 11
4. Crynodeb o'r argymhellion ar gyfer Ardaloedd Cymeriad Tirwedd 19
5. Asesiadau Sensitifrwydd a Chapasiti Ardaloedd Cymeriad Tirwedd 31
Atodiad A Geirfa a byrfoddau 127
Atodiad B Diffiniad o Garafán 134

FFIGURAU

Ffigur 1 Ardal yr astudiaeth a lleoliad safleoedd presennol sydd â chaniatâd
Ffigur 2 Sensitifrwydd tirwedd ar gyfer datblygiadau statig ar raddfa fawr
Ffigur 3 Sensitifrwydd tirwedd ar gyfer datblygiadau statig ar raddfa ganolig
Ffigur 4 Sensitifrwydd tirwedd ar gyfer datblygiadau statig ar raddfa fach
Ffigur 5 Sensitifrwydd tirwedd ar gyfer datblygiadau tymhorol ar raddfa fawr
Ffigur 6 Sensitifrwydd tirwedd ar gyfer datblygiadau tymhorol ar raddfa ganolig
Ffigur 7 Sensitifrwydd tirwedd ar gyfer datblygiadau tymhorol ar raddfa fach
Ffigur 8 Capasiti tirwedd ar gyfer datblygiadau carafanau a gwersylla

Mapiau unigol ar gyfer pob Ardal Cymeriad Tirwedd

1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r canllaw cynllunio atodol hwn yn cefnogi Polisi 41 Datblygiadau Carafanau, Gwersylla a Chabanau Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

1.2. Mae'r canllaw yn darparu asesiad systematig o gapasiti'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (ACT) presennol yn y Parc Cenedlaethol i gynnal ystod o wahanol fathau o ddatblygiadau carafanau, gwersylla a chabanau gan gynnwys mathau newydd o lety. Mae'n darparu cyngor fesul ACT ynghylch y gallu i uwchraddio safleoedd presennol, eu hymestyn i ddarparu mwy o lety, eu hymestyn i wella'u golwg a/neu a oes modd cael safleoedd newydd.

1.3. Mae datblygiadau ar raddfa fach iawn fel carafanau sengl mewn cwrtil a materion yn ymwneud â thrwyddedu safleoedd y tu hwnt i gwmpas y canllaw hwn.

1.4. Mae dau bwrpas statudol i'r Parc Cenedlaethol, a'r cyntaf yw gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal. Er mwyn cyflawni hyn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) yn ceisio gwarchod a gwella rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Y rhinweddau trosfwaol sy'n arbennig o berthnasol i'r canllaw hwn yw ysblander arfordir yr ardal, cymeriad nodedig yr aneddiadau, yr amgylchedd hanesyddol cyfoethog, pellenigrwydd, llonyddwch a gwylltineb a'r lle i enaid gael llonydd. Mae gan bob ardal cymeriad tirwedd (ACT) unigol ei rhinweddau a'i nodweddion arbennig ei hun.

1.5. Yr ail Bwrpas yw helpu pobl i ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Dros gyfnod o amser, mae nifer yr ymwelwyr sy'n cael eu denu i'r Parc wedi arwain at ddatblygiadau meysydd carafanau, gwersyllfaoedd a chabanau gwyliau sylweddol - gyda nifer yn eu lle cyn bodolaeth y Parc Cenedlaethol. Er bod datblygiadau o'r fath wedi cefnogi'r economi leol, ar brydiau, maent wedi effeithio ar y nodweddion hynny mae ymwelwyr yn ceisio eu mwynhau. Wrth ystyried ceisiadau ar gyfer safleoedd neu newidiadau newydd i safleoedd presennol, lle mae gwrthdaro nad oes modd ei ddatrys rhwng y Pwrpasau, mae'r Egwyddor Sandford yn rhoi goruchafiaeth i'r Pwrpas gwarchodol cyntaf. Yn unol â'r ddau bwrpas, mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i geisio meithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y parc cenedlaethol. Mae'r canllawiau'n ceisio cynorthwyo Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gyfeirio datblygiadau carafanau, gwersyllfaoedd a chabanau gwyliau presennol a newydd at safleoedd o fewn y cyd-destun Pwrpasau a Dyletswydd.

1.6. Mae'r canllaw cynllunio atodol hwn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn iddo gael ei ystyried gan APCAP a'i fabwysiadu'n ffurfiol. Gan fod y canllaw yn seiliedig ar dystiolaeth APCAP ar gyfer Polisi 41 Datblygiadau Carafanau, Gwersylla a Chabanau yr Archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol 2, bydd yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth wneud penderfyniadau yn y cyfamser, h.y. yn ystod y cyfnod ymgynghori.

1.7. Mae'r canllaw wedi'i strwythuro er mwyn esbonio'r dull a ddefnyddir (Pennod 2), rhoi trosolwg o'r materion y daethpwyd ar eu traws yn ystod yr asesiad (Pennod 3), crynhoi sensitifrwydd a chapasiti'r ACT (Pennod 4), ac yna asesu pob ACT yn eu tro (Pennod 5).

1.8. Mae'r atodiadau yn cynnwys rhestr termau (**Atodiad A.**), a'r diffiniad statudol o garafán **(Atodiad B).**

1.9. Dangosir patrwm datblygiadau gwersylla a charafanau presennol yn **Ffigur 1**.

2. Dull

2.1. Mae'r dull ar gyfer y canllaw hwn wedi'i seilio ar egwyddorion sensitifrwydd ac asesu capasiti'r dirwedd i gynnal gwahanol fathau o ddatblygiad heb gael effaith niweidiol.

2.2. Mae'r termau a ddefnyddir yn yr astudiaeth wedi'u rhestru yn yr eirfa yn **Atodiad A.**. Mae'r rhain yn dermau a ddiffinnir yn bennaf gan y canllawiau diweddaraf ynglŷn â chymeriad y tirwedd a'r morlun. Mae ffynonellau eraill yn cynnwys y Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd, a LANDMAP, offeryn gwerthuso tirweddau Cymru.

2.3. Nodir y canllawiau a'r cyfeiriadau perthnasol a gymerwyd i ystyriaeth gan y canllaw hwn isod, wedi'u trefnu yn ôl dyddiad:

- Topic Paper 6 Techniques and criteria for judging Capacity and Sensitivity, Countryside Agency, Carys Swanwick ac LUC, 2004.
- Guidelines for Landscape and Visual Impact Assessment Edition 3, 2013 (GLVIA3).
- Asesiad o gymeriad y dirwedd ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a fabwysiadwyd fel CCA ym mis Mehefin 2011.
- Asesiad o gymeriad y morlun ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a fabwysiadwyd fel CCA ym mis Rhagfyr 2013.
- System Wybodaeth LANDMAP, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mawrth 2012.
- An approach to landscape character assessment, Natural England, 2014.
- Astudiaethau o sensitifrwydd y dirwedd a'r morlun yng Nghymru a Lloegr.

Proses a dull y canllaw

2.4. Dangosir diagram llif o'r broses yn **Blwch 1**. Mae hwn yn dangos y gyfres o dasgau ac adroddiadau a wnaed wrth baratoi'r canllawiau.

2.5. Cynhaliwyd astudiaeth ddesg gan ddod â'r holl ddata perthnasol o fapio'r dirwedd, y morlun a'r cyfyngiadau ynghyd. Gan ddefnyddio'r cyd-destun hwn, cafodd y Parc Cenedlaethol ymweliad gan asesydd tirwedd a morlun profiadol gyda phensaer tirwedd arall sydd â gwybodaeth debyg am yr ardal yno i wrando ac ymateb. Ymwelwyd â phob ardal cymeriad tirwedd ac fe aseswyd pob un. Gwnaed tair taith ar gwch hefyd er mwyn asesu'r golygfeydd tuag at ac ar hyd yr arfordir o'r ardaloedd cymeriad morlun cyfagos. Roedd y teithiau hyn yn cwmpasu arfordir y de-ddwyrain rhwng Amroth a Lydstep, Bae Sain Ffraid a Bae Abergwaun / Bae Trefdraeth. Cynhaliwyd yr holl ymweliadau safle ddiwedd mis Gorffennaf ac ym mis Awst er mwyn sicrhau ei bod yn dymor brig ar gyfer gwersylla tymhorol, ac y byddai pebyll a charafanau teithiol ar eu mwyaf amlwg.

Diffiniadau

2.6. **Sensitifrwydd** - yn golygu i ba raddau y gall ardal cymeriad tirwedd (LCA) gynnal math a graddfa benodol o newid heb gael effaith andwyol ar ei chymeriad. Mae sensitifrwydd yn deillio o arfarniad o sensitifrwydd cymeriad y dirwedd a'i sensitifrwydd gweledol i ddatblygiad (neu ba mor agored yw i niwed, yn ôl GLVIA3).

Blwch 1: Crynodeb o broses yr astudiaeth



2.7. **Capasiti** - cymerir bod hyn yn golygu faint o newid y gall ACT ei gynnal heb newidiadau niweidiol i gymeriad neu nodweddion allweddol na chanlyniadau anaddas mewn perthynas â pholisïau tirwedd yn yr ardal. Mae'n ystyried datblygiadau presennol yn yr ardal yn ogystal â'r sensitifrwydd ac yn rhoi sylw i effeithiau cronnus posibl ar lefel strategol. Felly gellir ystyried bod ardal sydd eisoes â chryn dipyn o ddatblygiadau yn llawn i'w chapasiti er y gall fod gan ei nodweddion cymeriadol y gallu i gynnal rhai mathau o ddatblygiad. Ni fyddai gan ardal sydd â nodweddion cymeriadol sensitif iawn ac nad oes ganddi unrhyw ddatblygiadau ar hyn o bryd unrhyw gapasiti ar gyfer datblygu chwaith.

Diffinio gwahanol fathau o ddatblygiadau

2.8. Er mwyn canfod sensitifrwydd a chapasiti'r dirwedd i gynnal gwahanol fathau o ddatblygiadau gwersylla a charafanau, mae angen categoreiddio gwahanol fathau o ddatblygiadau. Mae yna garafanau statig, cabanau, carafanau teithiol, gwersylla ac unedau glampio fel podiau. Mae gan rai safleoedd gyfuniad o'r rhain. Gall y modd y cânt eu gosod, dwysedd, lliw unedau a ffactorau eraill hefyd ddylanwadu ar effaith unrhyw safle penodol. Er bod nifer cynyddol o wahanol fathau o lety nid yw'n glir pa mor llwyddiannus fydd y mathau newydd yn y tymor hir. Mae'r farchnad glampio yn symud yn gyflym gyda chynigion ar rai opsiynau creadigol er mwyn cydio yn nychymyg ymwelwyr. Mae'r rhain yn cynnwys carafanau sipsiwn, faniau gwersylla hen ffasiwn ac opsiynau mwy egsotig fel awyrennau disymud a chychod ben i waered. Felly mae angen symleiddio'r asesiad gan ganolbwyntio ar yr egwyddorion sylfaenol o bennu p'un ai yw safle / datblygiad yn barhaol trwy gydol y flwyddyn, h.y. yn statig neu'n dymhorol, a'i faint / graddfa. Nodir y rhain isod. Ymdrinnir â'r ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar sut olwg ddylai fod ar safle a sut y dylai ffitio i'r dirwedd yn y canllawiau cyffredinol yn **Adran 6.** a'r canllawiau ar gyfer pob ACT. Mae'r trothwyon maint yn deillio o asesiad rhagarweiniol o sampl o wahanol ddatblygiadau yn nhirwedd Sir Benfro gan roi ystyriaeth i'r raddfa ac i batrwm y dirwedd.

Tabl 1 Diffinio Gwahanol Fathau o Ddatblygiadau

Math o ddatblygiad a maint y safle	*Diffiniad*
Statig: mawr	Unedau statig gan gynnwys carafanau, cabanau a phodiau / opsiynau glampio ar ffurf strwythur caled ar safle mwy na 3 hectar.
Statig: canolig	Unedau statig gan gynnwys carafanau, cabanau a phodiau / opsiynau glampio ar ffurf strwythur caled ar safle >0.5Ha- 3 hectar.
Statig: bach	Unedau statig gan gynnwys carafanau, cabanau a phodiau / opsiynau glampio ar ffurf strwythur caled ar safle 0-0.5 hectar.
Tymhorol: mawr	Unedau tymhorol gan gynnwys carafanau teithiol, pebyll, opsiynau glampio o ddefnydd meddal fel iwrtau, tipis a phebyll saffari dros 3 hectar.
Tymhorol: canolig	Unedau tymhorol gan gynnwys carafanau teithiol, pebyll, opsiynau glampio o ddefnydd meddal fel iwrtau, tipis a phebyll saffari >0.5-3 hectar.
Tymhorol: bach	Unedau tymhorol gan gynnwys carafanau teithiol, pebyll, opsiynau glampio o ddefnydd meddal fel iwrtau, tipis a phebyll saffari 0-0.5 hectar.

2.9. Mae rhai amodau pwysig i'w hychwanegu at y diffiniadau uchod o ddatblygiadau:

- Fel rheol, ystyrir bod carafanau teithiol sy'n cael eu gadael ar y safle dros y rhan fwyaf o dymor yr haf neu'n cael eu storio *yn y fan a'r lle* dros y gaeaf yn gyfystyr â charafanau statig ar gyfer yr asesiad hwn o sensitifrwydd.

- Tybir bod opsiynau glampio o ddefnydd meddal fel iwrtau, tipis a phebyll saffari yn dymhorol, ac yn cael eu tynnu o'r safle am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Tybir hefyd eu bod yn sefyll ar eu pennau eu hunain heb elfennau caled fel deciau pren neu ffensys. Pan fydd elfennau o'r fath ynghlwm â nhw, gellir eu hystyried yn gyfystyr â charafanau statig fel rheol.
- Fel rheol, ystyrir bod opsiynau glampio ar ffurf strwythur caled fel podiau gwersylla yn gyfystyr â charafanau statig, yn enwedig os ydynt yn barhaol, ar sylfeini, gyda deciau, wedi'u cysylltu â thrydan neu ddŵr neu bibellau wedi'u plymio. Efallai y bydd sefyllfaoedd penodol lle mae'r adeiladwaith yn annibynnol ac yn cael eu symud o'r safle am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Gellir ystyried y rhain fel eithriadau fesul achos.

2.10. Mae'r meintiau ar gyfer safleoedd a nodir uchod yn ganllaw bras i gapasiti gan fod sbectrwm o effeithiau gan wahanol fathau o ddatblygiadau ar wahanol safleoedd. Gall fod achosion lle bydd datblygiadau llai yn cael mwy o effaith mewn rhai lleoliadau a gallai safleoedd ychydig yn fwy gael llai o effaith mewn lleoliadau eraill. Bydd yr isadeiledd sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o ddatblygiadau yn dylanwadu ar effaith y datblygiad. Byddai angen dangos effeithiau safleoedd a datblygiadau unigol fesul achos.

Pennu Sensitifrwydd

2.11. Mae sensitifrwydd yn deillio o gyfuno sensitifrwydd cymeriad tirwedd a sensitifrwydd gweledol â gwerth. Nodir y ffactorau sy'n sail i ddyfarniad ynglŷn â phob un yn Nhablau 2 a 3. Ar y seiliau hynny, diffinnir y lefelau sensitifrwydd fel a ganlyn:

Lefel	*Diffiniad*
Uchel	Mae tirwedd a / neu nodweddion gweledol yr ardal cymeriad tirwedd yn agored iawn i newid a/ neu mae ei gwerthoedd cynhenid yn uchel neu'n uchel/canolig ac nid yw'r ardal cymeriad tirwedd yn gallu derbyn y math o ddatblygiad sydd dan sylw heb beri newid cymeriad sylweddol neu effeithiau andwyol. Mae'r trothwyon ar gyfer newid sylweddol yn isel iawn.
Uchel / canolig	Mae tirwedd a/neu nodweddion gweledol yr ardal cymeriad tirwedd yn agored i newid a/neu mae ei gwerthoedd cynhenid yn ganolig hyd at uchel ac nid yw'r ardal cymeriad tirwedd ond yn gallu derbyn y math o ddatblygiad sydd dan sylw o fewn sefyllfaoedd penodedig a chyfyngedig heb beri newid cymeriad sylweddol neu effeithiau andwyol. Mae'r trothwyon ar gyfer newid sylweddol yn isel.
Canolig	Mae tirwedd a/neu nodweddion gweledol yr ardal cymeriad tirwedd yn agored i newid a/neu mae ei gwerthoedd cynhenid yn ganolig/isel hyd at uchel/canolig a/neu *gall* fod gan yr ardal cymeriad tirwedd rywfaint o botensial i allu derbyn datblygiad ar yr arwynebedd sydd dan sylw mewn rhai sefyllfaoedd heb beri newid cymeriad sylweddol neu effeithiau andwyol. Mae'r trothwyon ar gyfer newid sylweddol yn ganolradd.
Canolig / isel	Mae tirwedd a/neu nodweddion gweledol yr ardal cymeriad tirwedd yn gallu gwrthsefyll newid a/neu mae ei gwerthoedd cynhenid yn ganolig/isel neu'n isel ac mae'r ardal cymeriad tirwedd yn gallu derbyn y math o ddatblygiad sydd dan sylw mewn nifer o sefyllfaoedd heb beri newid cymeriad sylweddol neu effeithiau andwyol. Mae'r trothwyon ar gyfer newid sylweddol yn uchel.
Isel	Mae tirwedd a/neu nodweddion gweledol yr ardal cymeriad tirwedd yn gadarn neu wedi'u diraddio a/neu mae ei gwerthoedd cynhenid yn isel ac mae'r ardal cymeriad tirwedd yn gallu derbyn y math o ddatblygiad sydd dan sylw heb beri newid cymeriad sylweddol neu effeithiau andwyol. Mae'r trothwyon ar gyfer newid sylweddol yn uchel iawn.

Tabl 2 Meini prawf sensitifrwydd cymeriad tirwedd / morlun ar gyfer safleoedd carafanau, gwersylla a chabanau

Prif feini prawf	Meini prawf / ffactorau penodol	Nodweddion sy'n llai sensitif	Nodweddion sy'n fwy sensitif
FFISEGOL			
Graddfa a phatrwm amgáu'r tirffurf	Graddfa'r tirffurf	Tirffurfiau ar raddfa fwy a allai fod â gwell gallu i gynnal datblygiadau mwy.	Tirffurfiau ar raddfa lai â nodweddion pendant y byddai datblygiadau mwy, lle gall fod angen torri a llenwi llethrau, yn gallu amharu arnynt. Efallai y gellir cynnal datblygiadau llai yn well.
	Ffurf topograffig	Gallai llwyfandiroedd neu dirweddau gwastad fod yn fwy addas ar gyfer datblygiadau mwy ac mae'n bosibl y byddent yn llai gweladwy (yn dibynnu ar y gorchudd tir).	Tirffurfiau gyda newidiadau lefel pendant gan gynnwys clogwyni, llethrau arfordirol, tirweddau tonnog, tirffurfiau crwn, cribau cul, llethrau serth ar ochr dyffrynnoedd a llechweddau a dyffrynnoedd â lloriau cul gan y gallai datblygiadau fod yn weladwy oni bai eu bod ar raddfa fach ac yn ddibynnol ar y gorchudd tir.
	Nenlinell	Ardaloedd / safleoedd heb nenlinell.	Nenlinellau sy'n rhan bwysig ac amlwg yn y tirlun/morlun e.e. fel cefnlen i dir is neu'r glannau.
	Perthynas â'r môr	Ardaloedd mewndirol nad ydynt yn rhyngweladwy â'r arfordir.	Glannau ac ynysoedd sydd â pherthynas gref â'r môr.
Patrwm y gorchudd tir, graddfa a phatrwm amgáu	Graddfa'r gorchudd tir	Patrwm gorchudd tir/caeau ar raddfa fwy sy'n fwy abl i gynnal datblygiadau mwy.	Patrwm gorchudd tir/caeau ar raddfa lai sy'n llai abl i gynnal datblygiadau os ydynt yn ymestyn dros sawl cae.
	Math/ Patrwm	Planhigfeydd coedwigaeth, amaethyddiaeth syml ar raddfa fawr gyda phatrymau caeau unionsyth.	Patrwm afreolaidd neu gymhleth, llawer ohono'n dir fferm porfaol gyda gwrychoedd a choed neu dir lled-naturiol lle gallai graddfa a chymeriad unionsyth datblygiadau mwy orymyrryd neu wrthdaro â'r patrwm.
	Patrwm amgáu	Lle bydd clawdd o goed neu wrychoedd yn cyfyngu golwg datblygiadau yn y gaeaf yn ogystal â'r haf.	Tirweddau / morluniau agored, heb eu hamgáu, lle gall datblygiadau fod yn amlwg iawn gan gynnwys ardaloedd sydd â chloddiau traddodiadol heb wrychoedd yn bennaf.
	Tirwedd hanesyddol / Dyfnder amser	Tirweddau mwy diweddar megis tir wedi'i adfer, tir wedi'i amgáu'n ddiweddar lle gallai datblygiadau beidio â tharfu cymaint.	Tirweddau hŷn gyda dyfnder amser sylweddol a nodweddion cysylltiedig lle gellir ystyried datblygiadau yn elfennau ymwthiol ychwanegol e.e. coetir hynafol, parcdir hanesyddol, henebion rhestredig a'u lleoliadau, tirweddau hanesyddol cofrestredig.
	Cymeriad Tirwedd / Cynefin / Ecolegol	Tirweddau heb fawr o amrywiaeth ecolegol lle na fyddai datblygiadau yn niweidio cynefinoedd e.e. tir porfa wedi'i wella.	Tirweddau ag amrywiaeth ecolegol lle gallai datblygiadau wrthdaro â'r cymeriad a niweidio cynefinoedd megis safleoedd dynodedig cenedlaethol a lleol a gwarchodfeydd natur, porfa barhaol a chynefinoedd lled-naturiol e.e. twyni, coridorau afonydd a choetir.
Math a phatrwm anheddiad	Patrwm anheddiad	Ardaloedd trefol modern ar raddfa fawr lle gallai datblygiadau mwy fod yn gymesur o ran graddfa a chymeriad.	Ardaloedd annatblygedig gan gynnwys y glannau. Pentrefi gwledig ac aneddiadau clwstwr eraill yn enwedig rhai sydd â chraidd hanesyddol lle gallai datblygiadau canolig a

Prif feini prawf	Meini prawf / ffactorau penodol	Nodweddion sy'n llai sensitif	Nodweddion sy'n fwy sensitif
			mawr gystadlu â'r cymeriad a'r patrwm traddodiadol.
	Symud	Prif ffyrdd prysur ac ardaloedd eraill lle ceir symudiadau mecanyddol arwyddocaol a lle gallai datblygiadau fod yn gydnaws â'r cymeriad.	Dim ffyrdd neu lonydd gwledig tawel yn unig lle gallai datblygiadau ddal sylw'r llygad.
Nodweddion tirwedd / ffocysau / tirnodau	Nodweddion tirnodol / ffocysau sensitif	Tirweddau heb unrhyw nodweddion tirnodol sensitif lle gallai datblygiadau amharu ar y lleoliadau.	Tirweddau â thirnodau a nodweddion tirnodol megis meindyrau neu dyrau eglwys, ffoleddau, parciau a gerddi, adeiladau rhestredig amlwg a henebion lle gallai datblygiadau gystadlu fel ffocysau tirwedd ac amharu ar y lleoliadau.
CANFYDDIA-DOL			
Pa brofiad a geir o'r dirwedd	Golygfeydd	Presenoldeb golygfeydd anneniadol heb unrhyw olygfeydd deniadol.	Presenoldeb golygfeydd deniadol heb unrhyw olygfeydd anneniadol lle gallai datblygiadau amharu ar, neu ymyrryd â, golygfeydd a werthfawrogir, megis o Lwybr Arfordir Sir Benfro, golygfannau allweddol, llwybrau teithiau cychod hamdden.
	Tawelwch	Ardal lai tawel lle gellir cynnal datblygiadau heb ymyrryd â'r cymeriad.	Ardal fwy tawel gyda mwy o ymdeimlad o bellter lle gallai datblygiadau, yn enwedig datblygiadau statig, fod yn anghydnaws â'r cymeriad.
Cyd-destun	Perthynas â thirweddau cyfagos a gweld rhyngddynt	Golwg gyfyngedig neu ddim o gwbl gydag ardaloedd cymeriad morlun wedi'i nodi'n rhannol gan ffin fewndirol yr ardal cymeriad morlun o fewn yr ACT. Tirwedd hunangynhwysol gyda pherthynas gyfyngedig ag ardaloedd cyfagos lle gellir cyfyngu effeithiau datblygiadau i'r ardal cymeriad e.e. ardaloedd mawr o gymeriad cyson gyda ffiniau cynnil ag ACTau cyfagos.	Rhyngwelededd amlwg gydag ardal cymeriad morlun wedi'i nodi'n rhannol gan ffin fewndirol yr ardal cymeriad y morlun o fewn yr ACT. Cefnlen amlwg yn cael ei darparu gan yr ardal hon neu ardal gyfagos lle mae effeithiau datblygiadau yn amlwg o dirffurf cyfagos neu'n cael eu hamlygu ganddo e.e. clogwyni, llethrau sgarp, ochrau dyffryn serth, bryniau ger yr iseldiroedd neu ddŵr.

Tabl 3: Meini Prawf Gwerth

Byddai gwerth ACT yn deillio o'r ffactorau canlynol:
• Dynodiadau yn y safle ac o'i gwmpas ar gyfer y dirwedd, e.e. treftadaeth ddiwylliannol genedlaethol neu leol, h.y. hanesyddol neu archaeolegol, neu ar gyfer bioamrywiaeth. • Gwerthoedd agweddau LANDMAP. • Arwyddion o ddiddordeb neu ddefnydd lleol neu gymunedol e.e. parciau gwledig, ardal a ddefnyddir ar gyfer hamdden lle mae'r dirwedd yn bwysig. • Diwylliant, celf a llenyddiaeth, deunyddiau hyrwyddo neu wybodaeth i dwristiaid yn cynnwys golygfeydd allweddol. • Amcanion cadwraeth a / neu tirwedd lleol.

- Asesiad o ansawdd golygfeydd, llonyddwch, naws am le / cymeriad, cyfander / cyflwr, prinder, cynrychioladwyedd a rhinweddau canfyddiadol eraill.

Pennu capasiti'r dirwedd

2.12. Rhaid ystyried gallu ACT i gynnal datblygiad pellach o fewn paramedrau prif bwrpas y Parc Cenedlaethol. Mae hyn er mwyn gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal. Lle ceir ardaloedd lle mae datblygiadau presennol yn tynnu'n groes i'r pwrpas hwnnw, mae'n debygol bod y capasiti ar gyfer datblygu ymhellach yn gyfyngedig iawn ac y dylid gwella'r datblygiadau presennol er mwyn gwella'r ardal.

2.13. Mae capasiti yn deillio o ystyried ei sensitifrwydd i wahanol raddfeydd a mathau o ddatblygiad a'r datblygiadau carafanau a gwersylla sydd eisoes yn yr ardal honno, ac yn weladwy o'r ardal. Rhennir yr asesiad capasiti rhwng y capasiti ar gyfer safleoedd newydd, estyn safleoedd presennol gan gynyddu nifer yr unedau ac estyn y safleoedd presennol er mwyn gwella ar yr hyn sydd yno heb unrhyw gynnydd yng nghyfanswm nifer yr unedau. Mae'r opsiwn olaf yn cynnig cyfle i wella 'cynnig' safle penodol. Mae'r capasiti i wella safleoedd hefyd wedi'i amlinellu.

2.14. Mae'r diffiniadau ar gyfer capasiti fel a ganlyn:

Tabl 4 Diffiniadau capasiti

Lefel	*Diffiniad*
Dim capasiti / Wedi cyrraedd capasiti	Nid yw'r ardal yn gallu cynnal rhagor o unedau / unrhyw unedau gan fod ganddi sensitifrwydd uchel neu uchel / canolig a / neu mae yno ddatblygiadau carafanau / cabanau / gwersylla sylweddol sydd, gyda'i gilydd, eisoes yn cael effaith andwyol arwyddocaol ar gymeriad ac yn gwrthdaro â phrif bwrpas y Parc Cenedlaethol.
Cyfyngedig	Dim ond nifer cyfyngedig iawn o unedau ychwanegol sy'n gysylltiedig â safleoedd presennol y gall yr ardal eu cynnal gan fod ganddi sensitifrwydd uchel neu uchel / canolig a / neu mae yno ddatblygiadau carafanau / cabanau / gwersylla sydd, gyda'i gilydd, eisoes yn cael effaith andwyol arwyddocaol ar gymeriad ac yn gwrthdaro â phrif bwrpas y Parc Cenedlaethol.
Cymedrol	Efallai y bydd yr ardal yn gallu cynnal rhywfaint o unedau ychwanegol mewn rhai sefyllfaoedd penodol gan fod ganddi sensitifrwydd rhwng uchel / canolig a chanolig / isel a / neu mae yno rywfaint o ddatblygiadau carafanau / cabanau / gwersylla sydd yn cael effaith andwyol ar gymeriad mewn rhannau ac yn gwrthdaro â phrif bwrpas y Parc Cenedlaethol.
Sylweddol/ cymedrol	Mae'r ardal yn gallu cynnal rhagor o unedau mewn sawl sefyllfa heb effeithiau andwyol ar gymeriad gan fod ganddi sensitifrwydd rhwng isel a chanolig / isel a / neu mae yno ddatblygiadau carafanau / cabanau / gwersylla sydd yn cael effaith ychydig yn andwyol ar gymeriad ac yn gwrthdaro ychydig â phrif bwrpas y Parc Cenedlaethol.
Sylweddol	Mae'r ardal yn gallu cynnal nifer sylweddol o unedau ychwanegol heb effeithiau andwyol arni gan fod ganddi sensitifrwydd rhwng isel a chanolig/isel a/neu mae yno ddatblygiadau carafanau / cabanau / gwersylla nad ydynt yn effeithio ar gymeriad ac sy'n gyson â phrif bwrpas y Parc Cenedlaethol.

Canllawiau

2.15. Lle mae potensial i unedau newydd gael eu lleoli o fewn ardal, rhoddir canllawiau ar sut i leihau effeithiau ar dirwedd, morlun ac elfennau gweledol. Mae rhestr generig o ganllawiau lleoli i'w gweld yn **Adran 6** a dylid ystyried eu bod yn berthnasol drwyddi

draw. Mae'r canllawiau perthnasol ar gyfer pob ACT yn cael eu hamlinellu hefyd yn yr asesiad sensitifrwydd a chapasiti ar gyfer pob un. Mae hyn yn golygu bod rhywfaint o ailadrodd yn yr adroddiad ond dylai sicrhau nad oes amheuaeth.

2.16. Mae'r canllawiau ar liniaru yn nodi sut i wella safleoedd presennol a sut i sicrhau dyluniadau cadarnhaol mewn safleoedd newydd neu estyniadau. Yn yr un modd â'r canllawiau lleoli mae rhestr generig gyflawn i'w gweld yn **Adran 6** ond mae'r ffactorau perthnasol wedi'u rhestru hefyd ar gyfer pob ACT.

3. Trosolwg o faterion i'w hystyried a sensitifrwydd

3.1. Mae'r asesiad wedi datgelu nifer o faterion i'w hystyried. Dyma'r materion dan sylw:

a. Carafanau statig yw'r math mwyaf gweladwy o ddatblygiad.

b. Y safleoedd sy'n cael yr effaith fwyaf niweidiol ar y dirwedd a'r morlun yw safleoedd gyda charafanau statig a strwythurau caled eraill wedi'u lleoli ar benrhynau arfordirol ac ar safleoedd agored ar lethrau sy'n wynebu'r arfordir a'r môr.

c. Mae'r rhannau sy'n weddill o'r arfordir a'r ynysoedd heb unrhyw ddatblygiadau yn werthfawr iawn ac yn crynhoi cymeriad a rhinweddau'r Parc Cenedlaethol.

d. Mae yna lawer o safleoedd sydd â dwysedd uchel o garafanau statig yn llenwi safleoedd gyda'r bylchau lleiaf posibl o fewn y rheoliadau. Maent yn cael mwy o effaith andwyol na safleoedd lle mae carafanau wedi'u lleoli o amgylch ymyl caeau neu o gwmpas tir gwyrdd pendant.

e. Mae safleoedd sydd heb eu gosod yn ôl cynllun cydlynus da a heb eu sgrinio'n briodol yn gallu bod yn hyll o'u barnu yn ôl y canllawiau ac egwyddorion fel y rhai a fynegir yng Nghanllaw Cynllunio Atodol Dylunio a Datblygu Cynaliadwy Awdurdod y Parc Cenedlaethol (mabwysiadwyd Mehefin 2011, diweddariad technegol Rhagfyr 2013).

f. Mae yna enghreifftiau o safleoedd sy'n ffitio i mewn i batrwm y dirwedd ac nad ydyn nhw'n weladwy o ran helaeth o'r parth cyhoeddus. Dengys hyn ei bod hi'n bosibl ffitio'r math hwn o ddatblygiad i mewn i rai sefyllfaoedd.

g. Mae rhyngwelededd gyda datblygiadau carafanau a gwersylla yn Sir Benfro y tu allan i'r Parc Cenedlaethol a all gael effeithiau andwyol y ddwy ochr i'r ffin. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y de-ddwyrain.

h. Mae carafanau statig o liw gwyn neu hufen yn fwy ymwthiol yn gyffredinol, ac eithrio pan welir hwy â'r awyr yn gefnlen uniongyrchol. Mae rhai o liw gwyrdd golau gyda charafanau gwyrdd tywyll yn llai ymwthiol ar y cyfan o'u gweld â chefnlen o lystyfiant, cloddiau neu gaeau.

i. Gall amrywiaeth sylweddol rhwng dyluniadau neu liwiau carafanau statig o fewn safle neu eu cyfuno â mathau eraill o ddatblygiadau fod yn hyll oni bai eu bod yn ffurfio patrwm rhesymegol a chydlynus e.e. carafanau gwyn / hufen â'r awyr yn gefnlen a rhai a gwyrdd tywyll o flaen gwrychoedd.

j. Cyfran fach iawn o gyfanswm yr holl unedau presennol yw opsiynau gwersylla fel iwrtau, tipis a phodiau ac maent yn tueddu i fod ar raddfa fach. Pan fyddant wedi'u lleoli'n ofalus gallant ffitio'n foddhaol ond lle maent yn gymysg â mathau eraill o ddatblygiadau caled yn benodol, megis carafanau statig yn yr un cae, gallant ymddangos yn anghydweddol. Gan eu bod yn aros yn eu lle trwy gydol y tymor, mae angen rhoi gofal arbennig i'w lleoliad a'u trefniant ar safleoedd.

k. Mae amrywiaeth sylweddol yn nifer y datblygiadau mewn gwahanol rannau o'r Parc Cenedlaethol. Mae datblygiadau carafanau a gwersylla wedi'u crynhoi'n arbennig yn y de-ddwyrain o amgylch Saundersfoot, Dinbych-y-pysgod a Lydstep.

Ymhlith yr ardaloedd eraill sydd â datblygiad sylweddol mae Bae Sain Ffraid a'r ardal ger Y Porth Mawr. Mae yna ddatblygiadau mwy ynysig tua'r gogledd. Nid oes unrhyw ddatblygiadau carafanau na gwersylla mewn rhai ardaloedd, megis yr ynysoedd.

l. Mae'n ymddangos bod nifer o safleoedd tymhorol anffurfiol, gyda phebyll yn bennaf, ond rhai gydag ychydig o garafanau teithiol, nad oes ganddynt ganiatâd o reidrwydd. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn fach ac yn gynnil, gydag arwyddion dros dro anffurfiol iawn a chyfleusterau cludadwy megis portaloos. Maent yn cynnwys rhai safleoedd lle ceir gwersylla ar arwynebedd lled-naturiol. Mae'n wybyddus bod carafanau modur yn parcio dros nos mewn rhai lleoliadau.

m. Gall rhai safleoedd achosi aflonyddwch y tu hwnt i'w ffiniau lle cânt eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau fel gwyliau cerddorol. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn ardaloedd o arfordir tawel.

n. Mae safleoedd carafanau a gwersylla y tu hwnt i ffiniau'r Parc Cenedlaethol yn rhyngweladwy gyda'r Parc Cenedlaethol mewn mannau ac yn cyfrannu at effeithiau cronnus mewn lleoedd fel yr ardal o amgylch Saundersfoot a Dinbych-y-pysgod.

3.2. Mae'r materion sydd i'w hystyried yn cael eu hamlygu mewn ffotograffau a dynnwyd ar yr ymweliadau safle.

Mae safleoedd carafanau statig i'w gweld yn amlwg o Lwybr Arfordir Sir Benfro ger Saundersfoot, ar lethrau i lawr i'r arfordir yn ogystal ag ar lethrau tir uchel yn y gefnwlad.

Mae safleoedd carafanau statig sydd â golygfeydd o'r môr a'r arfordir hefyd i'w gweld o'r môr a'r arfordir.

Mae rhai carafanau i'w gweld ar y gorwel o draethau - Wiseman's Bridge.

Mae golygfeydd o fannau uchel yn bwysig a gall safleoedd carafanau effeithio ar y golygfeydd hyn - Carn Llidi.

Mae rhai safleoedd yn amlwg iawn o'r môr yn ogystal ag ar hyd yr arfordir - Lydstep.

Safleoedd ar benrhynau ydy'r rhai sy'n tueddu i fod amlycaf mewn golygfeydd ar hyd yr arfordir ac o'r môr - Bae Abergwaun.

Rhan o safle carafanau statig heb unrhyw liniaru - mae gweddill y safle yn y dyffryn wedi'i guddio o'r golwg gan dirffurf - Niwgwl.

Carafanau statig ar y gorwel sydd i'w gweld o'r môr a Llwybr Arfordir Sir Benfro - mae paent gwyrdd yn cynorthwyo i leihau'r effeithiau - Bae Caerfai.

Iwrtau mewn safle gwerthfawr ger Llwybr Arfordir Sir Benfro gyda phebyll eraill wedi'u gosod o amgylch ymyl caeau - Bae Caerfai.

Iwrtau mewn tirwedd ar raddfa fach sy'n gysylltiedig â fferm a chyfleusterau nad ydynt yn amlwg. Mae'r rhain yn gynnil o fewn y dirwedd ehangach er eu bod nesaf at Lwybr Arfordir Sir Benfro.

Pod gwersylla gyda phabell cyfleusterau cysylltiedig fwy na thebyg - nid yw'r strwythurau'n gysylltiedig ag unrhyw nodweddion tirnodol penodol felly maen nhw'n ymddangos braidd yn ynysig.

Safle carafanau wedi'i sgrinio'n dda gyda gwrychoedd uchel wedi'u cadw.

Safle carafanau wedi'i sgrinio'n weddol dda gyda gwrychoedd uchel a choed wedi'u cadw.

Gwrych / prysgwydd draenen ddu wedi'i dorri'n ddiweddar i ddatgelu carafán i'r golwg o'r briffordd gyhoeddus gan leihau'r integreiddio. Mae deciau pren yn ychwanegu ymhellach at ffurf adeiledig.

Safle gwersylla a charafanau teithiol wrth draeth syrffio a nofio poblogaidd. Mae'r datblygiad hynod amlwg wedi'i leoli ar y ffyrdd i mewn i Benrhyn Tyddewi er nad yw'n weladwy o'r môr o gwbl oherwydd y marian mawr - Niwgwl

Gwersylla anffurfiol yn ôl pob golwg - ger Pen Caer.

3.3. Mae'r nodweddion allweddol sy'n sensitif i ddatblygu amhriodol sy'n deillio o'r asesiadau cymeriad tirwedd a morlun yn cynnwys:

a. Yr arfordiroedd naturiol cymhleth, garw, â'u baeau, pentiroedd ac ynysoedd dramatig e.e. Penmaendewi, Sgomer, Ynys Dewi, Pen Caer, Penrhyn Ystagbwll.

b. Canolbwyntiau pwysig ar hyd yr arfordir ac allan i'r môr gan gynnwys ynysoedd, ynysigau, pentiroedd a thraethau ysgubol nodedig fel Y Porth Mawr, Freshwater West a Bae Trefdraeth.

c. Bryniau a chefnlenni digyffwrdd sy'n cyfrannu at gymeriad morlun e.e. Carn Llidi, Mynydd Carningli a Bryniau'r Preseli.

d. Golygfeydd o leoedd allweddol fel pentiroedd, bryniau arfordirol a Llwybr Arfordir Sir Benfro.

e. Morluniau tawel lle nad oes llawer o aflonyddwch ac arwyddion o ddatblygu ac awyr dywyll.

f. Morluniau anghysbell heb eu datblygu gyda chymeriad gwyllt, naturiol iawn, elfennol fel yr ynysoedd, arfordir y gogledd i'r de-orllewin o Ben Caer a phenrhyn Castellmartin.

g. Cymeriad diarffordd a thawel, â digon o goed yn aber y Daugleddau â'i geiau hanesyddol.

h. Aneddiadau arfordirol hanesyddol traddodiadol ar raddfa fach fel Solfach, Abercastell, Porthgain a Threfdraeth, a phorthladdoedd fel Porthclais a Chei Ystagbwll.

i. Ardaloedd cadwraeth arfordirol eraill sydd â nodweddion tirnodol dramatig sy'n perthyn i aneddiadau megis nenlinell a harbwr tref Sioraidd Dinbych-y-pysgod.

j. Presenoldeb nodweddion tirnodol hanesyddol yr arfordir a'r ynysoedd megis caerau penrhyn, cestyll, capeli e.e. San Gofan, mynachlogydd h.y. Ynys Bŷr, adeiladau a strwythurau eraill a nodweddion treftadaeth eraill sydd â pherthynas gref â'r arfordir a'r môr yn weledol, yn ffisegol ac yn ddiwylliannol.

k. Presenoldeb cynefinoedd y glannau â lefel uchel o fioamrywiaeth yn enwedig Parth Cadwraeth Forol Sgomer, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol megis Ynys Dewi, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o'r arfordir ac allan i'r môr o amgylch Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Caerfyrddin a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) arfordirol.

l. Cysylltiadau'r ardal â Dewi Sant a Gerallt Gymro a ffigurau hanesyddol eraill.

4. Crynodeb o'r argymhellion ar gyfer Ardaloedd Cymeriad Tirwedd

4.1. Prif argymhellion y canllaw hwn yn gyffredinol yw lleoli unrhyw ddatblygiad newydd i ffwrdd o'r arfordir a Bryniau'r Preseli mewn lleoliad nad yw'n rhyngweladwy gyda nhw, a heb unrhyw gyfyngiadau arwyddocaol o ran cadwraeth hanesyddol na natur, er mwyn gwarchod rhinweddau allweddol y Parc Cenedlaethol. Lle mae datblygiadau eisoes yn eu lle yn agos at yr arfordir, argymhellir bod y safleoedd yn cael eu gwella mewn mannau trwy adolygu gosodiad carafanau statig yn benodol, gan osod gofod amwynder neu unedau tymhorol mewn lleoliadau mwy amlwg ar y safleoedd yn ddelfrydol.

4.2. Ystyrir bod rhai ACTau sydd eisoes â datblygiadau â dwysedd arwyddocaol yn llawn gyda rhai safleoedd presennol sydd angen eu gwella. Ystyrir bod ardaloedd eraill sydd heb unrhyw ddatblygiadau yn sensitif iawn ac y dylid cynnal eu cymeriad heb ddatblygiadau newydd. Mae'r ACTau hyn yn cynnwys yr ynysoedd a phentiroedd a bryniau agored fel Carn Llidi. Mae ACTau eraill lle mae potensial cyfyngedig ar gyfer safleoedd newydd, fel arfer ar raddfa fach, neu ymestyn safleoedd presennol.

4.3. Egwyddor allweddol yw, os yw'r canllaw'n ystyried bod math penodol o ddatblygiad ar raddfa benodol yn dderbyniol mewn ACT penodol, er enghraifft safle newydd ar gyfer datblygiad tymhorol ar raddfa fach, nid yw hyn yn golygu, pe bai'n cael ei weithredu, y byddai yn briodol neu'n dderbyniol i gynyddu maint neu ddwysau'r defnydd o'r safle yn y dyfodol. Byddai'r sensitifrwydd a'r capasiti yn yr ACT yn aros yr un fath gan ei fod yn seiliedig ar rinweddau ac egwyddorion y Parc Cenedlaethol.

4.4. Mae crynodeb o'r canfyddiadau ar sensitifrwydd a chapasiti cyffredinol ar gyfer pob ACT yn cael eu hamlinellu isod gyda ffigurau cryno yn nodi patrwm y sensitifrwydd a'r capasiti. Mae pob ACT yn cael ei hystyried yn unigol yn **Adran 5**.

4.5. Mae'r asesiadau hyn yn darparu cyd-destun eang ar gyfer ystyried cynigion ac felly oherwydd yr ystod eang o ran maint, natur a lleoliad safleoedd, mae'n bwysig bod safleoedd unigol yn cael eu hystyried fesul achos gan ystyried amgylchiadau a nodweddion unigol y safle.

4.6. Mae'r argymhellion a'r canllawiau sydd wedi'u teilwra ar gyfer pob ardal cymeriad tirwedd yn unigol yn cael blaenoriaeth dros y canllaw generig ar leoli, lliniaru a gwella a amlinellir yn **Adran 6** yr adroddiad hwn.

4.7. Byddai angen ystyried effeithiau cronnus datblygiadau hefyd gan gynnwys effeithiau ar ardaloedd awdurdodau cynllunio cyfagos.

Tabl 5 Ardaloedd Cymeriad Tirwedd - Sensitifrwydd

Rhif ACT	Enw	Sensitifrwydd					
		Statig: mawr	**Statig: canolig**	**Statig: bach**	**Tymhorol: mawr**	**Tymhorol: canolig**	**Tymhorol: bach**
1	Arfordir Anheddog Saundersfoot	Uchel/ canolig	Canolig	Canolig	Uchel/ canolig	Canolig	Canolig/isel
2	Dinbych-y-pysgod	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Canolig	Uchel/ canolig	Canolig/ isel	Canolig/isel
3	Ynys Bŷr	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel
4	Maenorbŷr/ Freshwater East	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Canolig	Uchel/ canolig	Canolig	Canolig/isel
5	Ystagbwll	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel/canolig	Uchel/canolig
6	Meysydd Tanio Castell Martin/ Merrion	Uchel	Uchel	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Canolig
7	Penrhyn Angle	Uchel	Uchel	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Canolig
8	Freshwater West/ Twyni Brownslade	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel/ canolig
9	Marloes	Uchel	Uchel/ canolig	Canolig	Uchel/ canolig	Canolig	Canolig
10	Sgomer a Sgogwm	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel
11	Cyrion Purfa Herbrandston	Uchel	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Canolig	Canolig
12	Bae Sain Ffraid	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Canolig	Uchel/ canolig	Canolig	Canolig/ isel
13	Brandy Brook	Uchel	Uchel/ canolig	Canolig	Uchel/ canolig	Canolig	Canolig/ isel
14	Dyffryn Solfach	Uchel	Uchel	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Canolig
15	Comin Dowrog a Chomin Tretio	Uchel	Uchel /canolig	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Canolig	Canolig
16	Carn Llidi	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel
17	Tyddewi	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel/ canolig
18	Penmaendewi	Uchel	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Canolig	Canolig
19	Ynys Dewi	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel
20	Trefin	Uchel	Uchel	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Canolig	Canolig
21	Pen Caer/Pen Strwmbwl	Uchel	Uchel	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig
22	Mynydd Carningli	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig
23	Trefdraeth	Uchel	Uchel	Uchel/ canolig	Uchel	Canolig	Canolig
24	Pen Dinas	Uchel	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Canolig	Canolig
25	Pen Cemaes	Uchel	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Canolig	Canolig
26	Cwm Gwaun/Afon Nyfer	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel/ canolig
27	Mynydd Preseli	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig
28	Daugleddau	Uchel	Uchel	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Uchel/ canolig	Canolig

Tabl 6 Ardaloedd Cymeriad Tirwedd - Capasiti

Rhif ACT	Enw	Capasiti					
		Dynodiad cyffredinol	Safleoedd newydd	Estyniadau gyda mwy o lety	Estyniadau heb fwy o lety	Newidiadau o fewn safleoedd	Gwelliannau tirlunio/gosodiad
1	Arfordir Anheddog Saundersfoot	Dim/yn llawn	Dim	Dim	Cyfyngedig iawn	Oes	
2	Dinbych-y-pysgod	Dim/yn llawn	Dim	Dim	Dim	Oes	
3	Ynys Bŷr	Dim/yn llawn	Dim	Dd/B	Dd/B	Dd/B	
4	Maenorbŷr/ Freshwater East	Cyfyngedig	Cyfyngedig	Dim	Dim	Oes	
5	Ystagbwll	Dim/yn llawn	Dim	Dim	Dd/B	Cyfyngedig	
6	Meysydd Tanio Castell Martin/ Merrion	Cyfyngedig	Cyfyngedig	Dim	Dd/B	Cyfyngedig	
7	Penrhyn Angle	Cyfyngedig	Cyfyngedig	Dim	Dim	Cyfyngedig	
8	Freshwater West/ Twyni Brownslade	Dim/yn llawn	Dim	Dd/B	Dd/B	Dd/B	
9	Marloes	Cyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfyngedig iawn	Cyfyngedig iawn	Oes	
10	Sgomer a Sgogwm	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B	
11	Cyrion Purfa Herbrandston	Cyfyngedig	Cyfyngedig	Dim	Dim	Cyfyngedig	
12	Bae Sain Ffraid	Cyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfyngedig iawn	Dim	Oes	
13	Brandy Brook	Cyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfyngedig	Dim	Dim angen	
14	Dyffryn Solfach	Cyfyngedig	Cyfyngedig	Dd/B	Dd/B	Dd/B	
15	Comin Dowrog a Chomin Tretio	Cyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfyngedig	Oes	
16	Carn Llidi	Dim/yn llawn	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B	
17	Tyddewi	Dim/yn llawn	Dim	Dim	Dim	Cyfyngedig	
18	Penmaendewi	Dim/yn llawn	Cyfyngedig iawn	Dim	Dim	Oes	
19	Ynys Dewi	Dim/yn llawn	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B	
20	Trefin	Cyfyngedig	Cyfyngedig iawn	Dim	Dim	Oes	
21	Pen Caer/Pen Strwmbwl	Cyfyngedig	Cyfyngedig iawn	Dim	Dd/B	Oes	
22	Mynydd Carningli	Cyfyngedig	Cyfyngedig iawn	Dd/B	Dd/B	Dd/B	
23	Trefdraeth	Dim/yn llawn	Dim	Dim	Dim	Cyfyngedig	
24	Pen Dinas	Cyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfyngedig iawn	Dim	Oes	
25	Pen Cemaes	Cyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfyngedig	Dim	Cyfyngedig	
26	Cwm Gwaun/Afon Nyfer	Cyfyngedig	Dim	Cyfyngedig	Dim	Cyfyngedig	
27	Mynydd Preseli	Cyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfyngedig	Cyfyngedig	
28	Daugleddau	Cyfyngedig	Cyfyngedig iawn	Cyfyngedig iawn	Cyfyngedig iawn	Oes	

FFIGURAU CRYNODEB



Figure 1 - Study area and location of existing permitted sites/Ffigur 1 - Ardal astudio a lleoliad y safleoedd a ganiateir presennol



Figure 2 - Landscape sensitivity for static large scale development/Ffigur 2 - Sensitifrwydd tirwedd ar gyfer datblygiad sefydlog graddfa fawr



Figure 3 - Landscape sensitivity for static medium scale development/Ffigur 3 – Sensitifrwydd tirwedd ar gyfer datblygiad sefydlog graddfa ganolig



Figure 4 - Landscape sensitivity for static small scale development/Ffigur 4 – Sensitifrwydd tirwedd ar gyfer datblygiad sefydlog graddfa fechan



Figure 5 - Landscape sensitivity for seasonal large scale development/Ffigur 5 – Sensitifrwydd tirwedd ar gyfer datblygiad tymhorol graddfa fawr



Figure 6 - Landscape sensitivity for seasonal medium scale development/Ffigur 6 – Sensitifrwydd tirwedd ar gyfer datblygiad tymhorol graddfa ganolig



Figure 7 - Landscape sensitivity for seasonal small scale development/Ffigur 7 – Sensitifrwydd tirwedd ar gyfer datblygiad tymhorol graddfa fechan



Figure 8 - Landscape capacity for caravan and camping development/Ffigur 8 - Capasiti tirwedd ar gyfer datblygiad carafanau a gwersylla

5. Asesiadau Sensitifrwydd a Chapasiti Ardaloedd Cymeriad Tirwedd

Allwedd

- Permitted Caravan and Camping Sites/ Safleoedd Carafanau a Gwersylla a Ganiateir
- Camping and Caravanning Club Sites/ Safleoedd Clwb Carafanio a Gwersylla
- Permitted Camping and Caravanning sites (PCC area)/ Safleoedd Carafanau a Gwersylla a Ganiateir (ardal CSP)
- Camping and Caravanning Club Sites (PCC area)/ Safleoedd Carafanau a Gwersylla a Ganiateir (ardal CSP)
- Seascape Character Areas/ Ardaloedd Cymeriad Morlun
- Landscape Character Areas/ Ardaloedd Cymeriad Tirwedd
- Scheduled Monuments/ Henebion Cofrestrig
- Pembrokeshire Coast National Park Boundary/ Ffin Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCAP)
- Registered Landscapes of Outstanding and Special Interest/ Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Eithriadol ac Arbennig
- Conservation Areas/ Ardaloedd Cadwraeth
- Registered Historic Parks and Gardens/ Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig
- Sites of Special Scientific Interest/ Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arennig
- National Nature Reserves/ Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol
- Pembrokeshire Coast Path/ Llwybr Arfordir Sir Benfro

Ardal Cymeriad Tirwedd **ACT1: Arfordir Anheddog Saundersfoot**

Ardal Cymeriad Morlun Gysylltiedig ACM40: Gorllewin Bae Caerfyrddin

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal yn seiliedig yn bennaf ar ei glannau annatblygedig mewn mannau, ei llethrau gweladwy iawn i lawr i'r arfordir sydd i'w gweld ar draws y bae, nodweddion a gerddi hanesyddol, parcdir ystâd, llonyddwch cymharol i'r dwyrain a golygfeydd o Lwybr Arfordir Sir Benfro ac o'r môr a theithiau cychod.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Glannau, clogwyni a chefnwlad annatblygedig. • Tirffurf ar raddfa ganolig, yn serth mewn mannau, yn disgyn o hyd at 137m USO tuag at yr arfordir. • Tirwedd o borfa ar lethrau yn bennaf sy'n ffurfio'r gefnlen i'r arfordir, agored mewn mannau. • Caeau bach afreolaidd mewn mannau. • Bylchau gwyrdd yn parhau rhwng aneddiadau. • Cymeriad tirwedd nodedig ystâd hanesyddol o amgylch Hean Castle a Coppet Hall. • Nodweddion hanesyddol yn cynnwys yr ardd a'r lleoliad yng Ngerddi Colby, creiriau diwydiannol gan gynnwys tramffordd ac inclein gyda'u lleoliad ac Ardal Gadwraeth Saundersfoot. • Cynefinoedd arfordirol o bwys cenedlaethol. • Rhyngwelededd cryf rhan ddeheuol yr ardal â'r môr. • Llethrau a thir uchel, i'w gweld o'r arfordir, ar draws baeau, o'r môr ac o Lwybr Arfordir Sir Benfro. • Ardaloedd â nenlinell wedi'i gosod yn ôl o'r arfordir ar fryniau ond hefyd ar glogwyni mewn mannau. • Pentir amlwg yn Monkstone Point a chlogwyni i'r gogledd a'r de ac o amgylch Wiseman's Bridge. • Golygfeydd allweddol o Amroth drosodd tuag at Ddinbych-y-pysgod, yn ogystal â golygfeydd o Lwybr Arfordir Sir Benfro i Ddinbych-y-pysgod a meindwr Eglwys y Santes Fair. Golygfeydd o deithiau cychod o Saundersfoot. • Llonyddwch a dwysedd datblygu is yn cynyddu tuag at y dwyrain. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol, nodweddion hanesyddol y soniwyd amdanynt uchod.				
Datblygiadau yn yr ardal	Mae gan yr ardal lawer o ddatblygiadau carafanau a gwersylla ar y glannau ac yn fewndirol, yn enwedig tua'r de-orllewin. Mae datblygiadau'n teneuo'n sylweddol wrth fynd i mewn i'r tir tua'r gogledd ddwyrain. Mae yna hefyd ddatblygiad carafanau amlwg ychydig y tu allan i'r ardal ar dir uwch.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti /**

neu ddatblygu/unedau ychwanegol					**Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Mae'r ardal yn llawn oherwydd bod y safleoedd presennol, gyda'i gilydd, yn cael effaith andwyol ar gymeriad y dirwedd. Mae'r bylchau rhwng datblygiadau mewn lleoedd, yn enwedig yn y de-orllewin, yn gul ac mae angen eu cadw er mwyn cynnal ymdeimlad o gymeriad gwledig. Dylai'r ardaloedd mwy gwledig tua'r gogledd-ddwyrain gael eu gwarchod oherwydd amlygrwydd gweledol uchel llethrau a nenlinellau, yn ogystal â nodweddion hanesyddol.				
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Nid oes capasiti pellach ar gyfer mwy o safleoedd gan fod yna lawer o safleoedd presennol sydd, gyda'i gilydd, eisoes yn effeithio'n andwyol ar gymeriad y dirwedd.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Nid oes capasiti pellach ar gyfer estyniadau i safleoedd gan fod llawer o'r safleoedd yn ganolig neu'n fawr gyda bylchau cyfyngedig rhyngddynt a'r gosodiadau'n ddwys, a gyda'i gilydd, maent eisoes yn effeithio'n andwyol ar gymeriad y dirwedd.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Gall fod capasiti cyfyngedig iawn ar gyfer ymestyn rhai safleoedd carafanau statig lle mae'r estyniad yn llai amlwg (e.e. ar waelodion dyffrynnoedd neu ar lwyfandiroedd, a/neu wedi'i sgrinio gan goed/gwrychoedd) a bod y safleoedd presennol yn cael eu gwella yn unol â'r canllawiau.				
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Mae lle i wella ar lawer o safleoedd. Gellir ystyried podiau neu bebyll glampio yn lle carafanau statig lle gellir dangos gwelliannau yn y gosodiad yn unol â chanllawiau'r ddogfen hon a gostyngiad yn yr effaith weledol.				
CANLLAWIAU					
Canllawiau lleoli	Amherthnasol gan fod yr ardal yn llawn.				
Canllawiau lliniaru	1. Lleihau dwysedd datblygiadau carafanau statig gan greu gofod gwyrdd gyda phlannu coed brodorol rhwng carafanau, yn enwedig lle mae carafanau neu gabanau yn 'pentyrru' ar lethrau. 2. Ystyried gosod unedau statig mewn modd sy'n llai unionsyth gyda ffyrdd mynediad troellog a gofodau. 3. Ystyried disodli carafanau statig ag unedau sy'n cael llai o effaith megis iwrtau neu bebyll saffari, yn enwedig yn y lleoliadau mwyaf amlwg. 4. Newid lliw carafanau i arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, er mwyn lleihau'r effaith weledol. Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda trwy blannu rhyngddynt. 5. Cynnal neu newid goleuo i oleuadau sy'n wynebu i lawr ac o lefel isel ac yn y mannau y mae eu hangen yn unig. 6. Gwella golwg cyfleusterau safle e.e. er mwyn ymdebygu i adeiladau fferm wledig, a lliniaru'r effaith gyda phlannu lle bo hynny'n briodol. 7. Cynnal a gwella patrwm ffiniau caeau gan gynnwys gwrychoedd a choed yn hyn. 8. Cynnal, adfer neu gynyddu tyfiant coed a gwrychoedd er mwyn helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. 9. Cynyddu plannu coed a llwyni brodorol o fewn safleoedd er mwyn rhannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol. 10. Gwarchod plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos iddynt er mwyn cynnal a gwella sgrinio. 11. Gwella mynedfeydd safleoedd i roi cymeriad gwledig, gan ddefnyddio cynlluniau gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cymeriad				

	cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac arwynebeddau caled sy'n rhy fawr.


N
LCA 1 Saundersfoot settled coast/ANT 1 Arfordir Setledig Saundersfoot
LCA 1 / ANT 1
LCA 2 / ANT 2
SCA 40/ACM 40
SCA 39/ACM 39
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd **ACT 2: Dinbych-y-pysgod**

Ardal Cymeriad Morlun Gysylltiedig ACM 39: Dinbych-y-pysgod ac Ynys Bŷr

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal yn seiliedig ar gymeriad hanesyddol unigryw'r dref, ei Hardal Gadwraeth a'i lleoliad, cymeriad agored y Twyni, y cynefinoedd o bwysigrwydd cenedlaethol ar hyd yr arfordir a'r Twyni, golygfeydd o'r ardal o Lwybr Arfordir Sir Benfro, yr Ardal Gadwraeth. a theithiau cychod a rôl Cwm Rhydeg gyda'i lystyfiant lled-naturiol yn gwahanu'r dref a Kiln Park.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Pensaernïaeth Sioraidd nodedig Ardal Gadwraeth y dref, yr harbwr a'i leoliad. • Cymeriad hanesyddol Dinbych-y-pysgod a nodweddion cysylltiedig fel meindwr yr eglwys ac Ynys Catrin a'u hamlygrwydd ar hyd yr arfordir. • Golygfeydd wedi'u fframio o'r Ardal Gadwraeth i'r Twyni a'r traethau a golygfeydd tuag at y dref o Drwyn Giltart, Ynys Bŷr a theithiau cychod yn y bae. • Mae'r Gwningar/twyni tywod a'r meysydd golff yn SoDdGA gyda llystyfiant lled-naturiol, maent yn gymharol agored ac yn ffurfio'r gefnlen i Draeth y De. • Mae'r ardaloedd ger y traethau ac ar dir uwch i'w gweld o Lwybr Arfordir Sir Benfro. • Tir isel coridor afon Cwm Rhydeg sy'n llain glustogi i'r dref gan ei gwahanu oddi wrth safle carafanau Kiln Park. • Tir amaethyddol sy'n codi uwchlaw'r dref. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion hanesyddol a chadwraeth natur y soniwyd amdanynt uchod.				
Datblygiadau yn yr ardal	Mae gan yr ardal lawer o garafanau statig a gwersylla yn bennaf tua'r de-orllewin yn Kiln Park gyda safle statig llai ger y dref. Mae nifer o safleoedd eraill ychydig i'r gogledd o'r ardal yn ACT 1.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti / Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Mae'r ardal yn llawn oherwydd bod mwyafrif y gofod y gellid ei ddatblygu yn ardal adeiledig gyda dim ond ychydig o goridorau a'r twyni yn parhau heb eu datblygu. Byddai effaith andwyol ar gymeriad yr ardal pe bai mwy o ddatblygu carafanau a gwersylla yn digwydd.				

Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Nid oes unrhyw gapasiti ar gyfer safleoedd newydd.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Nid oes lle i estyn safleoedd gan y byddai hyn yn debygol o gynyddu gweledded ac erydu mannau gwyrdd.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Nid oes unrhyw fudd o ymestyn safleoedd gan y byddai hyn yn debygol o gynyddu gweledded ac erydu mannau gwyrdd. Er bod y safleoedd presennol wedi'u pacio'n ddwys ac y gellid eu gwella i ddefnyddwyr, maent yn tueddu i fod yn ddisylw ac wedi'u hamgáu yn dda.
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Mae lle i wella (gweler isod).
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	Amherthnasol gan fod yr ardal yn llawn.
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	1. Lleihau dwysedd datblygiadau carafanau statig gan greu mannau gwyrdd gyda phlannu coed brodorol rhwng carafanau. 2. Osgoi gosod carafanau statig yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i glustogi effeithiau. 3. Ystyried gosod unedau statig mewn modd sy'n llai unionsyth gyda ffyrdd mynediad troellog a gofodau. 4. Cynnal neu newid goleuo i oleuadau sy'n wynebu i lawr ac o lefel isel ac yn y mannau y mae eu hangen yn unig. 5. Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau caeau gan gynnwys cloddiau traddodiadol, gwrychoedd a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. 6. Cynyddu plannu coed a llwyni brodorol o fewn safleoedd er mwyn rhannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol. 7. Gwarchod plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos iddynt er mwyn cynnal a gwella sgrinio. 8. Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati. 9. Gwella mynedfeydd safleoedd i roi cymeriad gwledig, gan ddefnyddio cynlluniau gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cymeriad cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac arwynebeddau caled sy'n rhy fawr.


N
LCA 2 Tenby/ANT 2 Dinbych-y-Pysgod
LCA 1 / ANT 1
SCA 40/ACM 40
SCA 39/ACM 39
SCA 38/ACM 38
LCA 4 / ANT 4
LCA 2 / ANT 2
Gumfreston
Tenby Roads
The Green
Penalum
Penally
South Beach
The Dunes
Fort St Catherine
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd **ACT 3: Ynys Bŷr**

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 37: Freshwater East a Maenorbŷr

ACM 38: Dyfroedd arfordirol Lydstep Haven

ACM 39: Dinbych-y-pysgod ac Ynys Bŷr

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal yn seiliedig ar ei chymeriad fel ynys gyda glannau digyffwrdd heb eu datblygu, cefn gwlad agored i'w gweld o fewn golygfeydd eang o'r môr ar bob ochr gan gynnwys o deithiau cychod, ei chymeriad hanesyddol gan gynnwys yr Abaty a'r Priordy nodedig, ei swyddogaeth grefyddol sy'n rhoi dimensiwn ysbrydol i'r dirwedd a'i pholisi cyfyngol tuag at ymwelwyr.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Ynys gyda glannau cilfachog a chlogwyni digyffwrdd heb eu datblygu. • Tirffurf o lethrau sy'n wynebu'r arfordir. • Mae caeau a chloddiau traddodiadol yn creu tirwedd agored ac eithrio o amgylch aneddiadau, lle ceir coed. • Cymeriad hanesyddol a defnydd crefyddol o Ynys Bŷr sy'n rhoi naws tawel ac ysbrydol i'r ynys. • Ardal Gadwraeth Ynys Bŷr sy'n cwmpasu'r anheddiad crefyddol canoloesol gan gynnwys Abaty unigryw o bensaernïaeth Celf a Chrefft, priordy a pharc a gardd cofrestredig. • Cynefinoedd a rhywogaethau arfordirol pwysig. • Polisi rheoli ymwelwyr bwriadol er mwyn cyfyngu ar ymwelwyr. • Cymeriad digyffwrdd yr ynys a chefn gwlad. • Rhyngweledd cryf gyda'r môr ar bob ochr gyda golygfeydd o'r môr tuag at yr ynys o deithiau cychod ac o'r arfordir a Llwybr Arfordir Sir Benfro gan gynnwys Trwyn Giltar a Phentir Lydstep. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion hanesyddol y soniwyd amdanynt uchod.				
Datblygiadau yn yr ardal	Nid oes unrhyw safleoedd gwersylla na charafanau i'w gweld ar yr ynys.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti/ Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Nid oes unrhyw gapasiti ar yr ynys oherwydd ei sensitifrwydd uchel ar gyfer pob categori datblygu a'i chymeriad agored, digyffwrdd fel ynys.				

Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Nid oes capasiti ar gyfer unrhyw safleoedd.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Dd/B
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Dd/B
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Dd/B
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	Dd/B
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	Dd/B


N
LCA 3 Caldey Island/ANT 3 Ynys Byr
Caldey Roads
Sandy Bay
St Margaret's Island
Priory Bay
SCA 38/ACM 38
SCA 39/ACM 39
Ty Chwarel
St Margaret's
Sandy Bay
LCA 3 / ANT 3
Ynys Byr / Caldey Island
West Beacon Lodge
West Beacon Point
SCA 37/ACM 37
SCA 42
SCA 30/ACM 30
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd **ACT 4: Maenorbŷr / Freshwater East**

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 36: Dyfroedd arfordirol Ystagbwll

ACM 37: Freshwater East a Maenorbŷr

ACM 38: Dyfroedd arfordirol Lydstep Haven

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal seiliedig ar y glannau sydd heb eu datblygu ar y cyfan a'r llethrau cysylltiedig, llethrau'r grib i'r gogledd, cymeriad agored y dirwedd a rhannau ohoni, y dirwedd hanesyddol gofrestredig gyda nodweddion hanesyddol cysylltiedig a'u lleoliadau, Ardal Cadwraeth Maenorbŷr a Phortclew , cynefinoedd arfordirol o bwysigrwydd cenedlaethol, ansawdd golygfaol arbennig yr arfordir megis o amgylch Cei Ystagbwll, a golygfeydd o Lwybr Arfordir Sir Benfro ac i Ynys Bŷr ac oddi yno.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Glannau a chlogwyni heb eu datblygu ar y cyfan a'r llethrau cysylltiedig. • Llethrau agored a nenlinell y grib sy'n wynebu'r arfordir ar ymyl ogleddol yr ardal. • Llethrau â chopaon agored rhwng Jameston a Maenorbŷr. • Patrwm caeau canoloesol hanesyddol a nodedig ar ffurf stribedi ar raddfa fach gyda gwrychoedd wedi'u torri a chloddiau. • Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig wedi'i chanoli ar dirwedd ac aneddiadau canoloesol / maenoraidd Maenorbŷr. • Ardal Gadwraeth a Chastell Maenorbŷr a'u lleoliad. • Ardal Gadwraeth Portclew House a'i leoliad. • Henebion rhestredig a'u lleoliad gan gynnwys ar y glannau. • Cynefinoedd a rhywogaethau arfordirol o bwysigrwydd rhyngwladol. • Rhyngweledded gyda'r môr ar y glannau ac o'r grib. • Golygfeydd allweddol o Lwybr Arfordir Sir Benfro ac o Ynys Bŷr. • Nodweddion tirnodol o ansawdd golygfaol penodol megis Cei Ystagbwll. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol, y nodweddion hanesyddol y soniwyd amdanynt uchod a'r SoDdGA ar hyd y glannau.				
Datblygiadau yn yr ardal	Mae datblygiadau sylweddol, carafanau statig yn bennaf, yn Lydstep, i'r gogledd o Faenorbŷr, ac o amgylch Freshwater East. Mae yna ddatblygiad carafanau amlwg ychydig y tu allan i'r ardal tua'r dwyrain hefyd.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti/**

neu ddatblygu/unedau ychwanegol					**Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Nid oes unrhyw ar gyfer datblygiadau pellach lle mae clystyrau eisoes yn eu lle gan eu bod eisoes yn cal effaith andwyol ar gymeriad y dirwedd, mae safleoedd cynnil yn gyfyngedig iawn a byddai dwysáu pellach yn creu effaith gronnus. Gall fod potensial ar gyfer safleoedd bach i ffwrdd o'r arfordir mewn lleoliadau gwastad, caeedig nad oes modd edrych drostynt, ac yn ddelfrydol y tu allan i'r Dirwedd Hanesyddol Gofrestredig ac i ffwrdd o Ystagbwll.				
Capasiti ar gyfer **safleoedd newydd**	Mae capasiti cyfyngedig ar gyfer datblygu safleoedd bach i ffwrdd o'r arfordir mewn lleoliadau gwastad, caeedig nad oes modd edrych drostynt, ac yn ddelfrydol y tu allan i'r Dirwedd Hanesyddol Gofrestredig ac i ffwrdd o Ystagbwll.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Nid yw'n ymddangos bod cyfle i ehangu safleoedd carafanau statig ymhellach gan y byddai hyn yn cynyddu lledaeniad yr effeithiau.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Nid yw'n ymddangos bod budd o ymestyn safleoedd presennol gan y byddai hyn ond yn cynyddu lledaeniad yr effeithiau /cynyddu'r effaith ar y dirwedd/morlun.				
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Mae lle i wella ar safleoedd. Gellir ystyried podiau neu bebyll glampio yn lle carafanau statig lle gellir dangos gwelliannau yn y gosodiad yn unol â chanllawiau'r ddogfen hon a gostyngiad yn yr effaith weledol.				
CANLLAWIAU					
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	1. Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurfiau, coed neu wrychoedd aeddfed o fewn ac wrth ymyl safle. 2. Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos. 3. Gosod ar lwyfandir neu dir gwastad, i ffwrdd o'r arfordir a'r nenlinellau, ac ar yr amod eu bod wedi'u hamgáu. 4. Gosod unedau yn agos at ymylon ffurfiau sy'n amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu ofodau. 5. Cysylltu ag adeiladau fferm os yn bosibl, yn enwedig safleoedd bach. 6. Os lleolir mewn coetir, sicrhau bod rhywfaint o goetir yn cael ei warchod a bod strategaeth reoli ar waith i gynnal gorchudd coed rhwng unedau dros amser e.e. adfywio/ailblannu fesul cam. 7. Gosod ger datblygiadau modern. 8. Osgoi safleoedd neu warchodfeydd natur a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n lleol. 9. Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys rhostir arfordirol a choetir hynafol. 10. Osgoi lleoli unedau statig mewn neu yng ngolwg Ardaloedd Cadwraeth, Parciau a Gerddi Cofrestredig, henebion rhestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtilau. 11. Osgoi lleoli rhagor o unedau statig mewn tirweddau Hanesyddol Cofrestredig.				
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	1. Lleihau dwysedd datblygiadau carafanau statig gan greu gofod gwyrdd gyda phlannu coed brodorol rhwng carafanau, yn enwedig lle mae carafanau neu gabanau yn 'pentyrru' ar lethrau. 2. Osgoi gosod carafanau statig yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i glustogi effeithiau.				

	3. Cyfyngu carafanau statig a theithiol i ymylon caeau. 4. Ystyried gosod unedau statig mewn modd sy'n llai unionsyth gyda ffyrdd mynediad troellog a gofodau. 5. Mewn lleoliadau/caeau mwy amlwg a'r rhai sy'n union ger yr arfordir, ystyried cael gwared ar unedau statig a defnyddio'r gofod ar gyfer amwynder e.e. hamdden gofod agored, chwarae, cerdded cŵn. 6. Newid lliw carafanau i arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, er mwyn lleihau'r effaith weledol. Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda trwy blannu rhyngddynt. 7. Cynnal neu newid goleuo i oleuadau sy'n wynebu i lawr ac o lefel isel ac yn y mannau y mae eu hangen yn unig. 8. Gwella golwg cyfleusterau safle e.e. er mwyn ymdebygu i adeiladau fferm wledig lle bo hynny'n briodol, a lliniaru'r effaith gyda phlannu. 9. Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau caeau gan gynnwys cloddiau traddodiadol, gwrychoedd a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. 10. Cynyddu plannu coed a llwyni brodorol o fewn safleoedd er mwyn rhannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol. 11. Rhoi gwrychoedd neu gloddiau brodorol yn lle ffensys. 12. Meddalu ymylon caled fel waliau ar hyd ffyrdd gyda choed. 13. Rhoi gwrychoedd brodorol yn lle gwrychoedd conwydd. 14. Rhoi coed brodorol collddail yn lle conwydd. 15. Gwarchod plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos iddynt er mwyn cynnal a gwella sgrinio. 16. Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati. 17. Gwella mynedfeydd safleoedd i roi cymeriad gwledig, gan ddefnyddio cynlluniau gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cymeriad cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau llachar a gwelyau blodau blynyddol ac arwynebeddau caled sy'n rhy fawr.


LCA 4 Manorbier/Freshwater East/ANT 4 Maenorbyr/Freshwater East
SCA 33/ACM 33
LCA 28 / ANT 28
SCA 32/ACM 32
LCA 1 / ANT 1
LCA 2 / ANT 2
LCA 4 / ANT 4
SCA 38/ACM 38
SCA 37/ACM 37
LCA 5 / ANT 5
SCA 36/ACM 36
SCA 30/ACM 30
SCA 35/ACM 35
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau gronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd ACT 5: Ystagbwll

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 36: Dyfroedd arfordirol Ystagbwll

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal yn seiliedig ar ei glannau digyffwrdd sydd heb eu datblygu a'u golygfeydd, tirwedd hanesyddol gofrestredig agored a digysgod Cwningar Ystagbwll, tirwedd nodedig, tawel a diddos llynnoedd Bosherston a Stackpole Court, cynefinoedd o arwyddocâd cenedlaethol, a golygfeydd allweddol o Lwybr Arfordir Sir Benfro megis o Benrhyn Ystagbwll a Broad Haven.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Glannau heb eu datblygu, clogwyni yn enwedig ym Mhenrhyn Ystagbwll a'r traeth yn Broad Haven. • Cymoedd wedi'u hendorri ar raddfa fach gyda dyfroedd wedi'u cronni i ffurfio llyn troed adar. • Perthynas arbennig rhwng llynnoedd Bosherston yn fewndirol â thraeth Broad Haven. • Tirwedd parcdir wedi'i ddylunio gyda dŵr a choetir. • Tirwedd agored Cwningar Ystagbwll sy'n Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Gofrestredig. • Henebion rhestredig cysylltiedig yng Nghwningar Ystagbwll. • Cynefinoedd arfordirol a chynefinoedd eraill o bwysigrwydd rhyngwladol. • Porfeydd ar raddfa fach ac aneddiadau traddodiadol. • Llonyddwch mewn cymoedd caeedig wedi'u llenwi'n bennaf gan ddŵr. • Golygfeydd allweddol o Lwybr Arfordir Sir Benfro a golygfeydd i Benrhyn Ystagbwll ac oddi yno. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol, y nodweddion hanesyddol y soniwyd amdanynt uchod a'r SoDdGA ar hyd y glannau.				
Datblygiadau yn yr ardal	Mae un safle gwersylla tymhorol bach i'r de o Bosherston sy'n ymddangos yn anffurfiol iawn.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti/ Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Nid oes gan yr ardal ragor o gapasiti ar gyfer datblygu gan fod ganddi sensitifrwydd uchel neu uchel/canolig ac mae'n dirwedd hanesyddol hynod nodedig, ar raddfa fach gyda glannau agored.				

Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Nid oes capasiti ar gyfer safleoedd newydd oherwydd cymeriad yr ardal.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Nid oes potensial i ymestyn y gwersyll anffurfiol presennol.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Amherthnasol gan nad oes safleoedd statig.
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Mae'r safle presennol yn fach ac yn anffurfiol. Os y'i caniateir, dylai aros fel safle gwersylla tymhorol gan ddilyn y canllawiau isod.
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	Dd/B
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	1. Cyfyngu unedau i ymylon caeau. 2. Gwella golwg cyfleusterau safle e.e. er mwyn ymdebygu i adeiladau fferm wledig, a lliniaru'r effaith gyda phlannu lle bo hynny'n briodol. 3. Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau caeau gan gynnwys cloddiau traddodiadol, gwrychoedd a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. 4. Gwarchod plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos iddynt er mwyn cynnal a gwella sgrinio. 5. Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati.


LCA 5 Stackpole/ANT 5 Ystagbwll
N
Iveston Lodge
Marledge Cottages
Yerbeston
Marledge
The Downs
St Petrox
Stackpole Elidor or Cheriton
Firtree Cottage
Bangeston
Valast Hill House
LCA 4 / ANT 4
Cheriton Bottom
Castle Dock Wood
Sampson Bungalow
Stackpole
Stackpole Garden Cottage
Cawdor Cottage
The Old Gas House
Stackpole Park
Stackpole Quay Farm
Stackpole Home Farm
Birch Hill
Seagulls Nest
LCA 5 / ANT 5
Creature
LCA 6 / ANT 6
Bosherston
Buckspool Farm
Thornston
Hillcrest
Newton
Over the Arches
SCA 36/ACM 36
Newton Down
SCA 35/ACM 35
Gwvan's Head
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd **LCA 6: Meysydd Tanio Castell Martin/Merrion**

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 35: Dyfroedd arfordirol Castell Martin

ACM 36: Dyfroedd arfordirol Ystagbwll

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal yn seiliedig ar ei harfordir anghysbell sydd heb ei ddatblygu, ei chymeriad agored, ei chynefinoedd arfordirol o bwysigrwydd cenedlaethol, ei defnydd fel ardal hyfforddi filwrol, ei nodweddion hanesyddol ar yr arfordir ac yn fewndirol, y gefnen a'r llethrau tua'r gogledd sydd yn agored i'w gweld dros y llwyfandir arfordirol, llawr dyffryn agored Cors Castell Martin mewn golygfeydd o Lwybr Arfordir Sir Benfro.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Ardal hyfforddiant milwrol a meysydd tanio sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r ardal yn anaddas ar gyfer gwersylla a charafanio. • Glannau, clogwyni a chefnwlad annatblygedig ac anghysbell sy'n agored a digysgod ac heb unrhyw anheddiad. • Patrwm caeau ar raddfa fach yn nyffryn Cors Castell Martin. • Mae henebion rhestredig yn cynnwys caerau pentir ar yr arfordir. • Cynefinoedd o ddiddordeb cadwraeth natur o bwys cenedlaethol ar hyd yr arfordir ac yng Nghors Castell Martin. • Golygfeydd allweddol o Lwybr Arfordir Sir Benfro o amgylch Broad Haven a golygfeydd i Bentir San Gofan ac oddi yno. • Ei pherthynas weledol ag Ystagbwll a thraeth Broad Haven tua'r dwyrain ac fel cefnlen i Freshwater West tua'r gorllewin. • Cefnlen a llethrau sy'n diffinio ymyl ogleddol yr ardal o amgylch Warren ac Eglwys Wynnio. • Llawr dyffryn agored Cors Castell Martin gyda golygfeydd i lethrau dyffryn ar bob ochr. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei lleoliad yn y Parc Cenedlaethol, y nodweddion hanesyddol a'r SoDdGA ar hyd y glannau.				
Datblygiadau yn yr ardal	Cyfyngedig iawn yw unrhyw ddatblygiadau yn yr ardal gyda safle gwersylla a charafanau bach tua'r gogledd a dau safle gwersylla a charafanau tymhorol tua'r de-ddwyrain yn agos at Broad Haven.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti / Yn llawn**
Crynodeb o'r	Nid oes unrhyw gapasiti pellach yn agos at Broad Haven nac ar lethrau agored, nac				

capasiti	ychwaith o fewn meysydd tanio'r Weinyddiaeth Amddiffyn, ond gall fod cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer safleoedd tymhorol bach ymhellach i mewn i'r tir tua'r gogledd ddwyrain mewn lleoliadau cynnil wedi'u sgrinio gan dirffurfiau a llystyfiant gan gynnwys coed a gwrychoedd.
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Gall fod rhywfaint o gapasiti cyfyngedig ar gyfer safleoedd tymhorol bach yn fewndirol tua'r gogledd-ddwyrain mewn lleoliadau cynnil wedi'u sgrinio gan dirffurfiau a llystyfiant gan gynnwys coed a gwrychoedd.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Ymddengys nad oes unrhyw gapasiti i ymestyn safleoedd presennol heb gynyddu eu heffaith ar gymeriad y dirwedd/morlun.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Amherthnasol gan nad oes unrhyw safleoedd carafanau statig i'w gweld yn yr ardal.
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Mae'r safleoedd presennol tua'r dwyrain yn anffurfiol. Os y'u caniateir, dylent aros fel safleoedd gwersylla tymhorol gan ddilyn y canllawiau isod. Gellid gwella'r safle carafanau tymhorol yn y gogledd-orllewin.
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	1. Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurfiau, coed neu wrychoedd aeddfed o fewn ac wrth ymyl safle. 2. Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos. 3. Gosod unedau yn agos at ymylon ffurfiau sy'n amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu ofodau. 4. Cysylltu ag adeiladau fferm os yn bosibl, yn enwedig safleoedd bach. 5. Osgoi safleoedd neu warchodfeydd natur a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n lleol. 6. Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys coetir hynafol. 7. Osgoi lleoli unedau statig mewn neu yng ngolwg Ardaloedd Cadwraeth, henebion rhestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtilau.
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	1. Peidio â lledaenu meysydd carafanau neu wersylla y tu hwnt i'r ffiniau a ganiateir. 2. Cyfyngu unedau carafanau i ymylon caeau. 3. Gwella golwg cyfleusterau safle e.e. er mwyn ymdebygu i adeiladau fferm wledig, a lliniaru'r effaith gyda phlannu lle bo hynny'n briodol. 4. Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau caeau gan gynnwys cloddiau traddodiadol, gwrychoedd a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. 5. Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati.


LCA 6 Castlemartin/Merrion Ranges/ANT 6 Meysydd Castellmartin/Merrion
SCA 33/ACM 33
SCA 32/ACM 32
LCA 7 / ANT 7
PEMBROKE
SCA 34/ACM 34
LCA 8 / ANT 8
LCA 4 / ANT 4
LCA 6 / ANT 6
SCA
LCA 5 / ANT 5
SCA 35/ACM 35
SCA 36/ACM 36
SCA 29/ACM 29
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd **ACT7: Penrhyn Angle**

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM31: Aberdaugleddau Allanol

ACM32: Aberdaugleddau

ACM34: Freshwater West

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal yn seiliedig ar ei nodweddion tirwedd hanesyddol gan gynnwys patrwm caeau canoloesol a'r anheddiad llinellol yn Angle, ei chymeriad fel penrhyn morol agored a digysgod gyda rhyngweledd gyda'r môr neu'r dŵr ar dair ochr, ei hymdeimlad o lonyddwch tua'r de a'r gorllewin a thirffurf unigryw y dyffryn o amgylch Angle.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	• Glannau, clogwyni a chefnwlad annatblygedig. • System gaeau ganoloesol greiriol yn enwedig o amgylch ac i'r gorllewin o bentref Angle gyda'r llain-gaeau nodedig. • Patrwm llinellol hanesyddol pentref canoloesol wedi'i gynllunio yn Angle gan gynnwys ei Ardal Gadwraeth. • Mae'r ffaith bod Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol cofrestredig Dyfrffordd Aberdaugleddau yn ffurfio rhan ogleddol yr ACT yn dangos gwerth hanesyddol a diwylliannol arwyddocaol gan gynnwys crynhoad dwys iawn o olion yn rhychwantu cyfnodau cynhanesyddol i gyfnodau modern. • Mae nodweddion hanesyddol yn ffurfio tirnodau neu fornodau e.e. caer Ynys Thorn o gyfnod rhyfeloedd Napoleon • Dyffryn nodedig i'r gorllewin o Angle, yn gyfochrog ag Aberdaugleddau a'r llethrau gogleddol yn arbennig yn agored i'w gweld. • Patrwm caeau ar raddfa fach. • Cymeriad penrhyn morol agored ar y cyfan, gyda rhyngweledd cryf ag Aberdaugleddau tua'r gogledd, ei cheg a'i rhannau allanol tua'r gorllewin a'r môr o amgylch Freshwater West tua'r de. • Ymdeimlad o lonyddwch yn rhannau gorllewinol a deheuol yr ACT. • Cynefinoedd arfordirol o bwysigrwydd cenedlaethol a rhywogaethau gwerthfawr gan gynnwys adar dŵr a rhydyddion dros y gaeaf. • Golygfeydd o Lwybr Arfordir Sir Benfro. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei lleoliad yn y Parc Cenedlaethol, y dirwedd hanesyddol gofrestredig, y nodweddion hanesyddol a'r SoDdGA ar hyd y glannau.				
Datblygiadau yn yr ardal					
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti/ Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Capasiti cyfyngedig sydd gan yr ardal oherwydd yn gyffredinol mae gan yr ardal sensitifrwydd uchel neu uchel / canolig a byddai rhagor o safleoedd statig yn cael effaith andwyol ar gymeriad unigryw a				

	hanesyddol yr ardal tua'r gogledd. Mae'r rhan ddeheuol yn agored iawn, a byddai unrhyw safleoedd yn debygol o fod yn amlwg neu'n weladwy iawn.
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Nid oes unrhyw gapasiti pellach ar gyfer rhagor o safleoedd statig ond gall fod potensial cyfyngedig ar gyfer safleoedd tymhorol bach mewn lleoliadau cynnil.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Nid oes unrhyw gapasiti pellach ar gyfer estyniadau i safleoedd gan eu bod yn ddigon mawr eisoes a byddai estyniadau yn effeithio ymhellach ar gymeriad y dirwedd/morlun.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Nid oes unrhyw gapasiti ar gyfer estyn safleoedd presennol gan eu bod ar lethrau is wedi'u hamgáu gan ffiniau caeau a byddai ymestyn yn cynyddu'r effaith ar gymeriad y dirwedd/morlun
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Mae lle i wella ar y prif safle presennol (gweler y canllawiau isod).
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	1. Gosod i ffwrdd o'r glannau ac i ffwrdd o Angle, ei dirwedd ganoloesol a'i ddyffryn. 2. Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurfiau, coed/coetir neu wrychoedd aeddfed o fewn ac wrth ymyl safle. 3. Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos. 4. Gosod unedau yn agos at ymylon ffurfiau sy'n amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu ofodau. 5. Cysylltu ag adeiladau fferm os yn bosibl. 6. Os lleolir mewn coetir, sicrhau bod rhywfaint o goetir yn cael ei warchod a bod strategaeth reoli ar waith i gynnal gorchudd coed rhwng unedau dros amser e.e. adfywio/ailblannu fesul cam. 7. Osgoi safleoedd neu warchodfeydd natur a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n lleol. 8. Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys rhostir arfordirol, twyni tywod a choetir.
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	1. Osgoi gosod carafanau statig yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i glustogi effeithiau. 2. Cyfyngu carafanau statig a theithiol i ymylon caeau. 3. Newid lliw carafanau i arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, er mwyn lleihau'r effaith weledol. Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda trwy blannu rhyngddynt. 4. Cynnal neu newid goleuo i oleuadau sy'n wynebu i lawr ac o lefel isel ac yn y mannau y mae eu hangen yn unig. 5. Gwella golwg cyfleusterau safle e.e. er mwyn ymdebygu i adeiladau fferm wledig, a lliniaru'r effaith gyda phlannu lle bo hynny'n briodol. 6. Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau caeau gan gynnwys cloddiau traddodiadol, gwrychoedd a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. 7. Cynyddu plannu coed a llwyni brodorol o fewn safleoedd er mwyn rhannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol. 8. Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati. 9. Gwella mynedfeydd safleoedd i roi cymeriad gwledig, gan ddefnyddio cynlluniau gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cymeriad cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac arwynebeddau caled sy'n rhy fawr.


N
LCA 7 Angle Peninsula/ANT 7 Penrhyn Angle
Man of War Roads
SCA 31/ACM 31
SCA 32/ACM 32
SCA 34/ACM 34
LCA 7 / ANT 7
LCA 8 / ANT 8
LCA 6 / ANT 6
Angle
Angle Bay
West Pill
North Hill
Beach House
Ridge Cottage
North Studdock Cottage
Fort Popton
Sawdern
Hubberton
South Studdock
Carters Green
Jeffersonwalls
Middle Hill Farm
Rocket Cart House
Broomhill
Neath Farm
Rhoscrowther
Harry Standup
Freshwater West
Starmans Hall
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd **ACT8: Freshwater West / Twyni Brownslade**

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 32: Aberdaugleddau Fewnol

ACM34: Freshwater West

ACM 35: Dyfroedd Arfordirol Castell Martin

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal yn seiliedig ar y gwningar a'r twyni agored, y cymeriad arfordirol hynod agored a gwyllt, y diffyg datblygiadau adeiledig, y defnydd o ran o'r ardal ar gyfer hyfforddiant milwrol, yr ystod o gynefinoedd o arwyddocâd cenedlaethol a'r rhyngwelededd cryf â'r môr a Llwybr Arfordir Sir Benfro.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Ardal fawr agored o gwningar a thwyni, sy'n brin yn y Parc Cenedlaethol. • Cymeriad arfordirol hynod agored a gwyllt. • Cymeriad annatblygedig ac eithrio un maes parcio. • Mae ardal hyfforddiant milwrol a meysydd tanio yn gwneud y rhannau deheuol yn anaddas ar gyfer gwersylla a charafanio. • Mae'r ardal bron yn gyfan gwbl dan ddynodiad SoDdGA. • Mae rhywfaint o'r ardal ar gefnen/nenlinell agored y penrhyn gan gynnwys ardal fach o gaeau lle nad oes llawer o amgáu. • Mae'r ardal i gyd yn rhyngweladwy iawn gyda'r môr ac mae llethrau cyfagos y dyffryn yn edrych dros lawr y dyffryn. • Golygfeydd allweddol o Lwybr Arfordir Sir Benfro a chofeb ryfel tua'r gogledd. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r SoDdGA.				
Datblygiadau yn yr ardal	Er nad oes meysydd gwersylla swyddogol yn yr ardal, mae faniau gwersylla yn parcio ar ffordd yr arfordir er mwyn cael mwynhau'r golygfeydd gwych ac yn parcio hefyd yn y maes parcio i ymwelwyr. Efallai y bydd rhai yn aros dros nos yn answyddogol.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti / Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Nid oes gan yr ardal unrhyw gapasiti oherwydd ei chymeriad gwyllt, agored ac annatblygedig a'i gwerth o ran cadwraeth natur.				
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Nid oes unrhyw gapasiti ar gyfer datblygu.				

Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Dd/B
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Dd/B
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Dd/B
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli	Ni ddylid rhoi unrhyw anogaeth i wersyllwyr answyddogol ac felly ni ddylid darparu unrhyw gyfleusterau na llawr caled ychwanegol.
Canllawiau lliniaru	Dd/B



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata gan Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd ACT 9: Marloes

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 22: De dyfroedd arfordirol Bae Sain Ffraid - Borough Head

ACM 23: De dyfroedd arfordirol Bae Sain Ffraid – The Nab Head

ACM 25: Ynys Sgomer a Phenrhyn Marloes

ACM 26: Dyfroedd arfordirol Sgogwm a Gateholm

ACM31: Aberdaugleddau Allanol

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal yn seiliedig ar yr arfordir cilfachog digyffwrdd sydd heb ei ddatblygu i raddau helaeth, cymeriad agored y penrhyn, patrwm aneddiadau gwasgaredig ar y cyfan, tirwedd o ddiddordeb hanesyddol gofrestredig tua'r de, cynefinoedd o bwysigrwydd cenedlaethol, rhyngwelededd cryf y glannau â'r môr gan gynnwys nenlinellau, golygfeydd allweddol o Lwybr Arfordir Sir Benfro ac i Sgomer a Sgogwm ac oddi yno gan gynnwys teithiau cychod.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Penrhyn gorllewinol gyda chymeriad hynod forwrol ac agored tua'r gogledd, y de a'r gorllewin. • Glannau cilfachog digyffwrdd ac annatblygedig i raddau helaeth a chlogwyni gyda llystyfiant lled-naturiol gan gynnwys rhedyn ar lethrau serth. • Lethrau serth dyffrynnoedd endoredig a nenlinellau ar gribau. • Cymeriad nodedig ac agored penrhyn Marloes a phenrhyn Dale / Penrhyn Santes Ann. • Patrwm aneddiadau gwasgarog ar y cyfan gyda chymeriad ynysig Marloes mewn lleoliad agored. • Mae Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol cofrestredig Dyfrffordd Aberdaugleddau yn ffurfio rhan ddeheuol yr ardal. • Henebion Rhestredig gan gynnwys o amgylch Trwyn Wooltack a maes awyr Dale. • Glannau ac aberoedd bach sy'n dod o dan ddynodiad SoDdGA. • Mae'r llethrau arfordirol tua'r gogledd, y de ac yn arbennig yn rhannau gorllewinol yr ardal ar y penrhyn yn rhyngweladwy iawn gyda'r môr. • Golygfeydd allweddol o Lwybr Arfordir Sir Benfro ac i Sgomer a Sgogwm ac oddi yno gan gynnwys teithiau cychod a morwyr hamdden. Mae rhai golygfeydd arfordirol yn banoramig e.e. o fannau ger Trwyn Wooltack a Phenrhyn Santes Ann. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol, y dirwedd hanesyddol gofrestredig, nodweddion hanesyddol a'r SoDdGA.				
Datblygiadau yn yr ardal	Mae yna ychydig o safleoedd gwersylla carafanio â chaniatâd wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal gyda'r rhai mwyaf i mewn i'r tir tua'r dwyrain. Mae yna ychydig o safleoedd llai ar y penrhyn gorllewinol agored.				

CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti/ Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Capasiti cyfyngedig sydd gan yr ardal oherwydd ei chymeriad arfordirol agored digyffwrdd ar y cyfan. Mae hyn yn golygu nad oes capasiti pellach ar ymyl yr arfordir na'r penrhynau gorllewinol a deheuol i'r gorllewin o'r dyffryn rhwng Sain Ffraid a Dale. Mae'r dirwedd hanesyddol yn cyfyngu datblygiadau statig yn rhan ddeheuol yr ardal. Yn fewndirol, i ffwrdd o'r arfordir, gall fod safleoedd posibl ar lwyfandir gwastad i ffwrdd o nenlinellau neu ar lethrau graddol is/lloriau dyffrynnoedd (heb fod ar orlifdir).				
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Gall fod cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer safleoedd bach/canolig yn y mewndir tir i ffwrdd o'r arfordir a'r dirwedd hanesyddol gofrestredig lle mae safleoedd cymharol wastad wedi'u hamgáu gan wrychoedd uchel a/neu goed naill ai ar loriau dyffrynnoedd/llethrau is graddol dyffrynnoedd neu ar ben llwyfandir. Gall hyn gynnwys safleoedd tir llwyd.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Ymddengys mai cyfleoedd cyfyngedig iawn sydd i ymestyn safleoedd presennol heb gynyddu eu heffaith ar gymeriad y dirwedd.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Byddai unrhyw ehangu yn annhebygol iawn o wella'r effaith ar gymeriad y dirwedd, er bod rhai safleoedd presennol wedi'u datblygu'n ddwys.				
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Mae potensial i wella safleoedd presennol.				
CANLLAWIAU					
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	1. Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurfiau, coed neu wrychoedd aeddfed o fewn ac wrth ymyl safle. 2. Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos. 3. Gosod ar lwyfandir neu dir gwastad, neu lethrau is graddol dyffrynnoedd, ar yr amod eu bod wedi'u hamgáu. 4. Gosod unedau yn agos at ymylon ffurfiau sy'n amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu ofodau. 5. Cysylltu ag adeiladau fferm os yn bosibl, yn enwedig safleoedd bach. 6. Gosod ar borfa wedi'i gwella, tir âr neu dir llwyd. 7. Os lleolir mewn coetir, sicrhau bod rhywfaint o goetir yn cael ei warchod a bod strategaeth reoli ar waith i gynnal gorchudd coed rhwng unedau dros amser e.e. adfywio/ailblannu fesul cam. 8. Gosod ger datblygiadau modern. 9. Osgoi safleoedd neu warchodfeydd natur a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n lleol. 10. Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys coetir hynafol. 11. Osgoi lleoli unedau statig mewn neu yng ngolwg Ardaloedd Cadwraeth, Parciau a Gerddi Cofrestredig, henebion rhestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtilau. 12. Osgoi lleoli unedau statig mewn tirweddau Hanesyddol Cofrestredig.				

Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	1. Lleihau dwysedd datblygiadau carafanau statig gan greu gofod gwyrdd gyda phlannu coed brodorol rhwng carafanau, yn enwedig lle mae carafanau i'w gweld mewn nenlinellau ac ar ben llethrau. 2. Osgoi gosod carafanau statig yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i glustogi effeithiau. 3. Cyfyngu carafanau statig a theithiol i ymylon caeau. 4. Cyfyngu unedau i ymylon caeau. 5. Newid lliw carafanau i arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, er mwyn lleihau'r effaith weledol. Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda trwy blannu rhyngddynt. 6. Cynnal neu newid goleuo i oleuadau sy'n wynebu i lawr ac o lefel isel ac yn y mannau y mae eu hangen yn unig. 7. Gwella golwg cyfleusterau safle e.e. er mwyn ymdebygu i adeiladau fferm wledig, a lliniaru'r effaith gyda phlannu lle bo hynny'n briodol. 8. Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau caeau gan gynnwys cloddiau traddodiadol, gwrychoedd a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. 9. Rhoi gwrychoedd brodorol uchel yn lle gwrychoedd conwydd a ffensys caled ar ffiniau dros amser. 10. Sicrhau bod rhaglen plannu coed o fewn y safleoedd perthnasol er mwyn sicrhau gorchudd coed yn y tymor hir. Ystyried cael rhywogaethau brodorol collddail yn lle coed conwydd dros amser. 11. Cynyddu plannu coed a llwyni brodorol o fewn safleoedd er mwyn rhannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol. 12. Gwarchod plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos iddynt er mwyn cynnal a gwella sgrinio. 13. Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati. 14. Gwella mynedfeydd safleoedd i roi cymeriad gwledig, gan ddefnyddio cynlluniau gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cymeriad cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac arwynebeddau caled sy'n rhy fawr.


N
LCA 9 Marloes/ANT 9 Penrhyn Marloes
SCA 21/ACM 21
SCA 22/ACM 22
SCA 24/ACM 24
SCA 23/ACM 23
ANT 10
SCA 25/ACM 25
LCA 9 / ANT 9
LCA 11 / ANT 11
Broad Sound
SCA 26/ACM 26
SCA 31/ACM 31
SCA 32/ACM 32
SCA 29/ACM 29
LCA 7 / ANT 7
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2010

Ardal Cymeriad Tirwedd **ACT 10: Sgomer a Sgogwm**

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 25: Ynys Sgomer a Phenrhyn Marloes

ACM 26: Dyfroedd arfordirol Sgogwm a Gateholm

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ynysoedd yn seiliedig ar eu cymeriad morwrol digyffwrdd a'u harfordir, eu cymeriad agored, eu tirwedd hanesyddol gofrestredig, eu statws fel Gwarchodfa Natur Genedlaethol gyda chynefinoedd o bwysigrwydd cenedlaethol, eu natur anghysbell a gwyllt gyda golygfeydd panoramig gwych i'r ynysoedd ac oddi yno.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Ynysoedd digyffwrdd ag arfordiroedd creigiog. • Cymeriad a phatrwm hanesyddol hen waliau caeau cerrig gyda glaswelltir a llystyfiant lled-naturiol yn frith o frigiadau creigiog ond heb orchudd coed na llwyni. • Mae Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Gofrestredig Sgomer a heneb fawr restredig yn sail i ddiddordeb hanesyddol yn yr ynys. • Mae Sgomer a Sgogwm yn bwysig iawn o ran cadwraeth natur, gan eu bod yn Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, SoDdGA ac yn ardaloedd pwysig i adar ac mae Sgomer yn Barth Cadwraeth Morol. • Polisi rheoli ymwelwyr bwriadol er mwyn cyfyngu ar ymwelwyr. • Cymeriad morwrol agored a gwyllt. • Rhyngwelededd cryf gyda'r môr ar bob ochr gyda golygfeydd panoramig o'r môr o'r ynysoedd, o deithiau cychod ac o'r arfordir a Llwybr Arfordir Sir Benfro. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion hanesyddol a chadwraeth natur y soniwyd amdanynt uchod.				
Datblygiadau yn yr ardal	Nid oes unrhyw safleoedd gwersylla na charafanau ar yr ynysoedd.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti/ Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Nid oes gan yr ynysoedd unrhyw gapasiti oherwydd eu sensitifrwydd uchel ar gyfer pob categori datblygu a'u cymeriad fel ynysoedd agored, digyffwrdd.				
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Nid oes capasiti ar gyfer unrhyw safleoedd.				

Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Dd/B
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Dd/B
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Dd/B
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	Dd/B
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	Dd/B



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd ACT 11: Cyrion Purfa Herbrandston

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 31: Aberdaugleddau Allanol

ACM 32: Aberdaugleddau Fewnol

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal yn seiliedig ar y llethrau i lawr i Sandy Haven, y nenlinellau lleol, y Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Gofrestredig, yr henebion rhestredig a'u lleoliadau, y cynefinoedd o bwysigrwydd cenedlaethol ar hyd yr aber, a golygfeydd allweddol o Lwybr Arfordir Sir Benfro.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Y llethrau i lawr i Sandy Haven yn rhan orllewinol yr ardal, a'r nenlinell wrth edrych i fyny o'r llethrau isaf. • Mae Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Gofrestredig Dyfrffordd Aberdaugleddau yn ffurfio rhan ddeheuol yr ardal. • Mae henebion rhestredig yn cynnwys caer pentir Napoleonaidd ar yr arfordir. • Mae'r golygfeydd allweddol i'w gweld o Lwybr Arfordir Sir Benfro sy'n blethog yma. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol, y nodweddion hanesyddol y soniwyd amdanynt uchod a'r SoDdGA ar hyd y glannau. • Mae presenoldeb gweledol y burfa olew tua'r dwyrain a phresenoldeb y burfa olew yn y fan a'r lle tua'r de yn ei gwneud hi'n annhebygol iawn y bydd yr ardaloedd cyfagos yn cael eu datblygu ar gyfer gwersylla neu garafanio. Yn y tymor byr, mae siediau cyw iâr hyll iawn mewn caeau i'r gorllewin hefyd yn gwrthdynnu.				
Datblygiadau yn yr ardal	Mae'n ymddangos bod un safle statig/cymysg â chaniatâd ger Sandy Haven.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti/ Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Capasiti cyfyngedig sydd gan yr ardal ar gyfer datblygu oherwydd tirwedd aberol diddos Sandy Haven, y llethrau agored a'r nenlinellau a'r dirwedd hanesyddol gofrestredig. Gall fod cyfleoedd cyfyngedig mewn mannau mewn safleoedd cynnil ar lethrau graddol.				
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Prin iawn yw'r capasiti ar gyfer safleoedd newydd. Byddai angen i'r rhain fod yn safleoedd statig bach ar y mwyaf neu'n safleoedd tymhorol bach/canolig, er mwyn osgoi effeithio ar gymeriad Sandy Haven a'i gyffiniau a hefyd osgoi llethrau agored a'r nenlinell. Ychydig o opsiynau sydd felly yn yr ardal sydd hefyd yn cael ei heffeithio gan ddatblygiad purfeydd olew ond gall fod rhywfaint o botensial.				

Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Byddai estyniad i'r safle presennol yn debygol o gynyddu'r effaith ar gymeriad y dirwedd.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Byddai estyniad i'r safle presennol yn debygol o gynyddu'r effaith ar gymeriad y dirwedd.
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Mae potensial ar gyfer rhai gwelliannau.
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	1. Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurfiau, coed neu wrychoedd aeddfed o fewn ac wrth ymyl safle. 2. Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos. 3. Gosod ar y tir mwyaf gwastad, ar yr amod eu bod wedi'u hamgáu. 4. Gosod unedau yn agos at ymylon ffurfiau sy'n amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu ofodau. 5. Cysylltu ag adeiladau fferm os yn bosibl, yn enwedig safleoedd bach. 6. Gosod ar borfa wedi'i gwella, tir âr neu dir llwyd. 7. Gosod ger datblygiadau modern. 8. Osgoi safleoedd neu warchodfeydd natur a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n lleol. 9. Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys coetir hynafol. 10. Osgoi lleoli unedau statig mewn tirweddau Hanesyddol Cofrestredig.
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	1. Osgoi gosod carafanau statig yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i glustogi effeithiau. 2. Cyfyngu carafanau statig a theithiol i ymylon caeau. 3. Newid lliw carafanau i arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, er mwyn lleihau'r effaith weledol. Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda trwy blannu rhyngddynt. 4. Cynnal neu newid goleuo i oleuadau sy'n wynebu i lawr ac o lefel isel ac yn y mannau y mae eu hangen yn unig. 5. Gwella golwg cyfleusterau safle e.e. er mwyn ymdebygu i adeiladau fferm wledig, a lliniaru'r effaith gyda phlannu lle bo hynny'n briodol. 6. Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau caeau gan gynnwys cloddiau traddodiadol, gwrychoedd a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. 7. Rhoi gwrychoedd neu gloddiau brodorol yn lle ffensys. 8. Cynyddu plannu coed a llwyni brodorol o fewn safleoedd er mwyn rhannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol. 9. Gwella mynedfeydd safleoedd i roi cymeriad gwledig, gan ddefnyddio cynlluniau gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cymeriad cynhenid.



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd **ACT 12: Bae Sain Ffraid**

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 20: Gogledd dyfroedd arfordirol Bae Sain Ffraid

ACM 21: Dwyrain dyfroedd arfordirol Bae Sain Ffraid

ACM 22: De dyfroedd arfordirol Bae Sain Ffraid - Borough Head

ACM 23: De dyfroedd arfordirol Bae Sain Ffraid – The Nab Head

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal yn seiliedig ar yr arfordir cilfachog sydd heb ei ddatblygu i raddau helaeth, yn enwedig tua'r gogledd-orllewin, llethrau sy'n wynebu'r arfordir, nenlinellau agored, henebion rhestredig a'u lleoliadau, cynefinoedd o bwys cenedlaethol ar hyd yr arfordir ac ardaloedd sy'n rhyngweladwy gyda'r môr a Llwybr Arfordir Sir Benfro.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Glannau cilfachog annatblygedig i raddau helaeth a chlogwyni gyda llystyfiant lled-naturiol yn enwedig tua'r gogledd/gogledd-orllewin. • Tirffurf ar raddfa ganolig, yn serth mewn mannau, ar lethr o hyd at 121m USO tuag at yr arfordir. • Tirwedd o borfa ar lethrau yn bennaf sy'n ffurfio'r gefnlen i'r arfordir, agored mewn mannau. • Caeau bach afreolaidd mewn mannau a chaeau mawr agored wedi'u rhesymoli mewn mannau eraill. • Ardaloedd o gloddiau/gwrychoedd neu ffensys isel sy'n tueddu i fod yn fwy agored ar gyfer golygfeydd. • Henebion rhestredig gan gynnwys caerau pentir a'u lleoliadau. • SoDdGA ar hyd y glannau. • Mae mwyafrif yr ardal yn rhyngweladwy iawn gyda Bae Sain Ffraid ac eithrio'r ardal fwyaf deheuol ac i'r gogledd tuag at Brandy Brook. • Ardaloedd o nenlinell wedi'u gosod yn ôl o'r arfordir ar ben llwyfandir sy'n raddol donnog ond hefyd ar ben clogwyni mewn mannau. • Mae Castell Roch yn ffurfio tirnod nodedig ar dir uwch sy'n rhyngweladwy â'r môr. • Pentiroedd / creigiau nodedig yn Ninas Fawr a Dinas Fach tua'r gogledd ac yn Ricketts Head. • Arfordir llai datblygedig a thawel tua'r gogledd, i'r dwyrain o Niwgwl. • Ardal wedi'i datblygu'n ddwys o amgylch Aberllydan. • Golygfeydd allweddol o Lwybr Arfordir Sir Benfro ac o deithiau cychod gan gynnwys o Solfach ac o gaiacau. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol, nodweddion hanesyddol a'r SoDdGA.				
Datblygiadau yn yr ardal	Mae datblygiadau wedi'u crynhoi o amgylch traeth Niwgwl tua'r gogledd ac o amgylch Aberllydan ac Aber-bach tua'r de, gyda rhai safleoedd llai yn fewndirol neu mewn lleoliadau cynnil mewn dyffrynnoedd. Mae datblygiadau sydd y tu allan i'r				

	Parc Cenedlaethol i'w gweld yn y nenlinell.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti/ Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Mae'r capasiti ar gyfer datblygiadau pellach yn yr ardal yn gyfyngedig oherwydd bod rhai safleoedd presennol yn wrthdynwyr sy'n weladwy o'r môr a Llwybr Arfordir Sir Benfro ac mae natur agored yr ardal hon a'r llethrau tuag at yr arfordir yn golygu y byddai rhagor o ddatblygu ar hyd yr arfordir a'r gefnwlad uniongyrchol yn effeithio'n andwyol ar ei chymeriad. Gall fod capasiti cyfyngedig o symud yn ôl o'r arfordir gan osgoi llethrau a nenlinellau.				
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Gall fod capasiti cyfyngedig ar gyfer safleoedd statig bach a safleoedd tymhorol canolig a bach wedi'u gosod yn ôl o'r arfordir gan osgoi llethrau a nenlinellau a dilyn y canllawiau lleoli isod.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Nid yw'n ymddangos bod unrhyw gyfle i ehangu safleoedd carafanau statig sy'n gysylltiedig â'r arfordir ymhellach. Gall ehangu cyfyngedig fod yn bosibl ar gyfer safleoedd i ffwrdd o'r arfordir yn unol â'r canllawiau.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Nid oes unrhyw gapasiti ar gyfer ymestyn safleoedd presennol gan y byddai hyn ond yn cynyddu lledaeniad yr effeithiau.				
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Mae potensial ar gyfer rhai gwelliannau.				
CANLLAWIAU					
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	1. Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurfiau, coed neu wrychoedd aeddfed o fewn ac wrth ymyl safle. 2. Os lleolir ar lwyfandir, dylid defnyddio tir gwastad a gosod yn ôl o'r llethrau cyfagos, yn enwedig ar ochr yr arfordir, er mwyn osgoi bod yn ddatblygiad nenlinell. 3. Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos. 4. Gosod unedau yn agos at ymylon ffurfiau sy'n amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu ofodau. 5. Cysylltu ag adeiladau fferm os yn bosibl, yn enwedig safleoedd bach. 6. Gosod ar borfa wedi'i gwella, tir âr neu dir llwyd. 7. Os lleolir mewn coetir, sicrhau bod rhywfaint o goetir yn cael ei warchod a bod strategaeth reoli ar waith i gynnal gorchudd coed rhwng unedau dros amser e.e. adfywio/ailblannu fesul cam. 8. Gosod ger datblygiadau modern. 9. Osgoi safleoedd neu warchodfeydd natur a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n lleol. 10. Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol. 11. Osgoi lleoli unedau statig mewn neu yng ngolwg Ardaloedd Cadwraeth, henebion rhestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtilau. 12. Osgoi lleoli unedau statig yn y dirwedd Hanesyddol Gofrestredig.				
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	1. Lleihau dwysedd datblygiadau carafanau statig gan greu gofod gwyrdd gyda phlannu coed brodorol rhwng carafanau, yn enwedig lle mae carafanau neu gabanau yn 'pentyrru' ar lethrau. 2. Osgoi gosod carafanau statig yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i				

	glustogi effeithiau. 3. Cyfyngu carafanau statig a theithiol i ymylon caeau. 4. Cyfyngu unedau i ymylon caeau. 5. Ystyried gosod unedau statig mewn modd sy'n llai unionsyth gyda ffyrdd mynediad troellog a gofodau. 6. Mewn lleoliadau/caeau mwy amlwg a'r rhai sy'n union ger yr arfordir, ystyried cael gwared ar unedau statig a defnyddio'r gofod ar gyfer amwynder e.e. hamdden gofod agored, chwarae, cerdded cŵn. 7. Mewn lleoliadau/caeau mwy amlwg a'r rhai sy'n union ger yr arfordir, ystyried cael gwared ar unedau statig a defnyddio'r gofod ar gyfer unedau sy'n cael llai o effaith, pebyll tymhorol, iwrtau neu bebyll saffari yn ddelfrydol. 8. Newid lliw carafanau i arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, er mwyn lleihau'r effaith weledol. Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda trwy blannu rhyngddynt. 9. Cynnal neu newid goleuo i oleuadau sy'n wynebu i lawr ac o lefel isel ac yn y mannau y mae eu hangen yn unig. 10. Gwella golwg cyfleusterau safle e.e. er mwyn ymdebygu i adeiladau fferm wledig, a lliniaru'r effaith gyda phlannu lle bo hynny'n briodol. 11. Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau caeau gan gynnwys cloddiau traddodiadol, gwrychoedd a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. 12. Cynyddu plannu coed a llwyni brodorol o fewn safleoedd er mwyn rhannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol. 13. Rhoi gwrychoedd neu gloddiau brodorol yn lle ffensys. 14. Gwarchod plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos iddynt er mwyn cynnal a gwella sgrinio. 15. Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati. 16. Gwella mynedfeydd safleoedd i roi cymeriad gwledig, gan ddefnyddio cynlluniau gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cymeriad cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac arwynebeddau caled sy'n rhy fawr.


LCA 15 / ANT 15
LCA 12 St Brides Bay/ANT 12 Bae Sain Ffraid
LCA 18 / ANT 18
SCA 20/ACM 20
LCA 13 / ANT 13
SCA 24/ACM 24
SCA 21/ACM 21
LCA 12 / ANT 12
SCA 22/ACM 22
SCA 23/ACM 23
LCA 9 / ANT 9
LCA 11 / ANT 11
25/ACM 25
SCA 31/ACM 31
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100025334 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd ACT 13: Brandy Brook

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig Dim

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal yn seiliedig ar lethrau agored pen uchaf dyffrynnoedd a nenlinellau/copaon sy'n rhyngweladwy gyda'r arfordir a Bae Sain Ffraid, llethrau serth y cymoedd endoredig, y patrwm aneddiadau gwasgarog, lleoliad Castell Roch a'r cynefinoedd lled-naturiol yn bennaf ar loriau'r dyffrynnoedd.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Llethrau agored pen uchaf y dyffrynnoedd a nenlinellau/copaon gyda rhyngwelededd â'r arfordir a Bae Sain Ffraid. • Llethrau serth dyffrynnoedd endoredig. • Patrwm aneddiadau gwledig gwasgarog. • Lleoliad Castell Roch ar lethrau uchel tua'r de. • Cynefinoedd coetir gwern gwlyb, rhostir a glaswelltir gwlyb. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion cadwraeth natur y soniwyd amdanynt uchod.				
Datblygiadau yn yr ardal	Mae'n ymddangos bod un safle statig / cymysg wedi'i leoli'n gynnil yng ngwaelod dyffryn Brandy Brook ac un arall yn agos at faes awyr Breudeth.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti/ Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Capasiti cyfyngedig iawn sydd gan yr ardal oherwydd bod llethrau a nenlinellau cymharol agored yr ardal yn golygu bod datblygiadau mawr yn debygol o fod yn weladwy iawn ac o effeithio ar y gefnlen i'r arfordir. Gallai datblygu ar raddfa fach mewn dyffrynnoedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurfiau a choetir/gwrychoedd ar safleoedd gwastad fod yn addas ar yr amod na fydd effaith andwyol ar gynefinoedd lled-naturiol. Gall safleoedd ar lethrau graddol sy'n wynebu i ffwrdd o'r arfordir fod yn addas os nad ydynt yn y nenlinell.				
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Mae'r capasiti ar gyfer safleoedd newydd wedi'i cyfyngu i safleoedd bach mewn lleoliadau cynnil sydd wedi'u sgrinio'n dda yn unig.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Gall fod potensial ar gyfer ehangiad bach i safle canolig ei faint ar lawr y dyffryn ar yr amod ei fod yn parhau'n gynnil ac nad yw'n effeithio'n andwyol ar gynefinoedd lled-naturiol.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Ni welir y byddai unrhyw fudd o leihau dwysedd y safleoedd presennol er mwyn cyfiawnhau ehangu.				
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Nid oes angen neilltuol am welliannau.				

CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	1. Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurfiau, coed neu wrychoedd aeddfed o fewn ac wrth ymyl safle. 2. Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos. 3. Gosod ar lwyfandir ar lethrau sy'n goleddfu i ffwrdd o'r môr, neu dir gwastad, ar yr amod eu bod wedi'u hamgáu, ac osgoi'r nenlinell. 4. Gosod unedau yn agos at ymylon ffurfiau sy'n amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu ofodau. 5. Cysylltu ag adeiladau fferm os yn bosibl, yn enwedig safleoedd bach. 6. Os lleolir mewn coetir, sicrhau bod rhywfaint o goetir yn cael ei warchod a bod strategaeth reoli ar waith i gynnal gorchudd coed rhwng unedau dros amser e.e. adfywio/ailblannu fesul cam. 7. Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys coetir hynafol. 8. Osgoi lleoli unedau statig mewn neu yng ngolwg henebion rhestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtilau.
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	Dd/B


N
LCA 13 Brandy Brook/ANT 13 Brandy Brook
Troed-Y-Rhiw
Little Asheston
Rhyndaston Villa Farm
Brynamlwg
Lackerlee
Rhydygele
Penrhiw
Gignog-Wen
Knaveston
Silver Hill
Brawdy Fa
Rhyndaston-Fawr
Upper Eweston
Tanybryn
Coed Y Bach
Penycwm
Bramble Cottage
Barch Farm
Little Rhyndaston
Coland Rise Farm
CM 20
New Mill
LCA 13 / ANT 13
Rhyndaston Mountain
Pantier
Kite Farm
West View Farm
Start Naked
Newgale Farm
The Bramble
Bramble Hill
Kite Mountain
Brandy Brook
Newgale
Gouts
Pontpren
Roch Mill
Woodhawk
Wood
Ferny Glen
Gwachal-Tagy
Porterswell Farm
Brock Farm
Ferny Glen Lodge
Wood Hill
SCA 21/ACM 21
Long Hill
Southwood Lodge
Southwood
Pinch Hill
Pinch Cottage
Cuffern
Church Hill
Church Road
Roch Gate
Rosepool
Traeth
Chapel Farm Buncalow
Cuffern Lodge
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd ACT14: Dyffryn Solfach

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 20: Gogledd dyfroedd arfordirol Bae Sain Ffraid

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal yn seiliedig ar lethrau coediog serth a llystyfiant lled-naturiol y dyffrynnoedd endoredig, y llethrau uchaf agored ar y llwyfandir, Ardal Gadwraeth Solfach sy'n cynnwys y pentref a'r harbwr a'u hamgylchedd, y dirwedd hanesyddol gofrestredig tua'r gogledd, cynefinoedd arfordirol ac arwyddocâd cenedlaethol, cymeriad diddos a thawel y dyffryn a golygfeydd o Lwybr Arfordir Sir Benfro.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Llethrau coediog ac agored serth y dyffrynnoedd endoredig ar raddfa fach a gwaelodion cul y dyffrynnoedd. • Llethrau uchaf agored y dyffrynnoedd a chopaon y llwyfandir. • Ardal Gadwraeth Solfach a'i henebion rhestredig a'u lleoliad gan gynnwys yr harbwr golygfaol gyda'i naws cryf am le. • Mae'r ardal i'r gogledd o Felinganol wedi'i chynnwys yn Nhirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Gofrestredig Penmaendewi ac Ynys Dewi. • Cymeriad diddos, digyffwrdd a thawel y dyffryn a'i gyffiniau. • Llystyfiant lled-naturiol y dyffryn. • Golygfeydd o Lwybr Arfordir Sir Benfro. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion hanesyddol a chadwraeth natur y soniwyd amdanynt uchod.				
Datblygiadau yn yr ardal	Nid oes unrhyw safleoedd i'w gweld yn yr ardal.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti/ Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Nid oes gan yr ardal unrhyw gapasiti ar gyfer datblygiadau statig gan ei bod yn fach iawn o ran maint a graddfa ddiddos gyda derbynyddion sensitif iawn tua'r de o amgylch Solfach a'r dirwedd hanesyddol gofrestredig i'r gogledd. Gall fod cyfle i gael safle tymhorol bach.				
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Gall fod cyfle i gael safle tymhorol bach mewn lleoliad cynnil wedi'i sgrinio'n dda.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Dd/B				
Capasiti ar gyfer	Dd/B				

estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Dd/B
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	1. Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurfiau, coed neu wrychoedd aeddfed o fewn ac wrth ymyl safle. 2. Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos. 3. Gosod ar lwyfandir ar lethrau sy'n goleddfu i ffwrdd o'r môr, neu dir gwastad, ar yr amod eu bod wedi'u hamgáu, ac osgoi'r nenlinell. 4. Gosod unedau yn agos at ymylon ffurfiau sy'n amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu ofodau. 5. Cysylltu ag adeiladau fferm os yn bosibl, yn enwedig safleoedd bach. 6. Os lleolir mewn coetir, sicrhau bod rhywfaint o goetir yn cael ei warchod a bod strategaeth reoli ar waith i gynnal gorchudd coed rhwng unedau dros amser e.e. adfywio/ailblannu fesul cam. 7. Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys coetir hynafol.
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	Dd/B



Ardal Cymeriad Tirwedd **ACT15: Comin Dowrog a Chomin Tretio**

Ardal Cymeriad Morlun Gysylltiedig ACM 13: Penbwchdy i Benllechwen

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal yn seiliedig ar y llethrau tonnog agored, patrwm aneddiadau bach hynod nodedig, tiroedd comin agored gyda gwerth cadwraeth natur, cymeriad a gwerth hanesyddol a naws cryf am le.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Ardaloedd o lethrau tonnog sy'n agored i'w gweld o ardal eang. • Cymeriad agored llawer o'r dirwedd gyda chloddiau neu wrychoedd isel neu ddim gorchudd gwrychoedd, gan gynnwys y maes awyr segur. • Patrwm aneddiadau bach nodedig gan gynnwys yr Ardal Gadwraeth a'i lleoliad yng Nghaerfarchell. • Mae mwyafrif yr ardal wedi'i chynnwys yn Nhirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Gofrestredig Penmaendewi ac Ynys Dewi sy'n arwydd o gymeriad hanesyddol a diwylliannol hynod nodedig yr ardal. • Tir comin agored gyda naws cryf am le yn ogystal â chynefinoedd rhostir a glaswelltir o bwys rhyngwladol. • Mae rhan fach o'r ardal tua'r gogledd yn rhyngweladwy iawn gyda'r môr. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion hanesyddol a chadwraeth natur y soniwyd amdanynt uchod.				
Datblygiadau yn yr ardal	Safleoedd carafanau statig/cymysg yn Hendre Eynon a Tretio a safle llai i'r gogledd o Gaerfarchell.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti/ Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Capasiti cyfyngedig sydd gan yr ardal oherwydd ei sensitifrwydd uchel / uchel/canolig ar y cyfan a'i thirwedd donnog agored gyda thiroedd comin a naws arbennig am le a chymeriad hanesyddol. Mae'r dirwedd hanesyddol yn cyfyngu datblygiadau statig. Gall fod capasiti cyfyngedig ar gyfer ymestyn safleoedd presennol ar yr amod eu bod o fewn gwrychoedd / coed aeddfed neu ar gyfer safleoedd tymhorol bach.				
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Gall fod capasiti ar gyfer safleoedd tymhorol bach yn unig mewn safleoedd gwastad wedi'u sgrinio'n dda ac yn gysylltiedig â ffermydd o bosib.				
Capasiti ar gyfer	Gall fod capasiti cyfyngedig ar gyfer ymestyn safleoedd presennol ar yr amod eu				

estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	bod o fewn gwrychoedd / coed aeddfed. Ddefnydd tymhorol fyddai orau ar gyfer yr estyniadau ond mae'n bosibl y bydd nifer fach o garafanau statig yn dderbyniol ar yr amod bod sgrinio cryf.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Byddai hyn yn berthnasol i un o'r safleoedd carafanau er mwyn lleihau dwysedd carafanau statig, yn enwedig o amgylch y fynedfa, a fyddai'n galluogi'r safle i gael mynedfa fwy gwledig.
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Mae potensial i wella rhywfaint ar y safleoedd presennol - gweler isod.
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli	1. Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurfiau, coed neu wrychoedd aeddfed o fewn ac wrth ymyl safle. 2. Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos. 3. Lleoli ar lwyfandir neu dir gwastad, ar yr amod eu bod wedi'u hamgáu. 4. Gosod unedau yn agos at ymylon ffurfiau sy'n amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu ofodau. 5. Cysylltu ag adeiladau fferm os yn bosibl, yn enwedig safleoedd bach. 6. Gosod ger datblygiadau modern. 7. Osgoi safleoedd neu warchodfeydd natur a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n lleol. 8. Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol. 9. Osgoi lleoli unedau statig mewn neu yng ngolwg Ardaloedd Cadwraeth, henebion rhestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtilau. 10. Osgoi lleoli unedau statig mewn tirweddau Hanesyddol Cofrestredig lle bo hynny'n bosib.
Canllawiau lliniaru	1. Lleihau dwysedd datblygiadau carafanau statig gan greu gofod gwyrdd. 2. Osgoi gosod carafanau statig yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i glustogi effeithiau. 3. Cyfyngu carafanau statig a theithiol i ymylon caeau. 4. Cyfyngu unedau i ymylon caeau. 5. Cynnal neu newid goleuo i oleuadau sy'n wynebu i lawr ac o lefel isel ac yn y mannau y mae eu hangen yn unig. 6. Gwella golwg cyfleusterau safle e.e. er mwyn ymdebygu i adeiladau fferm wledig, a lliniaru'r effaith gyda phlannu lle bo hynny'n briodol. 7. Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau caeau gan gynnwys cloddiau traddodiadol, gwrychoedd a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. 8. Cynyddu plannu coed a llwyni brodorol o fewn safleoedd er mwyn rhannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol. 9. Gwarchod plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos iddynt er mwyn cynnal a gwella sgrinio. 10. Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati. 11. Gwella mynedfeydd safleoedd i roi cymeriad gwledig, gan ddefnyddio cynlluniau gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cymeriad cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac arwynebeddau caled sy'n rhy fawr.


LCA 15 Dowrog & Tretio Commons/ANT 15 Comin Dowrog a Chomin Tretio
LCA 20 / ANT 20
SCA 13/ACM 13
LCA 16 / ANT 16
LCA 18 / ANT 18
LCA 15 / ANT 15
LCA 14 / ANT 14
LCA 17 / ANT 17
SCA 20/ACM 20
TYDDEWI / ST DAVIDS
Tretio
Carnhedryn Uchaf
Caerfarchell
Whitchurch
Middle Mill
Lower Kingeriot
Trevine
Llandruidion
Penberry
Treleidr
Dowrog Common
Tretio Common
Rhosygilwen
Llandigige Fawr
Llandigige-Fach
Rhosdwarch
Carn Treglemaes
Lower House
Lecha Farm
Hunters Lodge
Swallows Nest
Tresais Farm
Caerfarchell Cottage
Kingeriot
Caervega Bungalow
Pant-Y-Castell
Hafod Y Dail
Trecadwgan
Ocean Haze Hotel
Penarthur Farm
Anghofa Dawel Farm
Emlych
Leithyr
Rhosgadw
Trelewyd Cottage
Treleddyd-fawr
Carn-ffald
Carnedd-lleithr
Tre-Gwy
Trefochlyd Farm
Trefochlyd Moor
Crug-Glâs Farm
Parc-Y-Bont
Vagwr Eilw Cottage
Clyn-Du
St Hywel's House
Lower Camhedryn
Treithel
Hendre Farm
Trefadog
Dowrog Pool
Mynydd Du
Hergloddd-Uchaf
Hergloddd-Isaf
Llyngynnydd
Gwynfryn
Trecenny
Penlan
Vachelich
Llanungar-Fawr
Llanungar-Fâch
Croftur
Clegyr-Uchaf
Nine Wells
Coach House
Tremynydd Fawr
Tremynydd Fach
Bryn-Y-Mor
Waun Beddau
Fronwen Cottage
Cwmwdig Farm
Ty Melyn Bach
Wern
Henllys Bychan
Rhos Y Gors
Gwthyd Mewr
Dros-Cobeth
Treleddyd-fawr Moor
A487
B4583
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd **ACT 16: Carn Llidi**

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 13: Penbwchdy i Benllechwen

ACM 15: Penmaendewi

ACM 16: Y Porth Mawr

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal yn seiliedig ar y tirffurfiau a'r pentir hynod nodedig ac amlwg gyda'r llethrau serth cysylltiedig sy'n agored i'w gweld yn eang o'r tir a'r môr, tirwedd hanesyddol hynod bwysig, llystyfiant lled-naturiol o werth cadwraeth natur, aneddiadau gwasgarog a golygfeydd eiconig tuag at yr ardal ac oddi yno.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Cnyciau creigiog ag ochrau serth hynod nodedig gyda llethrau serth cysylltiedig a phentir creigiog agored sy'n diffinio'r Porth Mawr. • Mae tirffurfiau amlwg yn dirnodau pwysig sy'n agored i'w gweld yn eang o'r tir, yr arfordir a'r môr. • Glannau cilfachog annatblygedig a chlogwyni gyda llystyfiant lled-naturiol yn ymestyn i mewn i'r tir mewn mannau. • Cymeriad agored a digysgod llawer o'r dirwedd gyda chloddiau neu wrychoedd isel a llystyfiant lled-naturiol. • Patrwm aneddiadau nodedig wedi'i gyfyngu i ffermydd ar y darddlin ar lethrau sy'n weladwy o'r tir isel a'r bae tua'r de. Arfordir annatblygedig tua'r gogledd. • Mae'r ardal yn dirwedd gynhanesyddol a diwylliannol hynod bwysig gyda henebion rhestredig ac mae wedi'i chynnwys yn Nhirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Gofrestredig Penmaendewi ac Ynys Dewi. • Cynefinoedd arfordirol a rhostir o bwysigrwydd rhyngwladol. • Teimlad o fod yn anghysbell ar y glannau a thua'r gogledd. • Y golygfeydd allweddol yw'r rhai o Benmaendewi a Charn Llidi sy'n cynnig golygfeydd eiconig o forlun y penrhyn gan gynnwys tuag at Ynys Dewi, Llwybr Arfordir Sir Benfro ac o deithiau cychod gan gynnwys o'r Porth Mawr, o Borthstinian ac o gaiacau. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion hanesyddol a chadwraeth natur y soniwyd amdanynt uchod.				
Datblygiadau yn yr ardal	Nid oes unrhyw ddatblygiadau yn yr ardal.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti/ Yn llawn**
Crynodeb o'r	Nid oes unrhyw gapasiti yn yr ardal oherwydd ei sensitifrwydd uchel drwyddi draw				

capasiti	sy'n deillio o'i chymeriad hynod nodedig ac amlwg ar yr arfordir ac fel tirwedd hanesyddol hynod bwysig.
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Nid oes unrhyw gapasiti ar gyfer safleoedd newydd.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Dd/B
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Dd/B
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Dd/B
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	Dd/B
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	Dd/B


N
LCA 16 Carn Llidi/ANT 16 Carn Llidi
SCA 28/ACM 28
SCA 13/ACM 13
SCA 15/ACM 15
SCA 16/ACM 16
LCA 16 / ANT 16
LCA 18 / ANT 18
Penberry
Penberry Farm
Penllechwen
Yr Ysgubor
Carn-ffald
Carnedd-lleithr
Carn Llidi
Trelewyd Cottage
Treleddyd-fawr
Porthmelgan
Penlledwen
Porth Lleuog
Rhos Y Gors
Gwrhyd Mawr
Lleithyr
Lleithyr Bungalow
Whitesands Bay / Porth Mawr
Porth Mawr / Whitesands Bay
Towyn Cottage
Craig-Y-Mor
Craig-Yr-Awel
Treleddyd-fawr Moor
Rhodiad-y-Brenin
Emlych
Plyg Y Towyn
B4583
Dowrog Pool
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd ACT 17: Tyddewi

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 20: Gogledd dyfroedd arfordirol Bae Sain Ffraid

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal yn seiliedig ar gymeriad a lleoliad hanesyddol Tyddewi a'i heglwys gadeiriol, arwyddocâd hanesyddol y dyffryn a'i gysylltiad â'r arfordir ym Mhorthclais, graddfa ddiddos ac ochrau serth y dyffryn, y natur agored i olygfeydd ar hyd y dyffryn ac o Lwybr Arfordir Sir Benfro, ac ansawdd golygfaol yr harbwr.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Llethrau agored serth dyffryn endoredig Afon Alun a gwaelod cul y dyffryn. • Arwyddocâd hanesyddol rôl y dyffryn yn darparu mynediad o Borthclais i Dyddewi. • Eglwys Gadeiriol Tyddewi ac Ardal Gadwraeth yr anheddiad a'u lleoliad gan gynnwys cip-olygfeydd tuag atynt. • Henebion rhestredig eraill a'u lleoliad. • Harbwr golygfaol ym Mhorthclais gyda'i naws cryf am le. • Cydnabyddir arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol yr ardal trwy ei chynnwys yn Nhirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Gofrestredig Penmaendewi ac Ynys Dewi. • Cynefinoedd arfordirol o bwysigrwydd cenedlaethol a llystyfiant lled-naturiol ar lawr ac ochrau'r dyffryn. • Cymeriad diddos a chymharol ddigyffwrdd a thawel rhan isaf y dyffryn a'i gyffiniau. • Golygfeydd o Lwybr Arfordir Sir Benfro. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion hanesyddol a chadwraeth natur y soniwyd amdanynt uchod.				
Datblygiadau yn yr ardal	Mae yna safle gwersylla tymhorol yn Rhos y Cribed a safle gwersyll statig a chymysg Porthclais gerllaw.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti/ Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Nid oes gan yr ardal unrhyw gapasiti oherwydd ei sensitifrwydd uchel ar gyfer y rhan fwyaf o'r categorïau datblygu sy'n deillio o'i chymeriad a'i harwyddocâd hanesyddol, ei chymeriad nodedig a'i natur agored mewn mannau. Mae datblygiadau presennol eisoes yn cael rhywfaint o effaith ar y naws am le a byddai datblygu pellach yn cael effaith gronnus yn hyn o beth.				
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Nid oes unrhyw gapasiti ar gyfer safleoedd newydd yng nghyffiniau Tyddewi nac i'r gorllewin.				
Capasiti ar gyfer	Nid oes unrhyw gapasiti ar gyfer estyniadau gan y byddai hynny'n cael effaith gronnus ar				

estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	lethrau uchaf y dyffryn.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Nid oes unrhyw gapasiti ar gyfer estyniadau gan y byddai hynny'n cael effaith gronnus ar lethrau uchaf y dyffryn.
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Mae potensial cyfyngedig i wella megis trwy sgrinio gwell heb effeithio ar gymeriad agored y dirwedd e.e. cloddiau isel ger Porthclais.
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	Dd/B
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	1. Yn y safle carafanau cyfagos, yn y lleoliadau/caeau mwyaf amlwg ger ymyl y dyffryn, osgoi carafanau statig a defnyddio'r gofod ar gyfer amwynder e.e. hamdden awyr agored, chwarae, cerdded cŵn, neu bebyll tymhorol ar y gwaethaf. 2. Yn y safle carafanau cyfagos, newid lliw carafanau i arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, er mwyn lleihau'r effaith weledol. Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda trwy blannu rhyngddynt. 3. Cynnal neu newid goleuo i oleuadau sy'n wynebu i lawr ac o lefel isel ac yn y mannau y mae eu hangen yn unig. 4. Gwella golwg cyfleusterau safle e.e. er mwyn ymdebygu i adeiladau fferm wledig, a lliniaru'r effaith gyda phlannu lle bo hynny'n briodol. 5. Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau caeau gan gynnwys cloddiau traddodiadol, gwrychoedd a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. 6. Rhoi gwrychoedd neu gloddiau brodorol yn lle ffensys. 7. Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati.


LCA 17 St Davids/ANT 17 Tyddewi
LCA 15 / ANT 15
LCA 18 / ANT 18
LCA 17 / ANT 17
TYDDEWI / ST DAVIDS
SCA 20/ACM 20
Lower Treleddyn
Treswny Moor
Penlan
Waun Rhosson
Rhosson
Trefeiddan
Clegyr-Boia
Nant-Y-Felin
Carn Warpool
Halfways
Treginnis Lodge
Rhos-Y-Cribed
St Non's Retreat
Porthclais
Non's Bay
Pen-Porth-Clais
Porthllisky
Gwynfryn
Bwlchcarte
Trecenny
Trevinert
Ocean Haze Hotel
Pant Y Bryn
Agos-Y-Mor
Carn-Nwchan Farm
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd **ACT 18: Penmaendewi**

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 16: Y Porth Mawr

ACM 17: Swnt Dewi

ACM 20: Gogledd dyfroedd arfordirol Bae Sain Ffraid

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal yn seiliedig ar yr arfordir creigiog, cilfachog sydd heb ei ddatblygu i raddau helaeth ac sydd o ansawdd golygfaol arbennig, llethrau byrion yn rhedeg i lawr i'r arfordir, cymeriad llwyfandir tonnog agored ar y cyfan gyda chnyciau creigiog, tirwedd hanesyddol gofrestredig gyda phwysigrwydd diwylliannol cryf, ardaloedd lled-naturiol gwerthfawr o rostir a gwlyptiroedd, golygfeydd eiconig tuag at Benmaendewi ac Ynys Dewi ac oddi yno a golygfeydd i Fae Sain Ffraid a Charn Llidi ac oddi yno.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Glannau cilfachog heb eu datblygu i raddau helaeth a chlogwyni gyda llystyfiant lled-naturiol gan gynnwys rhostir arfordirol sy'n ymestyn i mewn i'r tir mewn mannau. • Cnyciau creigiog nodedig sy'n ffurfio nodweddion tirnodol yn y dirwedd e.e. o amgylch Clegyr Boia a Rhoson. • Llethrau sy'n wynebu'r môr ger yr arfordir. • Mae cymeriad agored llawer o'r dirwedd gyda chloddiau neu wrychoedd isel a llystyfiant lled-naturiol yn caniatáu golygfeydd eang dros y llethrau a thuag at y môr. • Patrwm aneddiadau nodedig a gwasgarog wedi'i gyfyngu i ffermydd gan fwyaf, rhai â ffurf gynhenid hynod nodedig. • Mae'r ardal yn dirwedd gynhanesyddol a diwylliannol hynod bwysig gyda henebion rhestredig ac mae wedi'i chynnwys yn Nhirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Gofrestredig Penmaendewi ac Ynys Dewi. Mae'r ardal yn rhan o leoliad Tyddewi a'i heglwys gadeiriol. • Cynefinoedd arfordirol o bwysigrwydd rhyngwladol a rhostir, gwlyptiroedd a glaswelltiroedd llawr gwlad, rhai yn dod o dan ddynodiad AoDdGA. • Y golygfeydd allweddol yw'r rhai o Benmaendewi a Charn Llidi sy'n cynnig golygfeydd eiconig o forlun y penrhyn dros yr ardal gan gynnwys tuag at Ynys Dewi. Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro yn cynnig golygfeydd o fannau eraill megis drosodd tuag at Ynys Dewi, ac ar draws Y Porth Mawr a Bae Sain Ffraid. Mae golygfeydd hefyd yn bosibl o deithiau cychod gan gynnwys o'r Porth Mawr, Porthstinian, Solfach ac o gaiacau. • Teimlad gwyllt, tawel ac anghysbell mewn rhai lleoliadau ar hyd yr arfordir. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion hanesyddol a chadwraeth natur y soniwyd amdanynt uchod.				
Datblygiadau yn yr ardal	Mae yna nifer o safleoedd carafanau statig a chymysg ar raddfa fawr a chanolig ar neu'n agos at yr arfordir ac yn fewndirol. Mae yna hefyd feysydd gwersylla tymhorol gyda phebyll mewn mannau. Mae'r crynodiad yn lleihau wrth symud o'r arfordir. Nid yw'n glir a yw'r holl safleoedd bach yn rhai swyddogol.				

CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti / Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Mae'r ardal yn agos iawn at ei chapasiti gan fod yr arfordir o ansawdd golygfaol uchel iawn ac mae'r safleoedd presennol eisoes yn wrthdynwyr mewn mannau, felly mae'r rhannau digyffwrdd sy'n weddill yn arbennig o werthfawr. Mae'r safleoedd gwersylla ar arfordir y de yn arbennig o amlwg o Fae Sain Ffraid ac o Lwybr Arfordir Sir Benfro. Hefyd mae Carn Llidi yn edrych dros yr ardal tua'r gogledd ac mae'n rhan o leoliad Tyddewi a'i heglwys gadeiriol. Mae'r ardal yn dod o dan ddynodiad tirwedd hanesyddol Cofrestredig.				
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Ar y cyfan, nid oes unrhyw gapasiti ar gyfer safleoedd newydd oherwydd dwysedd presennol y safleoedd ar wahân i safleoedd tymhorol bach tua gogledd-ddwyrain yr ardal, ond nid ger Carn Llidi.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Nid oes unrhyw gapasiti ar gyfer ymestyn safleoedd presennol oherwydd yr effaith ar y dirwedd sydd ganddynt eisoes ac eithrio safleoedd tymhorol bach tua gogledd-ddwyrain yr ardal, ond nid ger Carn Llidi.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Yn gyffredinol, nid oes unrhyw gyfiawnhad dros ymestyn safleoedd presennol gan y byddai hyn ond yn cynyddu lledaeniad yr effeithiau.				
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Mae potensial ar gyfer rhai gwelliannau. Gellir ystyried podiau neu bebyll glampio yn lle carafanau statig lle gellir dangos gwelliannau yn y gosodiad yn unol â chanllawiau'r ddogfen hon a gostyngiad yn yr effaith weledol.				
CANLLAWIAU					
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	Dd/B				
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	1. Lleihau dwysedd datblygiadau carafanau statig gan greu mannau gwyrdd gyda phlannu coed brodorol rhwng carafanau. 2. Osgoi gosod carafanau statig yn y nenlinell, yn enwedig lleoliadau sy'n edrych dros yr arfordir - dylid eu gosod ymhellach yn ôl, os yn bosibl. 3. Osgoi gosod carafanau statig yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i glustogi effeithiau. 4. Cyfyngu carafanau statig a theithiol i ymylon caeau. 5. Cyfyngu unedau i ymyl caeau yn enwedig ger yr arfordir. 6. Mewn lleoliadau/caeau mwy amlwg a'r rhai sy'n union ger yr arfordir, ystyried cael gwared ar unedau statig a defnyddio'r gofod ar gyfer amwynder e.e. hamdden gofod agored, chwarae, cerdded cŵn. 7. Mewn lleoliadau/caeau mwy amlwg a'r rhai sy'n union ger yr arfordir, ystyried cael gwared ar unedau statig a defnyddio'r gofod ar gyfer unedau sy'n cael llai o effaith, pebyll tymhorol, iwrtau neu bebyll saffari yn ddelfrydol. 8. Newid lliw carafanau i arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, er mwyn lleihau'r effaith weledol. Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda trwy blannu rhyngddynt.				

	9. Cynnal neu newid goleuo i oleuadau sy'n wynebu i lawr ac o lefel isel ac yn y mannau y mae eu hangen yn unig. 10. Gwella golwg cyfleusterau safle e.e. er mwyn ymdebygu i adeiladau fferm wledig, a lliniaru'r effaith gyda phlannu lle bo hynny'n briodol. 11. Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau caeau gan gynnwys cloddiau traddodiadol, gwrychoedd a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. 12. Cynyddu plannu coed a llwyni brodorol o fewn safleoedd er mwyn rhannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol. 13. Rhoi gwrychoedd neu gloddiau brodorol yn lle ffensys. 14. Gwarchod plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos iddynt er mwyn cynnal a gwella sgrinio. 15. Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cadw cloddiau traddodiadol, cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau eraill ac ati. 16. Gwella mynedfeydd safleoedd i roi cymeriad gwledig, gan ddefnyddio cynlluniau gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cymeriad cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac arwynebeddau caled sy'n rhy fawr.


LCA 18 St Davids Headland/ANT 18 Pentir Tyddewi
LCA 20 / ANT 20
SCA 13/ACM 13
SCA 15/ACM 15
LCA 16 / ANT 16
SCA 19/ACM 19
LCA 15 / ANT 15
SCA 16/ACM 16
LCA 18 / ANT 18
LCA 17 / ANT 17
LCA 14 / ANT 14
SCA 17/ACM 17
Ramsey Sound
SCA 20/ACM 20
SCA 24/ACM 24
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd **ACT 19: Ynys Dewi**

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 17: Swnt Dewi

ACM 18: Dyfroedd arfordirol Ynys Dewi

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd uchel iawn yr ardal yn seiliedig ar gymeriad ac arfordir ysblennydd a digyffwrdd yr ynys gyda bryniau agored, cymeriad agored, tirwedd hanesyddol gofrestredig, statws fel Gwarchodfa Natur Genedlaethol, natur anghysbell a gwyllt gyda golygfeydd panoramig gwych i'r ynys ac oddi yno.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Ynys ysblennydd gyda thirffurf amlycaf Carn Llundain yn ffurfio tirnod o bwys a'r Ynys arwyddocaol fwyaf gorllewinol yn Sir Benfro. • Ynys ddigyffwrdd ac heb ei difetha gydag arfordiroedd creigiog a glannau creigiog garw, clogwyni a nodweddion tirnodol gyda llystyfiant lled-naturiol yn ymestyn i mewn i'r tir mewn mannau. • Cymeriad a phatrwm hanesyddol hen waliau caeau cerrig gyda glaswelltir a llystyfiant lled-naturiol yn frith o frigiadau creigiog ond heb orchudd coed na llwyni. • Mae'r ynys wedi'i chynnwys yn Nhirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Gofrestredig Penmaendewi ac Ynys Dewi. • Mae'r ynys yn Warchodfa Natur Genedlaethol ac o dan ddynodiad SoDdGA. Dynodir y clogwyni, y rhostir arfordirol cysylltiedig a'r glaswelltir yn Ardal Warchodaeth Arbennig Ynys Dewi a Phenrhyn Dewi, ac maent hefyd yn Ardal Adar Bwysig ac yn warchodfa natur a reolir gan RSPB. • Mynediad cyfyngedig iawn i ymwelwyr. • Ymdeimlad treiddiol o fod yn agored i'r elfennau, ar wahân, yn anghysbell, yn llonydd ac yn wyllt - hynny'n cael ei gadarnhau gan gerrynt llanw cryf Swnt Dewi sydd rhwng yr ynys a'r tir mawr. • Rhyngweledded cryf gyda'r môr ar bob ochr gyda golygfeydd môr panoramig tuag at yr ynys ac oddi yno, o deithiau cychod poblogaidd Ynys Dewi ac o'r arfordir a Llwybr Arfordir Sir Benfro. • Mae gwerth yr ynys yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion hanesyddol a chadwraeth natur y soniwyd amdanynt uchod.				
Datblygiadau yn yr ardal	Nid oes unrhyw safleoedd gwersylla na charafanau ar yr ynysoedd.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti / Yn llawn**
Crynodeb o'r	Nid oes unrhyw gapasiti ar yr ynys oherwydd ei sensitifrwydd uchel ar gyfer pob categori				

capasiti	datblygu a'i chymeriad agored, digyffwrdd fel ynys.
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Nid oes capasiti ar gyfer unrhyw safleoedd.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Dd/B
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Dd/B
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Dd/B
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	Dd/B
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	Dd/B


N
LCA 19 Ramsey Island/ANT 19 Ynys Dewi
LCA 19 / ANT 19
LCA 18 / ANT 18
SCA 17/ACM 17
SCA 18/ACM 18
SCA 19/ACM 19
SCA 20/ACM 20
SCA 28/ACM 28
Ramsey Island
The Bungalow
The Farmhouse
Ponthenllys
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd ACT 20: Trefin

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 11: Pen-caer i Benbwchdy

ACM 13: Penbwchdy i Benllechwen

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal yn seiliedig ar y glannau cilfachog sydd heb eu datblygu o gwbl bron, y llethrau hir sy'n wynebu'r môr, y patrwm caeau ar raddfa fach, y patrwm aneddiadau gwasgarog a'r tawelwch, y diddordeb hanesyddol ar hyd yr arfordir a thua'r gogledd a'r gorllewin, a'r golygfeydd arfordirol - yn arbennig o Garn Fawr a Charn Llidi.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Glannau cilfachog sydd heb eu datblygu o gwbl bron a chlogwyni gyda llystyfiant lled-naturiol gan gynnwys rhostir arfordirol. • Llethrau sy'n wynebu'r môr ger yr arfordir a llethrau serth endoredig y dyffrynnoedd. • Mae cymeriad agored llawer o'r dirwedd gyda chloddiau neu wrychoedd isel a waliau cerrig sych yn caniatáu golygfeydd hir ar hyd yr arfordir ac allan i'r môr. • Patrwm caeau ar raddfa fach iawn mewn mannau yn enwedig i'r gorllewin o Drefin. • Patrwm aneddiadau gwledig gwasgarog wedi'i gyfyngu i ffermydd ar y cyfan, gydag ychydig o bentrefi nodedig gan gynnwys Porthgain a Threfin gyda'u Hardaloedd Cadwraeth cysylltiedig. • Mae diddordeb hanesyddol yn cynnwys caerau pentir cynhanesyddol a threftadaeth ddiwydiannol yn enwedig rhwng Porthgain ac Abereiddi. Mae llawer o'r nodweddion yn henebion rhestredig. • Mae rhan fwyaf gorllewinol yr ardal a'r rhan fwyaf gogleddol o fewn Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol - Penmaendewi ac Ynys Dewi, a Phen Caer: Garn Fawr a Phen Strwmbwl yn y drefn honno. • Cynefinoedd arfordirol o bwysigrwydd rhyngwladol. • Mae llawer o'r arfordir yn dawel gyda mynediad cyfyngedig i gerbydau. • Y golygfeydd allweddol digyffwrdd yw'r rhai o Garn Fawr a Charn Llidi y tu allan i'r ardal ac o Lwybr Arfordir Sir Benfro gan gynnwys o amgylch lleoliadau poblogaidd fel Porthgain, Abereiddi, Trefin ac Abercastell. Mae golygfeydd yn bosib hefyd o gaiacau a chan forwyr hamdden achlysurol eraill. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion hanesyddol a chadwraeth natur y soniwyd amdanynt uchod.				
Datblygiadau yn yr ardal	Mae nifer fach o safleoedd bach/canolig gan gynnwys carafanau statig a chabanau i ffwrdd o'r arfordir gyda safle tymhorol mwy yn agos at yr arfordir. Mae'r datblygiadau'n tueddu i fod ymhellach i'r de/gorllewin yn hytrach nag i'r gogledd/dwyrain.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti / Yn llawn**

ychwanegol					
Crynodeb o'r capasiti	Prin iawn yw'r capasiti ar gyfer safleoedd newydd. Mae datblygiad newydd yn cael ei gyfyngu i safleoedd tymhorol bach/canolig mewn lleoliadau ar wahân i leihau'r effaith ar gymeriad y dirwedd. Mae potensial i wella yn enwedig i'r safle tymhorol mawr sy'n agos at yr arfordir.				
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Prin iawn yw'r capasiti ar gyfer safleoedd newydd. Mae datblygiad newydd yn cael ei gyfyngu i safleoedd tymhorol bach/canolig mewn lleoliadau ar wahân i leihau'r effaith ar gymeriad y dirwedd.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Nid yw'n ymddangos bod potensial i ymestyn safleoedd presennol heb gynyddu'r effaith ar gymeriad y dirwedd.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Nid oes unrhyw gapasiti i'w weld ar gyfer ymestyn safleoedd presennol gan y byddai hyn ond yn cynyddu lledaeniad yr effeithiau.				
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Mae potensial ar gyfer rhai gwelliannau.				
CANLLAWIAU					
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	1. Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurfiau, coed neu wrychoedd aeddfed o fewn ac wrth ymyl safle. 2. Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos. 3. Lleoli ar lwyfandir neu dir gwastad, ar yr amod eu bod wedi'u hamgáu. 4. Gosod unedau yn agos at ymylon ffurfiau sy'n amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu ofodau. 5. Cysylltu ag adeiladau fferm os yn bosibl, yn enwedig safleoedd bach. 6. Os lleolir mewn coetir, sicrhau bod rhywfaint o goetir yn cael ei warchod a bod strategaeth reoli ar waith i gynnal gorchudd coed rhwng unedau dros amser e.e. adfywio/ailblannu fesul cam. 7. Gosod ger datblygiadau modern. 8. Osgoi safleoedd neu warchodfeydd natur a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n lleol. 9. Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys rhostir arfordirol a choetir hynafol. 10. Osgoi lleoli unedau statig mewn neu yng ngolwg Ardaloedd Cadwraeth, henebion rhestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtilau.				
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	1. Osgoi gosod carafanau statig yn agos iawn at ffiniau neu ochrau ffyrdd fel y gall plannu helpu i glustogi effeithiau. 2. Cyfyngu carafanau statig a theithiol i ymylon caeau. 3. Cyfyngu unedau i ymylon caeau. 4. Newid lliw carafanau i arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, er mwyn lleihau'r effaith weledol. Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda trwy blannu rhyngddynt. 5. Cynnal neu newid goleuo i oleuadau sy'n wynebu i lawr ac o lefel isel ac yn y mannau y mae eu hangen yn unig. 6. Gwella golwg cyfleusterau safle e.e. er mwyn ymdebygu i adeiladau fferm wledig, a lliniaru'r effaith gyda phlannu lle bo hynny'n briodol. 7. Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau caeau gan gynnwys cloddiau traddodiadol, gwrychoedd a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. 8. Gwarchod plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos iddynt er mwyn cynnal				

	a gwella sgrinio. 9. Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati. 10. Gwella mynedfeydd safleoedd i roi cymeriad gwledig, gan ddefnyddio cynlluniau gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cymeriad cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac arwynebeddau caled sy'n rhy fawr.



Ardal Cymeriad Tirwedd ACT 21: Pen Caer / Pen Strwmbwl

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 10: Trwyn Crincoed a Phen-caer

ACM 11: Pen-caer i Benbwchdy

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae sensitifrwydd yr ardal yn seiliedig ar yr arfordir garw cilfachog sydd heb ei ddatblygu, y brigiadau creigiog a chymeriad nodedig, gwyllt, anghysbell ac agored yr ardal, y dirwedd hanesyddol gofrestredig gyda'i nodweddion hanesyddol cysylltiedig, a'r golygfeydd, yn arbennig o Garn Fawr a Llwybr Arfordir Sir Benfro.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Glannau garw cilfachog sydd heb eu datblygu a chlogwyni gyda llystyfiant lled-naturiol gan gynnwys rhostir arfordirol. • Brigiadau creigiog nodedig megis Garn Fawr a Garn Fechan a llethrau uchel sy'n wynebu'r môr ger yr arfordir. • Mosaig o ardaloedd lled-naturiol, patrwm caeau afreolaidd ar raddfa fach gyda chloddiau isel. • Patrwm aneddiadau gwledig gwasgarog wedi'i gyfyngu i ffermydd ar y cyfan, gydag ychydig o aneddiadau bach iawn gan gynnwys Llanwnda. • Mae'r diddordeb hanesyddol yn cynnwys caerau o'r Oes Haearn yn Garn Fawr a Garn Fechan a chaerau pentir cynhanesyddol sy'n henebion rhestredig. • Mae'r ardal gyfan o fewn Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Pen Caer: Garn Fawr a Phen Strwmbwl. • Cynefinoedd arfordirol o bwysigrwydd cenedlaethol ac ardaloedd lled-naturiol ar y tir uchel yn y mewndir. • Mae llawer o'r arfordir a'i gefnwlad yn teimlo'n wyllt, yn anghysbell ac yn agored a chyfyngedig yw'r mynediad i gerbydau. • Mae cymeriad agored a digysgod llawer o'r dirwedd yn caniatáu golygfeydd hir ar hyd yr arfordir ac allan i'r môr, gyda'r ardal yn hynod rhyngweladwy â'r môr. • Y golygfeydd digyffwrdd allweddol yw'r rhai o Garn Fawr, Pen Caer ac o Lwybr Arfordir Sir Benfro. Mae golygfeydd hefyd yn bosibl gan forwyr hamdden achlysurol. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion hanesyddol a chadwraeth natur y soniwyd amdanynt uchod.				
Datblygiadau yn yr ardal	Mae nifer fach iawn o safleoedd carafanau statig neu wersylla tymhorol ar raddfa fach. Nid yw'n glir a yw'r safleoedd gwersylla yn swyddogol.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti/ Yn llawn**

Crynodeb o'r capasiti	Capasiti cyfyngedig iawn sydd gan yr ardal oherwydd bod ganddi sensitifrwydd uchel neu uchel/canolig a byddai rhagor o safleoedd yn cael effaith andwyol ar gymeriad unigryw a hanesyddol yr ardal. Yr unig gyfleoedd posibl yw ar gyfer safleoedd gwersylla tymhorol bach, pebyll/iwrtau yn ddelfrydol, yn hytrach na charafanau. Dylai'r rhain osgoi'r ardaloedd lled-naturiol a'r tir uchel.
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Nid oes unrhyw gapasiti pellach ar gyfer rhagor o safleoedd statig ond gall fod potensial cyfyngedig ar gyfer nifer cyfyngedig o safleoedd tymhorol bach mewn lleoliadau cynnil i ffwrdd o'r arfordir, o Ben Caer ac o Garn Fawr, wedi'u cysylltu â ffermydd o bosib.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Nid oes unrhyw gapasiti pellach i ymestyn y safle sydd â chaniatâd oherwydd y lleoliad sensitif.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Dd/B. Nid oes unrhyw safleoedd carafanau statig yn yr ardal.
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Mae lle i wella'r patrwm gwersylla yn yr ardal, fel isod.
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	1. Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurfiau, coed neu wrychoedd aeddfed o fewn ac wrth ymyl safle. 2. Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos. 3. Lleoli ar lwyfandir neu dir gwastad, ar yr amod eu bod wedi'u hamgáu. 4. Gosod unedau yn agos at ymylon ffurfiau sy'n amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu ofodau. 5. Cysylltu ag adeiladau fferm os yn bosibl, yn enwedig safleoedd bach. 6. Osgoi safleoedd neu warchodfeydd natur a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n lleol. 7. Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys rhostir a choetir hynafol. 8. Osgoi lleoli unedau statig yn y dirwedd Hanesyddol Gofrestredig.
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	1. Osgoi gwersylla o fewn ardaloedd lled-naturiol ac ar gopaon bryniau a'r llethrau uchaf. 2. Cyfyngu unedau i ymylon caeau. 3. Gwarchod plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos iddynt er mwyn cynnal a gwella sgrinio. 4. Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati.


N
LCA 21 Pen Caer/Strumble Head/ANT 21 Pen Caer/Pen Strwmbwl
SCA 12/ACM 12
SCA 8/ACM 8
SCA 10/ACM 10
LCA 21 / ANT 21
SCA 11/ACM 11
LCA 20 / ANT 20
SCA 13/ACM 13
SCA 7/ACM
Pontiago
Llanwnda
Harmony
Trefasser
Rhosycaerau
WDIG / GOODWICK
Fishguard Harbour
Stop-and-Call
Fishguard and Goodwick
Goodwick Beach
Penyraber
ABERGWAUN / FISHGUARD
0
1 km

Ardal Cymeriad Tirwedd **ACT 22: Mynydd Carningli**

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 4: Bae Trefdraeth

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae'r gefnlen fryniog nodedig i'r arfordir gyda llethrau serth a nenlinell ddigyffwrdd a phresenoldeb rhostir agored heb ei amgáu, caeau afreolaidd ar raddfa fach ac ystod werthfawr iawn o nodweddion hanesyddol a chynefinoedd lled-naturiol pwysig yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad. Mae'r ardal hefyd yn weladwy iawn o Lwybr Arfordir Sir Benfro yn ogystal ag o Fryniau'r Preseli ac mae ganddi gymeriad anghysbell a gwyllt mewn mannau.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Bryniau nodedig gyda chymeriad yr ucheldir yn ffurfio cefnlen i'r arfordir. • Llethrau nodedig yn disgyn i'r môr a thua'r mewndir. • Rhyngweledigrwydd cryf gyda'r arfordir a'r môr tua'r gogledd a Bryniau'r Preseli tua'r de. • Creigffurfiau a charneddau nodedig ar y nenlinell ddigyffwrdd gyda naws cryf am le. • Rhostir agored ar gopaon bryniau a phatrymau caeau afreolaidd bach iawn yn enwedig tua'r gogledd a'r dwyrain. • Cloddiau neu wrychoedd wedi'u torri'n isel sy'n amgáu caeau ar y cyfan ac ynghyd â'r rhostir, mae hyn yn creu tirwedd gymharol agored. • Nodweddion hanesyddol a henebion rhestredig gan gynnwys caer Oes Haearn ar gopa Mynydd Carningli. Mae hanner gorllewinol yr ardal o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Gofrestredig Trefdraeth a Charningli. • Mae'r rhostir ar gopaon y bryniau yn dod o dan ddynodiad SoDdGA. • Y golygfeydd allweddol yw'r rhai o Lwybr Arfordir Sir Benfro gan gynnwys Pen Dinas a'r môr ym Mae Trefdraeth a Bae Abergwaun. Golygfeydd o Fryniau'r Preseli hefyd. • Mae'r cyfyngiadau ar fynediad a chymeriad hanesyddol yr ucheldir agored yn creu teimlad o dawelwch, ac o fod yn anghysbell a gwyllt. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion hanesyddol y soniwyd amdanynt uchod.				
Datblygiadau yn yr ardal	Dim i'w gweld.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti/ Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Capasiti cyfyngedig sydd gan yr ardal oherwydd bod ganddi sensitifrwydd uchel neu uchel/canolig ac nad oes unrhyw safleoedd presennol i'w gweld. Nid oes unrhyw gapasiti gan rostir agored yr ucheldir, y llethrau sy'n wynebu'r môr, y llethrau uchaf yn gyffredinol na'r ardal o fewn y dirwedd gofrestredig. Gall fod capasiti cyfyngedig iawn				

	ar gyfer safleoedd tymhorol bach mewn mannau eraill.
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Nid oes unrhyw gapasiti ar gyfer carafanau statig neu gabanau a chyfleoedd cyfyngedig iawn sydd ar gyfer meysydd pebyll tymhorol ar raddfa fach. Dim ond mewn lleoliadau gwastad wedi'u sgrinio'n dda i ffwrdd o'r arfordir ac ar lethrau is y byddai hynny'n dderbyniol, yn gysylltiedig â ffermydd o bosib.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Dd/B
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Dd/B
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Dd/B
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli	1. Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurfiau, coed neu wrychoedd aeddfed o fewn ac wrth ymyl safle. 2. Osgoi rhyngwelededd â Chwm Gwaun / nenlinell ochr y dyffryn. 3. Osgoi safleoedd natur a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n lleol. 4. Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys coetir hynafol. 5. Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos. 6. Gosod ar y tir mwyaf gwastad, ar yr amod eu bod wedi'u hamgáu. 7. Gosod unedau yn agos at ymylon ffurfiau sy'n amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu ofodau. 8. Cysylltu ag adeiladau fferm os yn bosibl, yn enwedig safleoedd bach. 9. Gosod ar borfa wedi'i gwella, tir âr neu dir llwyd. 10. Os lleolir mewn coetir, sicrhau bod rhywfaint o goetir yn cael ei warchod a bod strategaeth reoli ar waith i gynnal gorchudd coed rhwng unedau dros amser e.e. adfywio/ailblannu fesul cam.
Canllawiau lliniaru	Dd/B oherwydd nad oes unrhyw ddatblygiadau yn yr ardal.


N
LCA 22 Mynydd Carningli/ANT 22 Mynydd Carningli
SCA 5/ACM 5
SCA 6/ACM 6
SCA 4/ACM 4
LCA 24 / ANT 24
LCA 23 / ANT 23
LCA 25 / ANT 25
LCA 22 / ANT 22
LCA 26 / ANT 26
LCA 27 / ANT 27
TREFDRAETH / NEWPORT
Abergwaun / hguard Bay
Dinas Cross
Cwm Gwaun
Llanychaer
0
1 km
Mynydd Preseli /
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022594, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd ACT 23: Trefdraeth

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 4: Bae Trefdraeth

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae'r dref hanesyddol a'r ardaloedd cadwraeth, y twyni agored/cwrs golff a'r llethrau agored sy'n rhedeg i lawr i geg golygfaol yr aber, a'r olygfa agored ar lan y dŵr yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiad. Mae'r ardal hefyd yn weladwy iawn o Lwybr Arfordir Sir Benfro ac ar draws Bae Trefdraeth. Mae'r safle carafanau presennol yn gynnil iawn.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Llethrau agored yn rhedeg i lawr i Fae Trefdraeth ac aber yr afon. • Twyni a chwrs golff agored tua'r gogledd yn wynebu Bae Trefdraeth. • Anheddiad hanesyddol Trefdraeth a Pharrog a'u Hardaloedd Cadwraeth a'u lleoliadau gan gynnwys golygfeydd tua'r arfordir a'r môr a thuag atynt o'r mannau hynny. • Henebion rhestredig eraill a'u lleoliad gan gynnwys y cestyll, a'r eglwys hefyd. • Cydnabyddir arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol yr ardal trwy ei chynnwys yn Nhirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Gofrestredig Trefdraeth a Charningli. • Patrwm caeau afreolaidd ar raddfa fach mewn mannau. • Aber a glannau golygfaol Afon Nyfer a'r gefnwlad gysylltiedig gyda'i naws cryf am le. • Golygfeydd o Lwybr Arfordir Sir Benfro gan gynnwys golygfeydd digyffwrdd ar draws y bae. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion hanesyddol y soniwyd amdanynt uchod.				
Datblygiadau yn yr ardal	Mae'r safle carafanau statig presennol i'r gogledd o'r dref yn gynnil iawn ac mae o gymorth ei fod yn cadw datblygiadau i ffwrdd o lan y dŵr. Dylid cynnal hynny. Mae safleoedd gwersylla tymhorol i'r gorllewin o'r dref ar lethrau.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti / Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Mae'r ardal yn llawn oherwydd yr elfennau sensitifrwydd amrywiol, yn enwedig i ddatblygiadau carafanau statig, a gallai unrhyw ehangu pellach ar y maes carafanau statig effeithio ar gymeriad yr aber a chymeriad hanesyddol yr anheddiad. Mae'r meysydd gwersylla tymhorol presennol i'r gorllewin o'r dref eisoes o ddwysedd uchel ac mae gofod yn gymharol dynn yno. Byddai datblygiadau				

	pellach neu ddwysau'r datblygiadau yn newid cymeriad y caeau o borfa agored sy'n cyfrannu at olwg lleoliad yr aber, y dref a'r Bae. Nid oes unrhyw gapasiti ar y dirwedd arfordirol agored digysgod i'r gogledd o'r aber.
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Nid oes unrhyw gapasiti pellach ar gyfer carafanau statig na meysydd tymhorol.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Nid oes unrhyw gapasiti pellach ar gyfer estyniadau.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Nid oes unrhyw gapasiti ar gyfer ymestyn safleoedd presennol gan y byddai hyn ond yn cynyddu lledaeniad yr effeithiau.
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Gall fod potensial ar gyfer cynnydd bach mewn sgrinio gyda choed/llwyni brodorol mawr ar y meysydd gwersylla i'r gorllewin o Drefdraeth ond dylai hynny fod yn gydnaws â chymeriad y dirwedd gan ddefnyddio rhywogaethau brodorol sy'n goddef gwynt sydd i'w gweld yn yr ardal yn unig.
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	Dd/B gan na argymhellir unrhyw safleoedd pellach.
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	1. Cyfyngu carafanau teithiol a phebyll i ymyl caeau. 2. Newid lliw carafanau i arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, er mwyn lleihau'r effaith weledol. Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda trwy blannu rhyngddynt. 3. Cynnal neu newid goleuo i oleuadau sy'n wynebu i lawr ac o lefel isel ac yn y mannau y mae eu hangen yn unig. 4. Gwella golwg cyfleusterau safle e.e. er mwyn ymdebygu i adeiladau fferm wledig, a lliniaru'r effaith gyda phlannu lle bo hynny'n briodol. 5. Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau caeau gan gynnwys cloddiau traddodiadol, gwrychoedd a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. 6. Gwella mynedfeydd safleoedd i roi cymeriad gwledig, gan ddefnyddio cynlluniau gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cymeriad cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac arwynebeddau caled sy'n rhy fawr.


LCA 23 Newport/ANT 23 Trefdraeth
N
Wynston Farm
Dormay House
LCA 25 / ANT 25
Newport Sands
Bryncin
SCA 4/ACM 4
Parrog
LCA 23 / ANT 23
LCA 26 / ANT 26
West Dairies
LCA 24 / ANT 24
Cippin Stone
Feidr Brenin
Feidr Gano
Parrog Road
A487
Nant-Y-Gof
The Glen
Holm House
Gelli Olau
Golwg-Y-Mor
LCA 22 / ANT 22
Penfeidir
0
1 km
TREFDRAETH /

Ardal Cymeriad Tirwedd ACT 24: Pen Dinas

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 4: Bae Trefdraeth

ACM 5: Ynys Dinas

ACM 6: Dwyrain Bae Abergwaun

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae'r glannau cilfachog digyffwrdd sydd heb eu datblygu i raddau helaeth, llethrau sy'n wynebu'r môr ger yr arfordir, nodweddion o ddiddordeb hanesyddol, caeau afreolaidd ar raddfa fach, rhostir, tirnod amlwg Pen Dinas, gweledegd ar draws Bae Trefdraeth a Bae Abergwaun ac ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro yn cyfrannu at sensitifrwydd yr ardal. Mae yna ardaloedd sydd â chaeau mwy gyda gwrychoedd wedi tyfu'n uchel a gorchudd coed sydd â llai o ryngweledegd â'r arfordir.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Glannau cilfachog digyffwrdd ac annatblygedig i raddau helaeth a chlogwyni gyda llystyfiant lled-naturiol gan gynnwys rhedyn ar lethrau serth. • Mae ehangder Bae Trefdraeth yn golygu bod llawer o ryngweledegd ar hyd yr arfordir ac mae Pen Dinas yn arbennig o amlwg. • Llethrau sy'n wynebu'r môr ger yr arfordir a llethrau serth endoredig y dyffrynnoedd. • Brigiadau creigiog yma ac acw mewn llystyfiant lled-naturiol tua'r gorllewin. • Mae cymeriad agored rhannau o'r dirwedd gyda chloddiau isel yn caniatáu golygfeydd ar hyd yr arfordir ac allan i'r môr. • Patrwm caeau afreolaidd ar raddfa fach iawn mewn mannau. • Patrwm aneddiadau gwledig cymharol wasgarog wedi'i gyfyngu i ffermydd ar y cyfan, gyda rhai aneddiadau bach (ac anheddiad llinellol Dinas). • Mae'r diddordeb hanesyddol yn cynnwys Cwm yr Eglwys sydd ag eglwys a heneb restredig. • Mae rhan orllewinol yr ardal o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Gofrestredig Trefdraeth a Charningli. • Ardaloedd lled-naturiol gan gynnwys yr holl lannau ac mae coed ar lethrau serth y dyffryn endoredig. • Mae llawer o'r arfordir yn dawel gyda mynediad i gerbydau yn gyfyngedig, er bod eithriadau o ran mynediad. • Y golygfeydd allweddol yw'r rhai o Ben Dinas, ar draws Bae Trefdraeth, o Lwybr Arfordir Sir Benfro ac o Garningli a golygfan i'r de o Dinas y tu allan i'r ardal. Mae'r ardal hefyd yn cyfrannu at leoliad Harbwr Abergwaun. Mae golygfeydd yn bosib o gaiacau a chan forwyr hamdden achlysurol eraill. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion hanesyddol y soniwyd amdanynt uchod.				

Datblygiadau yn yr ardal	Mae safleoedd carafanau statig mawr wedi'u lleoli i'r gogledd-orllewin o Dinas ac ym Mae Abergwaun, ac yng Nghwm yr Eglwys. Mae safleoedd gwersylla tymhorol i'r gorllewin o Drefdraeth.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti / Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Capasiti cyfyngedig sydd gan yr ardal oherwydd y byddai datblygiadau pellach mewn safleoedd mwy agored neu ddigysgod yn effeithio ar gymeriad digyffwrdd ac annatblygedig ar y cyfan yr arfordir gyda'r potensial ar gyfer golygfeydd o Fae Trefdraeth a Bae Abergwaun. Mae yna ardaloedd i ffwrdd o'r glannau sy'n gymharol wastad ac sydd â gorchudd coed a gwrychoedd, a hefyd mewn dyffrynnoedd endoredig bach lle gall fod capasiti cyfyngedig				
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Gall fod cyfleoedd ar gyfer safleoedd bach sydd eisoes â gwrychoedd uchel ar dir mwy gwastad nad yw'n rhyngweladwy â'r môr a'r arfordir. Gall fod cyfleoedd hefyd mewn safleoedd coetir eilaidd ar gyfer datblygiadau bach iawn, wedi'u cynllunio'n ofalus. Fodd bynnag, dylid osgoi safleoedd ar neu ger Pen Dinas, Trefdraeth neu Lwybr Arfordir Sir Benfro, neu rai sy'n rhyngweladwy â nhw.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Gall fod cyfleoedd cyfyngedig iawn ar gyfer estyniadau i safleoedd mewndirol lle mae coetir, coed a gwrychoedd eisoes yn bodoli i sgrinio'r estyniadau ond nid i'r rhai ar yr arfordir.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Nid oes unrhyw sefyllfaoedd lle gallai fod budd o estyn safleoedd heb gynnydd mewn llety.				
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Byddai budd o wneud safleoedd ger y glannau yn fwy enciliol trwy amrywiol fesurau fel y rhai a grybwyllir yn y canllawiau isod.				
CANLLAWIAU					
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	1. Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurfiau, coed neu wrychoedd aeddfed o fewn ac wrth ymyl safle. 2. Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos. 3. Lleoli ar dir gwastad, ar yr amod eu bod wedi'u hamgáu. 4. Gosod unedau yn agos at ymylon ffurfiau sy'n amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu ofodau. 5. Cysylltu ag adeiladau fferm os yn bosibl, yn enwedig safleoedd bach. 6. Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys rhostir arfordirol a choetir hynafol. 7. Os lleolir mewn coetir, sicrhau bod rhywfaint o goetir yn cael ei warchod a bod strategaeth reoli ar waith i gynnal gorchudd coed rhwng unedau dros amser e.e. adfywio/ailblannu fesul cam. 8. Osgoi lleoli mewn ardaloedd sydd â golygfeydd allweddol megis i'r môr ac oddi yno, o Lwybr Arfordir Sir Benfro ac o ardaloedd sensitif o dir mynediad agored dynodedig.				
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	1. Lleihau dwysedd datblygiadau carafanau statig gan greu mannau gwyrdd gyda phlannu coed brodorol rhwng carafanau. 2. Osgoi gosod carafanau statig yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i glustogi effeithiau. 3. Cyfyngu carafanau statig a theithiol i ymylon caeau. 4. Ystyried gosod unedau statig mewn modd sy'n llai unionsyth gyda ffyrdd mynediad troellog a gofodau. 5. Mewn lleoliadau/caeau mwy amlwg a'r rhai sy'n union ger yr arfordir, ystyried cael gwared ar unedau statig a defnyddio'r gofod ar gyfer amwynder e.e. hamdden gofod agored, chwarae, cerdded cŵn. O fethu â gwneud hynny, defnyddio'r gofod				

	ar gyfer unedau sy'n cael llai o effaith, megis pebyll tymhorol, iwrtau neu bebyll saffari. 6. Mewn lleoliadau/caeau mwy amlwg a'r rhai sy'n union ger yr arfordir, ystyried cael gwared ar unedau statig a defnyddio'r gofod. 7. Newid lliw carafanau i arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, er mwyn lleihau'r effaith weledol. Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda trwy blannu rhyngddynt. 8. Cynnal neu newid goleuo i oleuadau sy'n wynebu i lawr ac o lefel isel ac yn y mannau y mae eu hangen yn unig. 9. Gwella golwg cyfleusterau safle e.e. er mwyn ymdebygu i adeiladau fferm wledig, a lliniaru'r effaith gyda phlannu lle bo hynny'n briodol. 10. Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau caeau gan gynnwys cloddiau traddodiadol, gwrychoedd a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. 11. Cynyddu plannu coed a llwyni brodorol o fewn safleoedd er mwyn rhannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol. 12. Gwarchod plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos iddynt er mwyn cynnal a gwella sgrinio. 13. Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr, coetiroedd a ffiniau caeau ac ati. 14. Gwella mynedfeydd safleoedd i roi cymeriad gwledig, gan ddefnyddio cynlluniau gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cymeriad cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac arwynebeddau caled sy'n rhy fawr.



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100021334, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd **ACT 25: Penrhyn Cemaes**

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 1: Aber y Teifi

ACM 2: Ynys Aberteifi i Ben Cemaes

ACM 3: Pen yr Afr i Ben y Bal

ACM 4: Bae Trefdraeth

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae'r glannau cilfachog digyffwrdd sydd heb eu datblygu, llethrau sy'n wynebu'r môr a'r nenlinell grom, y cymeriad agored, y patrwm aneddiadau gwasgarog a'r cymeriad anghysbell, nodweddion o ddiddordeb hanesyddol, golygfeydd ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro a'r rhyngwelededd gyda Bae Trefdraeth, Bryniau'r Preseli ac aber y Teifi yn cyfrannu at sensitifrwydd yr ardal.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Glannau cilfachog annatblygedig a chlogwyni gyda llystyfiant lled-naturiol. • Llethrau sy'n wynebu'r môr a chopaon a nenlinell crwn ger yr arfordir sy'n weladwy o'r môr ac o Fae Trefdraeth, Mynydd Carningli, Bryniau'r Preseli ac aber y Teifi. • Llethrau serth endoredig y dyffrynnoedd megis yn ardal Trewyddel. • Cymeriad amaethyddol agored, llawer o'r dirwedd sydd yn nannedd y gwynt gyda chloddiau isel yn caniatáu golygfeydd hir ar hyd yr arfordir ac allan i'r môr. • Patrwm caeau afreolaidd ar raddfa fach iawn mewn mannau. • Patrwm aneddiadau gwledig gwasgarog iawn wedi'i gyfyngu i ffermydd ar y cyfan, gydag ychydig o aneddiadau bach megis Trewyddel. • Mae'r diddordeb hanesyddol yn cynnwys Crugiau Cemaes gyda rhyngwelededd â Mynydd Carningli. • Mae rhan fwyaf gorllewinol yr ardal o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Cofrestredig Pen Isaf Dyffryn Teifi. • Ardaloedd lled-naturiol gan gynnwys y glannau sydd â rhannau helaeth yn SoDdGA. • Mae llawer o'r arfordir yn teimlo'n anghysbell a chyfyngedig yw'r mynediad i gerbydau. • Y golygfeydd digyffwrdd allweddol yw'r rhai o Lwybr Arfordir Sir Benfro gan gynnwys o Ben Cemaes, Trefdraeth a Thraeth Poppit, a hefyd o Fynydd Carningli a Bryniau'r Preseli y tu allan i'r ardal. Mae golygfeydd yn bosib hefyd o gaiacau a chan forwyr hamdden achlysurol eraill. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion hanesyddol a chadwraeth natur y soniwyd amdanynt uchod.				
Datblygiadau yn yr ardal	Safle carafanau statig i'r de o Draeth Poppit a safleoedd gwersylla tymhorol i'r gorllewin o Draeth Poppit.				

CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti / Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Capasiti cyfyngedig sydd gan yr ardal oherwydd ei bod i bob pwrpas heb ei datblygu ar hyd ei glannau a'r gefnwlad uniongyrchol sy'n agored a digysgod. Mae'r llethrau sy'n wynebu aber y Teifi hefyd yn sensitif ac mae ganddynt batrwm gorchudd tir mwy cymhleth. Mae'r llethrau sy'n wynebu i ffwrdd o'r arfordir yn rhyngweladwy gyda Bryniau'r Preseli. Byddai datblygiadau yn yr ardaloedd hyn yn effeithio ar y cymeriad sy'n ddigyffwrdd a heb ei ddatblygu gan mwyaf. Mae yna leoliadau mwy gwastad ymhellach o'r arfordir sy'n cael eu sgrinio gan dopograffeg mewn cymoedd neu'n cael eu sgrinio gan goed a gwrychoedd uchel (er bod gwrychoedd o'r fath yn gymharol brin) lle gallai fod capasiti cyfyngedig.				
Capasiti ar gyfer **safleoedd newydd**	Gall fod cyfleoedd ar gyfer safleoedd bach/canolig sydd eisoes â gwrychoedd uchel a choed ar dir mwy gwastad nad yw'n rhyngweladwy â'r môr a'r arfordir. Gall fod cyfleoedd hefyd mewn safleoedd sydd mewn neu wrth ymyl coetir eilaidd ar gyfer datblygiadau bach, wedi'u cynllunio'n ofalus iawn. Fodd bynnag, dylid osgoi safleoedd ar neu ger y glannau a'r nenlinell cysylltiedig, ar dir uchel ac ar neu'n weladwy o Lwybr Arfordir Sir Benfro neu'n weladwy o Fae Trefdraeth neu aber y Teifi.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Mae'n ymddangos bod potensial cyfyngedig i ymestyn safleoedd presennol heb ddod â nhw i'r golwg na chael effaith andwyol ar dderbynyddion sensitif.				
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Mae'r safle statig presennol â lefel dwysedd uchel iawn ond nid yw'n amlwg yn y dirwedd ehangach. Mae mwy o fudd i'w gael trwy gynnal y gweledegd cyfyngedig hwn nag o ymestyn y safle i wella'r cynllun mewnol.				
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Pe bai nifer y carafanau yn y safle statig yn cael eu lleihau, byddai'n gwella ei gymeriad. Ar gyfer safleoedd eraill byddai sefydlu gwrychoedd a choed yn lle ffensys yn cynorthwyo i integreiddio'r safleoedd. Gweler y canllawiau isod.				
CANLLAWIAU					
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	1. Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurfiau, coed neu wrychoedd aeddfed o fewn ac wrth ymyl safle. 2. Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos. 3. Gosod ar y tir mwyaf gwastad, ar yr amod eu bod wedi'u hamgáu. 4. Gosod unedau yn agos at ymylon ffurfiau sy'n amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu ofodau. 5. Cysylltu ag adeiladau fferm os yn bosibl, yn enwedig safleoedd bach. 6. Osgoi safleoedd neu warchodfeydd natur a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n lleol. 7. Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys rhostir arfordirol, twyni tywod a choetir hynafol. 8. Os lleolir mewn coetir, sicrhau bod rhywfaint o goetir yn cael ei warchod a bod strategaeth reoli ar waith i gynnal gorchudd coed rhwng unedau dros amser e.e. adfywio/ailblannu fesul cam.				
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	1. Cyfyngu unedau i ymylon caeau. 2. Newid lliw carafanau i arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, er mwyn lleihau'r effaith weledol. Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n				

	dda trwy blannu rhyngddynt. 3. Cynnal neu newid goleuo i oleuadau sy'n wynebu i lawr ac o lefel isel ac yn y mannau y mae eu hangen yn unig. 4. Gwella golwg cyfleusterau safle e.e. er mwyn ymdebygu i adeiladau fferm wledig, a lliniaru'r effaith gyda phlannu lle bo hynny'n briodol. 5. Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau caeau gan gynnwys cloddiau traddodiadol, gwrychoedd a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. 6. Cynyddu plannu coed a llwyni brodorol o fewn safleoedd er mwyn rhannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol. 7. Gwarchod plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos iddynt er mwyn cynnal a gwella sgrinio. 8. Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr, coetiroedd a ffiniau caeau ac ati. 9. Gwella mynedfeydd safleoedd i roi cymeriad gwledig, gan ddefnyddio cynlluniau gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cymeriad cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac arwynebeddau caled sy'n rhy fawr.


N
LCA 25 Cemaes Head/ANT 25 Penrhyn Cemaes
SCA 8/ACM 8
SCA 2/ACM 2
SCA 1/ACM 1
SCA 9/ACM 9
SCA 3/ACM 3
ABERTEIFI / CARDIGAN
LCA 25 / ANT 25
Bae Trefdraeth / Newport Bay
SCA 4/ACM 4
LCA 26 / ANT 26
TREFDRAETH / NEWPORT
LCA 22 / ANT 22
LCA 27 / ANT 27
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd **ACT 26: Cwm Gwaun / Afon Nyfer**

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 4: Bae Trefdraeth

ACM 7: Porthladdoedd Abergwaun

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae'r dyffrynnoedd tawel, cul gyda'u llethrau coediog serth a gwaelodion llinellol gwastad, cyrsiau dŵr troellog, yr aneddiadau traddodiadol gwasgarog, y nodweddion hanesyddol a diddordeb cadwraeth natur yn ei glaswelltir a'i choetir, oll yn cyfrannu at naws cryf am le ac at sensitifrwydd.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Llethrau coediog ac agored serth y dyffrynnoedd endoredig ar raddfa fach a gwaelodion dyffrynnoedd gwastad llinol a chul ar y cyfan gyda chyrsiau dŵr troellog. • Patrwm aneddiadau gwasgarog traddodiadol yng Nghwm Gwaun. • Mae gan Ddyffryn Nyfer fwy o aneddiadau a ffyrdd ond mae gan yr aneddiadau megis Nanhyfer gymeriad hanesyddol. • Caerau a chaeau o'r Oes Haearn ar frigiadau ar hyd y cymoedd a'u lleoliad - mae'r rhain yn henebion rhestredig. • Mae rhan ddwyreiniol Cwm Gwaun o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Gofrestredig y Preseli. • Mae diddordeb cadwraeth natur yn y glaswelltir a'r coetir yng Nghwm Gwaun ac mae Coedwig Pengelli hefyd yn SoDdGA ac yn Warchodfa Natur Genedlaethol. • Mae gan Gwm Gwaun gymeriad digyffwrdd a thawel diddos gyda naws cryf am le. Mae cymeriad tebyg i Ddyffryn Nyfer sydd i ffwrdd o'r A487. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion hanesyddol a chadwraeth natur y soniwyd amdanynt uchod.				
Datblygiadau yn yr ardal	Safle carafanau statig i'r dwyrain o Drefdraeth a dau safle gwersylla tymhorol bach yng nghymoedd Nyfer a Gwaun.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti/ Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Mae'r ardal yn llawn oherwydd y sensitifrwydd cyson uchel i ddatblygiadau ac mae llonyddwch a naws am le'r cymoedd hyn yn agored i newid gyda lloriau cul y dyffrynnoedd wedi'u hamgáu gan lethrau coediog serth sy'n gadael dim cyfleoedd i bob pwrpas ar gyfer safleoedd cynnil.				
Capasiti ar gyfer	Nid oes unrhyw gapasiti ar gyfer safleoedd newydd.				

safleoedd newydd	
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Nid oes unrhyw gapasiti ar gyfer estyn y safle statig sydd wedi'i amgáu'n dda - byddai ehangu pellach yn mynd y tu hwnt i'r llystyfiant amgáu hwnnw. Cyfyngedig iawn yw'r capasiti ar gyfer estyn y safleoedd carafanio a gwersylla presennol heb gynyddu gweledodd y safleoedd.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Mae'n ymddangos bod y safle statig wedi'i gynllunio'n dda gydag unedau sy'n cynnwys gofod ac yn gyfagos i ffiniau a choed sy'n sgrinio'r safle. Mae mwy o fudd i'w gael trwy gynnal y gweledodd cyfyngedig hwn nag o ymestyn y safle. Nid yw'r safleoedd tymhorol yn ddatblygiadau o ddwyster digonol i gyfiawnhau eu hestyn.
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Mae potensial cyfyngedig ar gyfer newid y safleoedd.
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	Dd/B
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	1. Gwarchod plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos iddynt er mwyn cynnal a gwella sgrinio. 2. Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr, coetiroedd a ffiniau caeau ac ati.


N
LCA 26 Cwm Gwaun/Afon Nyfer/ANT 26 Cwm Gwaun/Afon Nyfer
SCA 3/ACM 3
SCA 8/ACM 8
LCA 25 / ANT 25
SCA 5/ACM 5
Bae Trefdraeth / Newport Bay
LCA 23 / ANT 23
Bae Abergwaun / Fishguard Bay
SCA 6/ACM 6
SCA 4/ACM 4
LCA 24 / ANT 24
TREFDRAETH / NEWPORT
LCA 26 / ANT 26
LCA 22 / ANT 22
LCA 27 / ANT 27
Mynydd Preseli / Prescely Mountains
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd ACT 27: Mynydd Preseli

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig Dim

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae'r bryniau agored a digysgod gyda'u nenlinellau nodedig a chymeriad ucheldir sy'n ffurfio cefnlen weladwy iawn i'r tirweddau is o'u hamgylch, y rhostir a'r patrwm caeau ar raddfa fach, nodweddion hanesyddol, tirwedd hanesyddol a werthfawrogir yn genedlaethol, ardaloedd gwerthfawr ar gyfer cadwraeth natur, y golygfeydd panoramig o olygfannau allweddol ar y grib, a llonyddwch a chymeriad gwyllt y dirwedd oll yn cyfrannu at sensitifrwydd yr ardal.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol: mawr					
Tymhorol: canolig					
Tymhorol: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Bryniau gyda nenlinell nodedig a chymeriad ucheldir yn ffurfio cefnlen i'r arfordir ac i'r tirweddau is tua'r gogledd a'r de. • Rhyngwelededd cryf gyda Mynydd Carningli tua'r gogledd orllewin. • Creigffurfiau nodedig yn y nenlinell. • Allgreigiau fel Mynydd Castlebythe gyda llethrau serth a chopaon agored. • Llystyfiant agored lled-naturiol gan gynnwys rhostir ar gopaon bryniau a'r llethrau uchaf, patrymau caeau afreolaidd bach iawn. • Cloddiau neu wrychoedd wedi'u torri'n isel sy'n amgáu caeau ar y cyfan ac ynghyd â'r rhostir, mae hyn yn creu tirwedd gymharol agored. • Patrwm caeau bach iawn mewn mannau. • Nodweddion hanesyddol a henebion rhestredig gan gynnwys caer Oes yr Haearn a charneddau . Mae mwyafrif yr ardal o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Gofrestredig Preseli. • Mae'r llystyfiant lled-naturiol ar y copaon yn dod o dan ddynodiad SoDdGA. • Ymhlith y golygfeydd allweddol mae golygfeydd panoramig o'r copaon a llwybr y grib ar Fryniau'r Preseli ac o amryw o leoliadau pellach megis o'r arfordir. • Mae cymeriad agored yr ucheldir yn creu teimlad o fod yn anghysbell ac yn wyllt. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei statws Parc Cenedlaethol a'r nodweddion hanesyddol a chadwraeth natur y soniwyd amdanynt uchod.				
Datblygiadau yn yr ardal	Safleoedd carafanau statig yn Rosebush ac i'r gogledd o Efailwen.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti / Yn llawn**
Crynodeb o'r	Nid oes unrhyw gapasiti ar lethrau agored a digysgod Bryniau'r Preseli eu hunain nac				

capasiti	ar fryniau cysylltiedig. Gall fod rhywfaint o gapasiti cyfyngedig ar gyfer safleoedd tymhorol bach ar lethrau is/lloriau dyffryn lle ceir gorchudd coed da, tir sydd wedi'i newid neu sy'n gysylltiedig â ffermydd neu aneddiadau.
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Dim ond safleoedd tymhorol bach mewn safleoedd gwastad wedi'u sgrinio'n dda, yn gysylltiedig ag anheddiad o bosibl, ac nad ydynt yn amlwg o lethrau'r Preseli.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Mae'n ymddangos mai cyfyngedig yw'r cyfleoedd i gynyddu'r safleoedd statig presennol heb eu gwneud yn fwy gweladwy yn y dirwedd ehangach.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Mae'n ymddangos bod y safleoedd statig presennol wedi'u gosod allan gyda charafanau o amgylch ffiniau caeau a chyda rhywfaint o ofod rhyngddynt, felly byddai unrhyw ehangu yn annhebygol iawn o wella'r effaith ar gymeriad y dirwedd.
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Mae potensial cyfyngedig i wella'r safleoedd presennol.
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	1. Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurfiau, coed neu wrychoedd aeddfed o fewn ac wrth ymyl safle. 2. Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos. 3. Lleoli ar dir gwastad, ar yr amod eu bod wedi'u hamgáu. 4. Gosod unedau yn agos at ymylon ffurfiau sy'n amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu ofodau. 5. Cysylltu ag adeiladau fferm os yn bosibl, yn enwedig safleoedd bach. 6. Gosod ar borfa wedi'i gwella neu ar dir llwyd. 7. Os lleolir mewn coetir, sicrhau bod rhywfaint o goetir yn cael ei warchod a bod strategaeth reoli ar waith i gynnal gorchudd coed rhwng unedau dros amser e.e. adfywio/ailblannu fesul cam. 8. Gosod ger datblygiadau modern. 9. Osgoi safleoedd neu warchodfeydd natur a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n lleol. 10. Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys coetir hynafol.
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	1. Newid lliw carafanau i arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, er mwyn lleihau'r effaith weledol. Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda trwy blannu rhyngddynt. 2. Cynnal neu newid goleuo i oleuadau sy'n wynebu i lawr ac o lefel isel ac yn y mannau y mae eu hangen yn unig. 3. Gwella golwg cyfleusterau safle e.e. er mwyn ymdebygu i adeiladau fferm wledig, a lliniaru'r effaith gyda phlannu lle bo hynny'n briodol. 4. Cynyddu plannu coed a llwyni brodorol o fewn safleoedd er mwyn rhannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol. 5. Gwarchod plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos iddynt er mwyn cynnal a gwella sgrinio. 6. Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati. 7. Gwella mynedfeydd safleoedd i roi cymeriad gwledig, gan ddefnyddio cynlluniau gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cymeriad cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau

	llachar ac arwynebeddau caled sy'n rhy fawr.


N
LCA 27 Mynydd Preseli/ANT 27 Mynydd Preseli
SCA 5/ACM 5
6/ACM 6
LCA 24 / ANT 24
SCA 4/ACM 4
LCA 23 / ANT 23
LCA 25 / ANT 25
LCA 26 / ANT 26
LCA 22 / ANT 22
LCA 27 / ANT 27
Mynydd Preseli / Preseli y Mountains
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022594, 2020

Ardal Cymeriad Tirwedd ACT 28: Daugleddau

Ardaloedd Cymeriad Morlun Cysylltiedig ACM 33: Daugleddau

SENSITIFRWYDD					
Crynodeb o sensitifrwydd	Mae cymeriad hynod nodedig y ria a foddwyd gyda'i golygfeydd hardd wedi'u fframio, llethrau coediog a phorfaog y dyffrynnoedd, yr aneddiadau gwasgarog a'u nodweddion tirnodol, y dirwedd hanesyddol sydd o werth cenedlaethol, y cynefinoedd gwerthfawr, y llonyddwch gyda'r cyfyngiadau ar fynediad a golygfeydd o Lwybr y Landsker oll yn cyfrannu at sensitifrwydd yr ardal.				
Sensitifrwydd i fathau o ddatblygiadau	**Isel**	**Canolig/isel**	**Canolig**	**Uchel/canolig**	**Uchel**
Statig: mawr					
Statig: canolig					
Statig: bach					
Tymhorol/ dros dro: mawr					
Tymhorol/ dros dro: canolig					
Tymhorol/ dros dro: bach					
Elfennau sensitifrwydd allweddol	Mae'r nodweddion canlynol yn gwneud yr ardal yn sensitif i ddatblygiadau: • Ria troellog hynod nodedig gyda nifer o gilfachau yn creu golygfeydd hyfryd mewn ffrâm. • Mae'r aber llanw a glannau'r dŵr yn arbennig o sensitif yn ogystal â'r llethrau dyffrynnoedd coediog a phorfaog sy'n gefnlen. • Aneddiadau gwasgarog ar y glannau, yn bennaf o gymeriad hanesyddol gyda cheiau a glanfeydd. • Melin llanw unigryw yng Nghaeriw a'r Castell cysylltiedig a henebion rhestredig eraill ar hyd glannau'r dŵr yn ogystal ag i fyny'r llethrau. • Mae'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r ACT yn rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol cofrestredig Dyfrffordd Aberdaugleddau yn dangos gwerth hanesyddol a diwylliannol arwyddocaol gan gynnwys crynhoad dwys iawn o olion yn rhychwantu cyfnodau cynhanesyddol i gyfnodau modern. • Tirwedd dawel, ddiddos gyda mynediad wedi'i gyfyngu mewn mannau. • Cynefinoedd a rhywogaethau aberol o werth cenedlaethol yn ogystal â choetir. • Ymhlith y golygfeydd allweddol mae'r rhai o Lwybr y Landsker, Ffordd y Marchog, Caeriw, Lawrenni a Chei Cresswell yn ogystal â chan ddefnyddwyr hamdden y corff dŵr ei hun. • Mae gwerth yr ardal yn seiliedig ar ei lleoliad yn y Parc Cenedlaethol, ei harwyddocâd hanesyddol a thrwy ei gwerth o ran cadwraeth natur.				
Datblygiadau yn yr ardal	Pentref gwyliau Bluestone gyda'i gabanau, cabanau a charafanau statig yng Nghei Lawrenni, amryw o safleoedd carafanau a gwersylla llai.				
CAPASITI					
Capasiti'r ACT ar gyfer datblygiadau neu ddatblygu/unedau ychwanegol	**Sylweddol**	**Sylweddol/ cymedrol**	**Cymedrol**	**Cyfyngedig**	**Dim capasiti/ Yn llawn**
Crynodeb o'r capasiti	Capasiti cyfyngedig sydd gan yr ardal oherwydd ei sensitifrwydd uchel neu uchel/canolig ac ansawdd golygfaol uchel y corff dŵr a'r llethrau cyfagos. Byddai datblygu yn yr ardaloedd hyn yn effeithio ar yr rhinwedd hwn a chymeriad craidd yr ardal. Gall fod ardaloedd nad ydynt yn rhyngweladwy gyda'r dŵr a'r glannau neu'r llwybrau, sy'n cael eu sgrinio gan goed a				

	gwrychoedd uchel lle gall fod capasiti cyfyngedig ar gyfer datblygiadau tymhorol ar raddfa fach.
Capasiti ar gyfer safleoedd newydd	Nid oes unrhyw gapasiti ar hyd y glannau nac o fewn yr olygfa a rennir o'r ria neu'r llwybrau. Gall fod capasiti cyfyngedig iawn ar gyfer safleoedd bach/canolig ar safleoedd gwastad wedi'u sgrinio'n dda gan wrychoedd a choetir.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (cynyddu llety)	Cyfyngedig iawn yw'r cyfle i estyn safleoedd presennol heb gynyddu gweledegd na chael gwared ar goetir. Byddai unrhyw ehangu yn debygol o gynyddu'r effaith ar y dirwedd.
Capasiti ar gyfer estyniadau i safleoedd presennol (i wella safleoedd heb gynyddu llety)	Cyfyngedig iawn yw'r cyfle i estyn safleoedd presennol heb gynyddu gweledegd na chael gwared ar goetir. Byddai unrhyw ehangu yn debygol o gynyddu'r effaith ar gymeriad y dirwedd a chyfyngedig fyddai'r buddion ar y safle.
Capasiti ar gyfer newid o fewn safleoedd presennol	Mae lle i wella ar y prif safle presennol (gweler y canllawiau isod).
CANLLAWIAU	
Canllawiau lleoli sy'n benodol i'r ACT	1. Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurfiau, coed neu wrychoedd aeddfed o fewn ac wrth ymyl safle. 2. Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos. 3. Lleoli ar lwyfandir neu dir gwastad, ar yr amod eu bod wedi'u hamgáu. 4. Gosod unedau yn agos at ymylon ffurfiau sy'n amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu ofodau. 5. Cysylltu ag adeiladau fferm os yn bosibl, yn enwedig safleoedd bach. 6. Gosod ar borfa wedi'i gwella, tir âr neu dir llwyd. 7. Os lleolir mewn coetir, sicrhau bod rhywfaint o goetir yn cael ei warchod a bod strategaeth reoli ar waith i gynnal gorchudd coed rhwng unedau dros amser e.e. adfywio/ailblannu fesul cam. 8. Gosod ger datblygiadau modern. 9. Osgoi safleoedd neu warchodfeydd natur a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n lleol. 10. Osgoi porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys coetir hynafol. 11. Osgoi lleoli unedau statig mewn neu yng ngolwg Ardaloedd Cadwraeth, Parciau a Gerddi Cofrestredig, henebion rhestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtilau. 12. Osgoi lleoli unedau statig mewn tirweddau Hanesyddol Cofrestredig lle bo hynny'n bosib.
Canllawiau lliniaru sy'n benodol i'r ACT	1. Lleihau dwysedd datblygiadau carafanau statig gan greu mannau gwyrdd gyda phlannu coed brodorol rhwng carafanau. 2. Osgoi gosod carafanau statig yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i glustogi effeithiau. 3. Cyfyngu carafanau statig a theithiol i ymylon caeau. 4. Cyfyngu unedau i ymylon caeau. 5. Newid lliw carafanau i arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, er mwyn lleihau'r effaith weledol. Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda trwy blannu rhyngddynt. 6. Cynnal neu newid goleuo i oleuadau sy'n wynebu i lawr ac o lefel isel ac yn y mannau y mae eu hangen yn unig. 7. Gwella golwg cyfleusterau safle e.e. er mwyn ymdebygu i adeiladau fferm wledig, a lliniaru'r effaith gyda phlannu lle bo hynny'n briodol. 8. Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau caeau gan gynnwys cloddiau traddodiadol, gwrychoedd a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd. 9. Rhoi gwrychoedd brodorol yn lle ffensys ar ffiniau safleoedd. 10. Cynyddu plannu coed a llwyni brodorol o fewn y safleoedd carafanau a chalets er mwyn rhannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol. 11. Gwarchod plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos iddynt er mwyn cynnal a gwella sgrinio. 12. Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati. 13. Gwella mynedfeydd safleoedd i roi cymeriad gwledig, gan ddefnyddio cynlluniau gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cymeriad cynhenid, osgoi

	arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac arwynebeddau caled sy'n rhy fawr.


LCA 28 Daugleddau/ANT 28 Daugleddau
LCA 28 / ANT 28
SCA 33/ACM 33
SCA 32/ACM 32
LCA 4 / ANT 4
SCA 38/ACM 38
0
1 km
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022834, 2020

6. Canllawiau Lleoli, Lliniaru a Gwella Cyffredinol

Noder: Dylid darllen y canllawiau lleoli ar y cyd â'r argymhellion a'r arweiniad ar gyfer pob ardal unigol o dirwedd. Mae'r olaf yn cael y flaenoriaeth.

Canllawiau lleoli
Wrth leoli unedau, osgoi'r canlynol: 1. Ardaloedd tawel, heb eu datblygu 2. Ynysoedd 3. Glan y môr 4. Llethrau arfordirol sydd fwyaf rhyngweladwy gyda'r môr. 5. Safleoedd amlwg. 6. Nenlinellau, yn enwedig os ydynt yn weladwy o lan y môr. 7. Erydu bylchau rhwng aneddiadau a datblygiadau eraill. 8. Safleoedd neu warchodfeydd natur a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n lleol. 9. Porfa heb ei gwella a chynefinoedd lled-naturiol gan gynnwys rhostir arfordirol, twyni tywod a choetir hynafol. 10. Lleoli unedau statig mewn neu yng ngolwg Ardaloedd Cadwraeth, Parciau a Gerddi Cofrestredig, henebion rhestredig ac adeiladau rhestredig a'u cwrtilau. 11. Lleoli unedau statig mewn tirweddau Hanesyddol Cofrestredig lle bo hynny'n bosib. 12. Lleoli mewn ardaloedd sydd â golygfeydd allweddol megis i'r môr ac oddi yno, o Lwybr Arfordir Sir Benfro a llwybrau hir eraill ac o ardaloedd sensitif o dir mynediad agored dynodedig. 13. Lleoli mewn tirweddau neu forluniau nodedig a'r rhai sydd â naws cryf am le. Os yw'r cynnig yn cwrdd â'r meini prawf uchod, mae'r gofynion lleoli manylach canlynol yn berthnasol: 1. Gosod mewn ardaloedd sydd wedi'u hamgáu gan dirffurfiau, coed neu wrychoedd aeddfed o fewn ac wrth ymyl safle. 2. Gosod o fewn ffiniau caeau, heb orlifo i gaeau cyfagos. 3. Lleoli ar lwyfandir neu dir gwastad, ar yr amod eu bod wedi'u hamgáu. 4. Gosod unedau yn agos at ymylon ffurfiau sy'n amgáu megis ffiniau caeau neu goetir yn hytrach nag yng nghanol caeau neu ofodau. 5. Cysylltu ag adeiladau fferm os yn bosibl, yn enwedig safleoedd bach. 6. Gosod ar borfa wedi'i gwella, tir âr neu dir llwyd. 7. Os lleolir mewn coetir, sicrhau bod rhywfaint o goetir yn cael ei warchod a bod strategaeth reoli ar waith i gynnal gorchudd coed rhwng unedau dros amser e.e. adfywio/ailblannu fesul cam. 8. Gosod ger datblygiadau modern.

Canllawiau lliniaru a gwella
1. Dylai'r holl welliannau i'r dirwedd fod yn gydnaws â chymeriad yr ACT y maent wedi eu lleoli. Er enghraifft, nid yw coed a gwrychoedd uchel yn briodol mewn tirweddau agored sydd â chloddiau isel, nac mewn rhostir agored. 2. Lleihau dwysedd datblygiadau carafanau statig gan greu gofod gwyrdd gyda phlannu coed brodorol rhwng carafanau, yn enwedig lle mae carafanau neu gabanau yn 'pentyrru' ar lethrau. 3. Osgoi gosod carafanau statig yn agos iawn at ffiniau fel y gall plannu helpu i glustogi effeithiau. 4. Mewn egwyddor, cyfyngu carafanau statig, teithiol ac unedau 'caled' eraill i ymyl caeau, a phebyll i ymyl caeau mewn lleoliadau arfordirol amlwg. 5. Ystyried gosod unedau statig mewn modd sy'n llai unionsyth gyda ffyrdd mynediad troellog a gofodau. 6. Mewn lleoliadau/caeau mwy amlwg a'r rhai sy'n union ger yr arfordir, ystyried cael gwared ar unedau statig a defnyddio'r gofod ar gyfer amwynder e.e. hamdden gofod agored, chwarae, cerdded cŵn. 7. Mewn lleoliadau/caeau mwy amlwg a'r rhai sy'n union ger yr arfordir, ystyried cael gwared ar unedau statig a defnyddio'r gofod ar gyfer unedau sy'n cael llai o effaith, pebyll tymhorol, iwrtau neu bebyll saffari yn ddelfrydol. 8. Newid lliw carafanau i arlliwiau a thonau llai ymwthiol, e.e. gwyrdd golau, er mwyn lleihau'r effaith weledol. Osgoi toeau gwyn ac amrywiaeth o orffeniadau a lliwiau ar draws safleoedd oni bai eu bod wedi'u hintegreiddio'n dda trwy blannu rhyngddynt. 9. Cyfyngu ar faint deciau a'r rheiliau pren cysylltiedig ac osgoi deciau llydan ar dir sydd ar oledd er mwyn osgoi creu ardaloedd hyll oddi tanynt. 10. Ystyried plannu llwyni brodorol i feddalu golwg galed deciau. 11. Cynnal neu newid goleuo i oleuadau sy'n wynebu i lawr ac o lefel isel ac yn y mannau y mae eu hangen yn unig. 12. Rhoi paneli solar mewn lleoliadau cynnil, ar lefel isel yn ddelfrydol, er mwyn osgoi eu bod i'w

gweld o ardal eang.

13. Lle bo modd, gosod tyrbinau gwynt ar raddfa fach mewn modd sy'n golygu eu bod yn gysylltiedig yn weledol ac wedi'u hintegreiddio â'r adeilad/au y maent yn eu gwasanaethu.
14. Gwella golwg cyfleusterau safle e.e. er mwyn ymdebygu i adeiladau fferm wledig, a lliniaru'r effaith gyda phlannu lle bo hynny'n briodol.
15. Cynnal, adfer a gwella patrwm ffiniau caeau gan gynnwys cloddiau traddodiadol, gwrychoedd a choed i helpu i hidlo neu sgrinio golygfeydd i safleoedd.
16. Cynyddu plannu coed a llwyni brodorol o fewn safleoedd er mwyn rhannu'r datblygiad a lliniaru'r effaith weledol.
17. Rhoi gwrychoedd neu gloddiau brodorol yn lle ffensys.
18. Rhoi gwrychoedd brodorol yn lle gwrychoedd conwydd.
19. Rhoi coed brodorol collddail yn lle conwydd.
20. Gwarchod plannu coetiroedd mewn safleoedd ac yn gyfagos iddynt er mwyn cynnal a gwella sgrinio.
21. Gwella'r fioamrywiaeth o fewn safleoedd i wella cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt e.e. cynefinoedd lled-naturiol, cyrsiau dŵr a ffiniau caeau ac ati.
22. Gwella mynedfeydd safleoedd i roi cymeriad gwledig, gan ddefnyddio cynlluniau gwledig, deunyddiau a phlannu sy'n adlewyrchu'r cymeriad cynhenid, osgoi arwyddion mawr neu ymwthiol, goleuadau llachar, lliwiau llachar ac arwynebeddau caled sy'n rhy fawr.
23. Gwella mynediad teithio llesol o safleoedd i annog cysylltiadau â'r rhwydwaith llwybrau presennol a mannau o ddiddordeb wrth ddefnyddio manylion cynnil a phriodol o ran camfeydd a gatiau.

ATODIADAU

Atodiad A Geirfa a byrfoddau

Term	*Diffiniad*
Termau sy'n gysylltiedig â thirwedd	
Adfer	Atgyweirio neu adnewyddu.
Adnodd	Gweler Adnodd morlun/tirwedd.
Adnodd Tirwedd	Stoc gyffredinol y dirwedd a'i chydrannau. [Y dirwedd yn cael ei hystyried yn adnodd cyfyngedig mesuradwy fel unrhyw un arall e.e. mwynau, tir, dŵr.]
Agwedd	Yng Nghymru, mae agwedd yn gydran o'r wybodaeth LANDMAP sy'n cael ei chofnodi, ei threfnu a'i gwerthuso i greu set ddata ofodol sy'n gyson yn genedlaethol. Rhennir y wybodaeth am dirwedd yn bum agwedd - tirwedd ddaearegol, cynefinoedd tirwedd, gweledol a synhwyraidd, tirwedd hanesyddol a thirwedd ddiwylliannol.
Anghysbell	Disgrifiad o arwahanrwydd ar sail pellter, diffyg presenoldeb pobl, seilwaith (ffyrdd a rheilffyrdd, llwybrau fferi a llongau) ac aneddiadau
Amlwg	Pan fydd nodwedd dirnodol, patrwm neu wrthrych i'w gweld yn glir yn y dirwedd.
Amlycaf	Prif nodwedd dirnodol neu batrwm diffiniol.
Amrywiaeth	[O ran swyddogaeth ardal] Amrywiaeth o wahanol swyddogaethau ardal.
Amwynder (Plannu)	Plannu er mwyn darparu budd amgylcheddol fel plannu addurniadol neu i greu sgrin.
Aneddiadau	Pob preswylfa/trigfan, p'un ai ydynt yn unigol neu'n glystyredig mewn dinasoedd, trefi a phentrefi.
Annatod	Diffiniad geiriadur - 'yn bodoli fel rhan anwahanadwy'. Yng nghyd-destun sensitifrwydd, mae'n golygu sensitifrwydd y parth morlun/tirwedd ei hun gyda'i holl elfennau a nodweddion cydrannol yn hytrach na'i berthynas â pharthau cyfagos.
Ansawdd golygfaol	Morlun/tirwedd gyda golygfeydd o ansawdd hyfryd gydag elfennau pleserus yn esthetig yn eu cyfansoddiad.
Ardal agwedd	Ardaloedd a ddiffinnir ym mhob un o'r asesiadau agwedd LANDMAP sy'n annibynnol ar ei gilydd
Ardal Cymeriad Tirwedd [ACT]	Mae'r rhain yn ardaloedd unigol unigryw sy'n ardaloedd daearyddol pendant o gymeriad tirwedd penodol. Mae gan bob un ei chymeriad a'i hunaniaeth ei hun. Mae'r ardaloedd hyn yng Nghymru yn deillio yn bennaf o agweddau LANDMAP.
Arwyddocâd	Mewn asesiad effaith amgylcheddol - pwysigrwydd effaith. Mae angen ystyried effaith arwyddocaol wrth wneud penderfyniadau.
Ased treftadaeth.	Adeilad, heneb, safle, lle, ardal neu dirwedd wedi ei nodi'n bendant yn un sydd â rhywfaint o arwyddocâd hanesyddol sy'n haeddu ystyriaeth mewn penderfyniadau cynllunio. Mae asedau treftadaeth dynodedig yn cynnwys safleoedd treftadaeth y byd, henebion rhestredig, safleoedd llongddrylliadau gwarchodedig, meysydd brwydrau, adeiladau rhestredig a pharciau a gerddi cofrestredig.
Ased treftadaeth ddiwylliannol	Gweler Ased treftadaeth.
Asesiad o'r Effaith ar Dirwedd a'r Effaith Weledol (AEDEW)	Methodoleg sefydledig a ddefnyddir i asesu effaith y datblygiad neu newid defnydd arall ar dirwedd ac amwynder gweledol. Mae'n cynnwys dadansoddiad o'r effeithiau yn ystod cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r datblygiad, gan gynnwys unrhyw waith adfer neu ddefnydd diweddarach. (GLVIA 2002)

Asesu	Term sy'n disgrifio'r holl ffyrdd amrywiol o edrych ar, dadansoddi, gwerthuso a disgrifio'r morlun/tirwedd neu asesu effeithiau ar forlun/tirwedd a derbynyddion gweledol.
Bioamrywiaeth	Yr amrywiaeth o fywyd gan gynnwys yr holl gynefinoedd a rhywogaethau gwahanol yn y byd.
Brigiad	Y man lle mae craig benodol yn ymddangos ar yr wyneb.
Cadwraeth	Gwarchod a rheoli adnoddau naturiol ac adeiledig a'r amgylchedd yn ofalus.
Capasiti	Faint o newid y gall ACT ei gynnal heb newidiadau niweidiol i gymeriad neu nodweddion allweddol na chanlyniadau anaddas mewn perthynas â pholisïau tirwedd yn yr ardal.
Clawdd	Twmpath o bridd sy'n ffurfio ffin, yn gysylltiedig â gwrych weithiau, â wyneb o garreg mewn rhai ardaloedd.
Coetir Hynafol	Tir sydd wedi bod yn goediog yn barhaus ers 1600 OC. Mae'n adnodd ecolegol gwerthfawr dros ben, gydag amrywiaeth fawr o fflora a ffawna fel arfer.
Cyfander	Heb ei ddifetha gan ddatblygiadau ar raddfa fawr, sy'n ymwthiol yn weledol neu ddatblygiad anghydnaws arall
Cymeriad	Gweler cymeriad morlun neu cymeriad tirwedd.
Cymeriad Tirwedd	Patrwm pendant, adnabyddadwy a chyson o elfennau, nodweddion a rhinweddau yn y dirwedd sy'n gwneud un dirwedd yn wahanol i un arall, yn hytrach nag yn well neu'n waeth.
Cymhlethdod	[Yng nghyd-destun disgrifio nenlinell] Pa mor amrywiol neu gymhleth yw'r nenlinell - mae cwbl wastad gyda llystyfiant cyson ar un pen i'r raddfa a mynyddig gyda llystyfiant amrywiol ar y pen arall.
Cynhenid	Wedi'i adeiladu yn yr arddull leol, o ddeunyddiau lleol.
Cyson	Elfen neu batrwm cymharol ddigyfnewid ar draws ardal benodol o forlun/tirwedd.
Dadansoddi	Y broses o rannu'r morlun / tirwedd yn gydrannau er mwyn cael gwell dealltwriaeth ohono/ohoni.
Daeareg	Gwyddor sy'n ymwneud â tharddiad, strwythur, cyfansoddiad a hanes y Ddaear ynghyd â'r prosesau sydd wedi arwain at ei chyflwr presennol.
Derbynnydd, gweledol	Pobl mewn amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd sy'n gallu profi golygfeydd o fewn ardal ac a allai gael eu heffeithio gan newid neu ddatblygu. Gall derbynyddion gynnwys defnyddwyr llwybrau cyhoeddus, tir mynediad agored, ffyrdd, rheilffyrdd neu lwybrau beiciau neu drigolion trefol neu wledig.
Derbynnydd, morlun/tirwedd	Ardaloedd cymeriad morlun/tirwedd, dynodiadau, elfennau neu nodweddion tirnodol y gallai datblygu effeithio arnynt
Dosbarthu	Proses o rannu'r dirwedd yn ardaloedd o gymeriad amlwg, adnabyddadwy a chyson cyffredin a grwpio ardaloedd o gymeriad tebyg gyda'i gilydd. *
Effeithiau	Term a ddefnyddir mewn asesiad effaith amgylcheddol [AEA] - effeithiau yw'r newidiadau sy'n deillio o gyflawni, cynnal neu weithredu datblygiad arfaethedig.
Effeithiau cronnus	Naill ai newidiadau ychwanegol a achosir gan ddatblygiad arfaethedig ar y cyd â datblygiadau tebyg neu effaith gyfunol set o ddatblygiadau, gyda'i gilydd
Effeithiau Gweledol	Yr effeithiau gweledol tebygol ar bobl a fyddai'n deillio o gynnig datblygu neu newid yn y modd y caiff tir ei reoli.
Effeithiau,	Lle bydd datblygiad o fewn morlun/tirwedd ac yn cael gwared ar elfen neu

uniongyrchol	nodwedd ffisegol e.e. creigiau, clogwyn, llystyfiant arfordirol
Effeithiau, anuniongyrchol	Effeithiau i ffwrdd o'r datblygiad megis newid canfyddedig i gymeriad neu trwy ddatblygiad cysylltiedig megis seilwaith trafnidiaeth
Elfennau	Cydrannau unigol sy'n ffurfio'r dirwedd, megis coed a gwrychoedd.*
Ffin Cae	Ymyl cae p'un ai yw'n ffens, yn wrych, yn glawdd, yn ffos neu'n wal.
Ffisiograffeg	Mynegiant siâp a strwythur wyneb y tir fel y mae natur y ddaeareg waelodol ac effaith prosesau geomorffolegol wedi dylanwadu arno.
Garddwriaeth	Math dwys o gnydio, megis llysiau neu ffrwythau.
Goddrychol	Dull asesu lle mae barn ac ymateb personol yn cael eu defnyddio yn y broses o bennu cymeriad.
Gorchudd tir	Cyfuniadau o elfennau naturiol ac o waith dyn gan gynnwys llystyfiant sy'n gorchuddio wyneb y tir.
Gwarchod	Cadw rhag niwed.
Gwern	Coetir mewn tir llawn dwr. Ymhlith y rhywogaethau nodweddiadol mae coed gwern, helyg a merhelyg.
Gwerth	Gweler Gwerth tirwedd
Gwerth tirwedd	Y gwerth neu'r pwysigrwydd cymharol sydd ynghlwm wrth wahanol dirweddau ac agweddau LANDMAP. Gall tirwedd gael ei werthfawrogi gan wahanol gymunedau buddiant am lawer o wahanol resymau. Gall hynny gynnwys harddwch golygfaol, llonyddwch, gwylltineb, cysylltiadau diwylliannol arbennig, presenoldeb elfennau o ddiddordeb cadwraethol, prinder neu fod consensws ynghylch pwysigrwydd, naill ai'n genedlaethol neu'n lleol. Dynodir rhai ardaloedd i fynegi eu gwerth. Priodolir gwerth hefyd i bob agwedd LANDMAP gan ddefnyddio amrywiaeth o feini prawf. Gellir cael syniad o ba werth a briodolir i ardal trwy arsylwi sut mae'n cael ei defnyddio hefyd - e.e. llwybr poblogaidd i olygfan ar fryn.
Gwrthrychol	Dull asesu lle nad yw teimladau a barn bersonol yn dylanwadu ar y broses o bennu cymeriad neu farn.
Gwrych	Ffens o lwyni neu goed isel, wedi ei osod ar glawdd weithiau.
Hynodrwydd	Gweler Naws am le
LANDMAP	LANDMAP yw'r system wybodaeth genedlaethol wedi'i seilio ar System Gwybodaeth Ddaearyddol (SGDd) ar gyfer Cymru, a ddyfeisiwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru gynt ac a gynhelir bellach gan Adnoddau Naturiol Cymru, ar gyfer ystyried y dirwedd wrth wneud penderfyniadau. Mae'n set ddata sy'n gyson yn genedlaethol wedi'i rhannu'n 5 agwedd - tirweddau daearegol, cynefinoedd tirwedd, gweledol a synhwyraidd, tirweddau hanesyddol a thirweddau diwylliannol.
Lleoliad, yn achos ased treftadaeth	Yr amgylchedd lle ceir profiad o'r ased. Nid yw ei faint yn sefydlog a gall newid wrth i'r ased a'r ardal o'i amgylch esblygu. Gall elfennau o leoliad wneud cyfraniad cadarnhaol neu negyddol at ased, gallant effeithio ar y gallu i werthfawrogi'r arwyddocâd hwnnw neu gall fod yn niwtral.
Llystyfiant lled-naturiol	Unrhyw fath o lystyfiant sydd wedi cael ei ddylanwadu gan weithgareddau dynol, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'r term yn cael ei ddefnyddio fel arfer ar gyfer ardaloedd sy'n dychwelyd i natur oherwydd diffyg rheolaeth.
Maint Caeau	Mawr: 2 hectar neu fwy. Canolig: tua 1.5 hectar. Bach: llai nag 1 hectar.
Maint yr effaith	I ba raddau mae newid
Math o Dir	Mynegiant o'r amgylchedd sy'n ffurfio'r pridd a'i ddylanwad ar batrwm y llystyfiant ar yr wyneb a defnydd tir.

Mosaig	Cymysgedd o wahanol orchuddion tir mewn graen mân megis coetir, porfa a rhostir.
Naws am Le	Cymeriad lle sy'n ei wneud yn adnabyddadwy yn lleol neu'n unigryw h.y. yn wahanol i leoedd eraill. Gall rhai nodweddion tirnodol neu elfennau ennyn naws cryf am le e.e. ynysoedd, caerau, pensaernïaeth gynhenid
Nodweddion (cymeriadol)	Elfennau, arweddau a rhinweddau sy'n cyfrannu'n benodol at gymeriad unigryw. *
Nodweddion (tirnodol)	Elfennau arbennig o amlwg neu drawiadol, fel clystyrau coed, tyrau eglwys, neu nenlinellau coediog.*
Nodweddion allweddol	Y cyfuniadau o elfennau a nodweddion tirnodol sy'n arbennig o bwysig i gymeriad presennol y dirwedd ac yn helpu i roi ei naws arbennig am le i ardal.
Patrwm aneddiadau	Patrwm amlycaf aneddiadau mewn ardal.
Patrwm diwylliannol	Mynegiad o batrwm hanesyddol amgáu ac aneddiadau gwledig.
Pennu cymeriad	Y broses o adnabod ardaloedd o gymeriad tebyg, eu dosbarthu a'u mapio a disgrifio eu cymeriad. *
Polygon	Ardal ddigidol benodol mewn system gwybodaeth ddaearyddol [SGDd].
Porfa	Tir o orchudd glaswellt naill ai'n cael ei bori gan anifeiliaid neu i'w dorri.
Prysgoedio	Y dull traddodiadol o reoli coetir lle mae coed yn cael eu torri i lawr yn agos at y ddaear i annog cynhyrchu egin hir, syth y gellir eu cynaeafu.
Rhinweddau	Priodoleddau esthetig [patrymau gweladwy gwrthrychol] neu ganfyddiadol [ymatebion goddrychol gan asesydd y morlun/tirwedd] y morlun/tirwedd megis y rhai sy'n ymwneud â graddfa neu lonyddwch yn y drefn honno.
Sensitifrwydd	I ba raddau y gall ACT gynnal math a graddfa benodol o newid heb gael effaith andwyol ar ei chymeriad.
Sensitifrwydd gweledol	Mae sensitifrwydd gweledol neu 'weledegdd' yn fesur o'r graddau y mae newid yn debygol o achosi effaith weledol mewn morlun/tirwedd penodol.
Synhwyraidd	Yr hyn a dderbynnir trwy'r synhwyrau h.y. golwg, clyw, arogli, cyffwrdd.
Tir âr	Tir a ddefnyddir i dyfu cnydau heblaw rhywogaethau glaswellt neu goediog.
Tir Fferm Cymysg	Cyfuniad o dir ffermio âr a phorfa
Tirffurf	Cyfuniadau o lethrau ac uchder sy'n cyfuno i roi siâp a ffurf i'r tir.
Tirwedd	Ardal, fel y'i gwelir gan bobl, y mae ei chymeriad yn ganlyniad gweithredoedd a rhyngweithiadau ffactorau naturiol a/neu ddynol
Topograffi	Term a ddefnyddir i ddisgrifio nodweddion daearegol wyneb y Ddaear e.e. mynyddoedd, bryniau, dyffrynnoedd, gwastadeddau.
Torlannol	Llystyfiant sy'n gysylltiedig â chorff dŵr - afon neu nant fel arfer.
Traweffaith	Fe'i defnyddir fel rhan derm mwy, fel yn AEA neu AEDEW, i helpu i ddisgrifio'r broses o asesu effeithiau a allai fod yn arwyddocaol - gweler effeithiau.
Undod	Cysondeb patrwm dros ardal eang h.y. ailadrodd elfennau tebyg, cydbwysedd a chyfrannedd, graddfa ac amgáu.
Wedi'i wella [mewn perthynas â phriddoedd neu borfa]	Lle bydd gwrtaith wedi'i ychwanegu ac, yn achos porfa, ail-hadu â rhywogaethau glaswellt mwy cynhyrchiol.
Ymagwedd	Y broses gam wrth gam ar gyfer cynnal asesiad morlun/tirwedd.
Termau sy'n gysylltiedig â morlun	

Ansawdd y morlun	Cyflwr ffisegol y morlun. Mae'n cynnwys i ba raddau y mae cymeriad nodweddiadol yn cael ei gynrychioli mewn ardaloedd unigol - cyfeirir at hynny weithiau fel cryfder cymeriad, cyfanrwydd y morlun o safbwyntiau gweledol, swyddogaethol ac ecolegol a chyflwr elfennau unigol y morlun.
Ardaloedd cymeriad morlun	Mae'r rhain yn ardaloedd unigol unigryw sy'n ardaloedd daearyddol pendant o gymeriad morlun penodol. Mae gan bob un ei chymeriad a'i hunaniaeth ei hun. Gall yr ardaloedd hyn gynnwys nifer o fathau o forluniau.
Asesiad cymeriad morlun (ACM)	ACM yw'r broses o adnabod a disgrifio amrywiad yng nghymeriad y morlun, a defnyddio'r wybodaeth hon i gynorthwyo i reoli newid yn y morlun. Mae'n ceisio nodi ac esbonio'r cyfuniad unigryw o elfennau a nodweddion sy'n gwneud morlun yn nodedig.
Asesiad o'r Effaith ar Dirwedd a Morlun a'r Effaith Weledol (AEDMEW)	Methodoleg sefydledig a ddefnyddir i asesu effaith y datblygiad neu newid defnydd arall ar forlun, tirwedd ac amwynder gweledol. Mae'n cynnwys dadansoddiad o'r effeithiau yn ystod cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r datblygiad, gan gynnwys unrhyw waith adfer neu ddefnydd diweddarach.
Canllawiau morlun	Camau gweithredu sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod cymeriad morlun unigryw yn cael ei gynnal, ei wella neu os yw hynny'n briodol, ei newid trwy greu cymeriad newydd.
Canfyddiad	Mae canfyddiad yn cyfuno elfennau synhwyraidd (yr hyn a dderbyniwn trwy ein synhwyrau) â'r gwybyddol (gwybodaeth a dealltwriaeth a gafwyd o lawer o ffynonellau a phrofiadau).
Cymeriad	Gweler Cymeriad morlun neu Cymeriad tirwedd.
Cymeriad morlun	Mae cymeriad morlun yn batrwm pendant ac adnabyddadwy o elfennau yn y morlun sy'n gwneud un morlun yn wahanol i un arall, yn hytrach nag yn well neu'n waeth.
Dosbarthu	Proses o rannu'r morlun neu'r dirwedd yn ardaloedd o gymeriad amlwg, adnabyddadwy a chyson cyffredin a grwpio ardaloedd o gymeriad tebyg gyda'i gilydd. *
Elfennau	Cydrannau unigol o'r morlun megis traethau, clogwyni, riffiau tanddwr, morgloddiau, grwynau a brigiadau creigiog.
Mathau o gymeriadau morlun	Mae'r rhain yn fathau gwahanol o forluniau sy'n gymharol unffurf eu cymeriad. Maent yn generig eu natur yn yr ystyr y gellir eu canfod mewn gwahanol leoliadau ond lle bynnag y byddant, maent yn rhannu cyfuniadau sy'n debyg yn fras o ran bathymetreg, daeareg gwely'r môr a nodweddion hinsawdd tonnau.
Morlun	Ardal o fôr, arfordir a thir, fel y mae pobl yn ei gweld, y mae ei chymeriad yn ganlyniad gweithredoedd a rhyngweithiadau tir â'r môr, trwy ffactorau naturiol a/neu ddynol.
Nodweddion (cymeriadol)	Elfennau, nodweddion tirnodol a rhinweddau sy'n cyfrannu'n benodol at gymeriad unigryw. *
Nodweddion (tirnodol)	Elfennau arbennig o amlwg neu drawiadol megis goleudai, staciau a chlogwyni arfordirol.
Nodweddion allweddol	Y cyfuniad o elfennau sy'n helpu i roi ei naws cryf am le i ardal. Mewn llawer o achosion gallant fod yn nodweddion 'cadarnhaol' ond gallant hefyd fod yn nodweddion 'negyddol' sydd, serch hynny, yn bwysig i gymeriad presennol y morlun. *
Pennu cymeriad	Y broses o adnabod ardaloedd o gymeriad tebyg, eu dosbarthu a'u mapio a disgrifio eu cymeriad. *
Sensitifrwydd morlun	Gallu'r morlun i ymateb i newid a'i gymhwyso. Mae'n adlewyrchu cymeriad y morlun a natur y newid yn y modd y bydd pobl yn cael canfyddiad a

	phrofiad o'r ddwy agwedd.
Strategaeth morlun	Amcanion a gweledigaeth gyffredinol ynglŷn â sut olwg ddylai fod ar y morlun yn y dyfodol, a'r hyn y credir ei fod yn ddymunol ar gyfer math penodol o forlun neu ardal cymeriad morlun benodol.
Terfynau tua'r tir (asesiad cymeriad morlun)	Y pellter y bydd yr asesiad cymeriad morlun yn ymestyn iddo ar y lan ac yn fewndirol. Mae ystyriaethau o'r fath yn ymwneud â'r tir mawr, penrhynau ac ynysoedd, waeth beth yw eu pellter allan ar y môr. Mae'r graddau'n dibynnu ar bwrpas a/neu gwmpas yr asesiad sy'n cael ei gynnal.

*Natural England, An approach to landscape character assessment, (2014).

Talfyriadau a ddefnyddir yn y testun

ACAA	Ardal Cadwraeth Arbennig Arfaethedig
ACT	Asesiad cymeriad tirwedd *neu* ardal cymeriad tirwedd
ACM	Asesiad cymeriad morlun / ardal cymeriad morlun
AEA	Asesiad o effaith amgylcheddol
AEDEW	Asesiad o'r effaith ar dirwedd a'r effaith weledol
AEDMEW	Asesiad o'r effaith ar dirwedd a morlun a'r effaith weledol
AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
AHNE	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
APCAP	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
CCA	Canllawiau cynllunio atodol
CDLl	Cynllun Datblygu Lleol
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
CSP	Cyngor Sir Penfro
GLVIA	Canllawiau ar gyfer asesu effaith tirwedd a gweledol (Guidelines for landscape and visual impact assessment)
HG	Heneb Gofrestredig
km	cilomedrau
m	metrau
MGM	Math o gymeriad morlun
PCAP	Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
SGDd	System gwybodaeth ddaearyddol (GIS)
SNH	Scottish Natural Heritage
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
THG	Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig
USO	Uwchlaw'r Seilnod Ordnans

Atodiad B Diffiniad o Garafán

Diffiniadau statudol o garafán

Diffinnir y term 'carafán' yn y Neddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 fel:

'unrhyw strwythur a gynlluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo y mae modd iddo gael ei symud o un lle i le arall (boed hynny trwy gael ei lusgo, neu drwy ei gludo ar gerbyd modur neu drelar) ac unrhyw gerbyd modur sydd wedi'i gynllunio felly neu wedi'i addasu...'

Ychwanegwyd at y diffiniad hwn gan Adran 13 o Ddeddf Safleoedd Carafanau 1968 ac wedi hynny Gorchymyn Deddf Safleoedd Carafanau 1968 (Diwygio) (Cymru) 2007 i gynnwys diffiniad penodol ar gyfer carafanau dwy uned fel y'u gelwir. Dylai'r rhain fod:

(a) Yn cynnwys dim mwy na dwy ran wedi'u hadeiladu ar wahân a'u cynllunio i'w cydosod ar safle trwy folltau, clampiau neu ddyfeisiau eraill a;
(b) Pan gânt eu datgymalu, yn gallu cael eu symud ar y ffordd o un lle i le arall (boed hynny trwy gael eu tynnu, neu trwy gael eu cludo ar gerbyd modur neu drelar)
Ar yr amod, pan fyddant wedi'u cydosod:
(a) Nad yw eu hyd (ac eithrio unrhyw far tynnu) yn fwy na 65.616 troedfedd (20m);
(b) Nad yw eu lled yn fwy na 22.309 troedfedd (6.8m);
(c) Nad yw uchder llawn y llety byw (wedi'i fesur yn fewnol o'r llawr i lefel isaf y nenfwd ar y lefel uchaf) yn fwy na 10.006 troedfedd (3.05m)

Mae carafanau teithiol yn fath o garafán sy'n gyfreithlon ar y ffordd ac y gellir eu tynnu y tu ôl i gerbyd ar y briffordd gyhoeddus.

Mae carafán statig yn derm a ddefnyddir ar gyfer carafanau sy'n aros ar y safle trwy gydol y flwyddyn ond sydd serch hynny yn symudol ac yn 'garafanau' o fewn y diffiniad. Mae gan y rhain siasi ac olwynion ac maent wedi'u gosod ar lain sydd â wyneb arno. Fel rheol mae gan bob carafán gysylltiadau gwaredu gwastraff, draenio, dŵr a thrydan ar y llain. Mae gan rai ddeciau a ffensys cysylltiedig. Ar ddiwedd eu hoes gellir cludo'r unedau hyn oddi ar y safle.